Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwella addysgu

Mehefin 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **1: Crynodeb o ganfyddiadau arolygu ac ymchwil addysg** | **2** |
| **2a: Argraffluniau o ysgolion sydd wedi gwella eu haddysgu** | **7** |
| **2b: Astudiaethau achos o ysgolion sydd wedi gwella eu haddysgu** | **14** |
| **<u>Symud ymlaen o gategori statudol</u>** | **14** |
| **Ysgol Gynradd Tŷ-du** | **14** |
| **Ysgol Gynradd Sgeti** | **18** |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach** | **22** |
| **Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIII** | **26** |
| **Coleg Cymunedol Tonypandy** | **30** |
| **<u>Gadael y categori monitro gan Estyn</u>** | **33** |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Neyland** | **33** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Siôr** | **37** |
| **Ysgol Uwchradd Llysweri** | **40** |
| **Ysgol Syr Hugh Owen** | **43** |
| **Ysgol Uwchradd Aberteifi** | **46** |
| **<u>Adeiladu ar arfer dda bresennol mewn addysgu</u>** | **50** |
| **Ysgol Gynradd Deighton** | **50** |
| **Ysgol Gynradd Hafod** | **53** |
| **Ysgol Gynradd Maes-y-Coed** | **56** |
| **Ysgol Gynradd Oldcastle** | **60** |
| **Ysgol Cynwyd Sant** | **63** |
| **Ysgol Pencae** | **67** |

**Ysgol Gyfun Dŵr y Felin** **70**

**Ysgol Gyfun Tredegar** **73**

**Ysgol Bro Pedr** **76**

**Cynnal rhagoriaeth mewn addysgu** **81**

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg** **81**

**Ysgol Gynradd Herbert Thompson** **85**

**Ysgol Gynradd Parcyrhun** **87**

**Ysgol Gyfun Pontarddulais** **90**

**Ysgol Gyfun Y Pant** **93**

**Sail y dystiolaeth** **97**

**Geirfa** **99**

**Cyfeiriadau** **102**

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i'r rheiny sy'n gweithio gyda sefydliadau addysg a hyfforddiant athrawon.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn crynhoi tystiolaeth uniongyrchol o arolygiadau, ac ymweliadau ag, ysgolion yr astudiaethau achos a ddisgrifir yn rhan dau, yn ogystal â chanfyddiadau o ymchwil addysgol, i archwilio beth sy'n gwneud addysgeg ac addysgu effeithiol. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dulliau strategol a ddefnyddiwyd gan ysgolion i wella ansawdd yr addysgu a meithrin gallu addysgu ar gyfer y dyfodol.

Mae ail ran yr adroddiad hwn yn cyflwyno 24 o astudiaethau achos sy'n dangos sut mae arweinwyr ac athrawon wedi meithrin eu gallu i ysgogi gwelliant cynaliadwy yn ansawdd yr addysgu yn eu hysgolion. Mae'r astudiaethau achos yn archwilio teithiau gwelliant addysgegol pedair ysgol gynradd ar ddeg, naw ysgol uwchradd, ac un ysgol pob oed. Mae'r ysgolion yn wynebu amrywiaeth o heriau ac mae ganddynt wahanol fannau cychwyn, o ysgolion sydd wedi cael eu rhoi mewn categori statudol, i ysgolion sy'n cynnal lefelau uchel o berfformiad dros gyfnod. Mae'r astudiaethau achos wedi cael eu rhoi mewn grwpiau fel a ganlyn, i ddangos gwahanol fannau cychwyn yr ysgolion:

- Symud ymlaen o gategori statudol
- Gadael y categori monitro gan Estyn
- Adeiladu ar arfer dda bresennol mewn addysgu
- Cynnal rhagoriaeth mewn addysgu

## 1: Crynodeb o ganfyddiadau arolygu ac ymchwil addysg

Mae ymchwil addysg yn awgrymu'n gryf mai addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n dylanwadu fwyaf ar ddysgu disgyblion, o blith yr holl ffactorau addysg. Yn ei lyfr, Leadership for Teacher Learning, mae Wiliam (2016) yn crynhoi canfyddiadau llawer o astudiaethau hydredol o effeithiolrwydd athrawon. Mae'n datgan, 'mae tystiolaeth sylweddol fod gwahaniaethau sylweddol yn effeithiolrwydd cymharol gwahanol athrawon' ac mae'n debygol fod, 'yr athrawon mwyaf effeithiol bum gwaith yn fwy effeithiol na'r rhai lleiaf effeithiol' (Wiliam, 2016, tud.35). Mae Wiliam (2016, tud.35) yn dod i'r casgliad, 'mae maint y gwahaniaethau rhwng athrawon yn eu heffeithiau ar ddysgu myfyrwyr yn golygu ei bod yn anodd rhagweld unrhyw ffordd effeithiol o wella ansawdd deilliannau addysgol ar gyfer pobl ifanc nad yw'n cynnwys ymdrech barhaol i wella ansawdd yr addysgu'.

Mae safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017a) yn rhoi addysgeg effeithiol wrth wraidd gwella ysgolion ac yn dweud mai dyma'r ffocws ysgogol ar gyfer arweinwyr ysgolion. Mae adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (The Welsh Educational Reform Journey: A rapid policy assessment, 2017) yn datgan bod datblygu proffesiwn addysgu o ansawdd uchel yn allweddol ar gyfer llwyddiant ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r cyngor hwn yn adeiladu ar adroddiad yr OECD yn 2014, sef Improving Schools in Wales: An OECD Perspective, lle roedd meithrin cyfalaf proffesiynol ymhlith athrawon ac arweinwyr yn argymhelliad canolog.

Canolbwyntiodd adran thematig Adroddiad Blynyddol Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015-2016 ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn nysgu proffesiynol athrawon (Estyn, 2017). Mae tystiolaeth a geir trwy weithgarwch arolygu a chanfyddiadau arolygon thematig yn dangos mai dyma'r meysydd allweddol sy'n cyfrannu at ddysgu ac addysgeg broffesiynol lwyddiannus:

- creu'r diwylliant a'r amodau cywir ar gyfer dysgu proffesiynol
- meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol o fewn a rhwng ysgolion
- ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil a gwneud gwaith ymchwil
- defnyddio data a thechnolegau newydd fel sbardunau ar gyfer gwelliant ac arloesedd
- dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol a datblygiad staff

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod ysgolion yn rhoi bri mawr ar ddysgu, i staff yn ogystal â disgyblion, ac mai gwella addysgu oedd y broses allweddol a oedd yn cyfrannu at wella safonau disgyblion.

Mae adroddiad yr OECD, 2016 'What makes a school a learning organisation?', yn datgan bod arferion a diwylliant ar draws sefydliad yn allweddol ar gyfer sefydliad dysgu llwyddiannus. Dywed yr adroddiad fod rhaid i weledigaeth yr ysgol ganolbwyntio ar ddysgu'r holl ddisgyblion, gan greu diwylliant o gefnogi dysgu parhaus pob un o'r staff, a hyrwyddo dysgu a chydweithio tîm ymhlith staff. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai'r elfennau sy'n hanfodol ar gyfer cydweithio ymhlith staff yw: ymddiriedaeth, amser, technoleg a meddwl gyda'n gilydd.

Mae arweinwyr ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio yn eu hysgolion.  Mae llawer ohonynt yn meithrin diwylliant anfygythiol a chefnogol o amgylch arsylwadau gwersi ac maent yn symud oddi wrth lunio barnau am wersi unigol yn rheolaidd.  Yn hytrach, maent yn annog staff i arfarnu eu harfer eu hunain trwy ddefnyddio technoleg fideo neu arsylwadau cymheiriaid.  Mae llawer ohonynt eisiau hyrwyddo diwylliant ystafell ddosbarth agored lle mae athrawon yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn fodlon trafod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu harfer eu hunain ac arfer eu cydweithwyr.  Mae dysgu a chydweithio fel tîm yn ganolog i'r ysgol fel sefydliad dysgu ac i ddatblygiad addysgegol athrawon a staff cymorth.  Mae ymchwil Hattie, Masters a Birch (2016) yn cefnogi'r canfyddiad hwn.  Maent yn dod i'r casgliad fod dysgu cydweithredol yn effeithiol a bod effaith dysgu ac adborth cymheiriaid yn hynod bwerus wrth helpu athrawon (a disgyblion) i fireinio eu harfer.

Cyfosododd Hattie (2009) y canfyddiadau o dros 800 o fetaddadansoddiadau yn rhychwantu cyfnod o 15 mlynedd.  Awgrymodd cydbwysedd y dystiolaeth mai dyma oedd yr arferion ystafell ddosbarth sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion:

- addysgu cyfatebol – athrawon yn galluogi disgyblion i ddysgu a defnyddio hunanddysgu
- adborth – ymatebion penodol i waith disgyblion
- addysgu hunaneirioli neu hunanholi i ddisgyblion
- strategaethau metawybyddiaeth – ymwybyddiaeth a gwybodaeth am eich meddwl eich hunain
- technegau datrys problemau

Daeth Hattie i'r casgliad fod 'y prif ddulliau hyn yn dibynnu ar ddylanwad cymheiriaid, dysgu tryloyw, bwriadau a meini prawf llwyddiant, gan ddefnyddio strategaethau amrywiol sy'n rhoi sylw i wybodaeth arwyneb a manwl fel ei gilydd' (Hattie, 2012, tud.52).

Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr ac athrawon yn symud oddi wrth ddiwylliant o ystafell ddosbarth gaeedig lle nad yw athrawon yn trafod eu haddysgu.  Mae arweinwyr am i athrawon deimlo'n gyfforddus i gyfaddef eu bod yn cael eu herio trwy addysgu testun penodol neu'u bod yn gweld dosbarth yn anodd.  Nid ydynt am i staff deimlo bod hyn yn cyfaddef methiant, ond yn hytrach mai rhywun proffesiynol sy'n chwilio am gyngor adeiladol gan gydweithwyr y mae'n ymddiried ynddynt.  Mae llawer o ysgolion yn defnyddio dull hyfforddi neu fentora i helpu athrawon i drafod a gwella eu harfer.  Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn strwythuro sgyrsiau am hyfforddi gan ddefnyddio model GROW a ddatblygwyd gan Whitmore (1999).  Mae GROW yn sefyll am y canlynol:

- Goal (Nod) – beth ydych chi eisiau ei gyflawni?
- Reality (Realiti) – ble rydych chi nawr?
- Options (Opsiynau) – sut gallech chi gyflawni'ch nod?
- Will or Way Forward (Ewyllys neu'r Ffordd Ymlaen) – beth ydych chi'n mynd i'w wneud?

Mae'r dulliau hyn wedi profi'n fuddiol wrth hwyluso sgyrsiau dysgu proffesiynol ac wrth helpu staff i fyfyrio ar eu harfer, a'i rhannu.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon

yn gweld arsylwadau gwersi fel rhan o broses ddilysu allanol, ond fel ffordd o wella arfer ac addysgeg yn eu sefydliad.

Mewn rhai ysgolion gwannach, mae arweinwyr yn defnyddio arsylwadau gwersi fel rhywbeth y maent yn ei 'wneud' i athrawon. Maent yn dibynnu'n fawr ar ddull ticio blychau ac yn llunio barnau wedi'u graddio nad ydynt yn adlewyrchu effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn tueddu i lunio barnau rhy hael am ansawdd yr addysgu. Maent yn aml yn cael trafferth nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn addysgu ar lefel ysgol gyfan ac ymarferwr unigol.

Mewn ysgolion lle mae addysgeg ac addysgu effeithiol, mae arweinwyr yn adnabod eu staff yn dda. Maent yn deall lefel arfer bresennol athrawon unigol a'r camau sydd eu hangen i gyrraedd nodau gwella addysgegol yr athro a'r ysgol. Mae arweinwyr yn deall nad yw ennill mwy o brofiad yn unig yn gwella perfformiad athrawon o reidrwydd.

Mae Wiliam (2016) yn defnyddio ystod o ganfyddiadau ymchwil i ddod i'r casgliad nad yw perfformiad cychwynnol athro wrth ddechrau yn y proffesiwn yn arwydd o'i berfformiad ymhen pum mlynedd. I wella addysgu, mae gofyn cael arfer fwriadol o fewn fframwaith strwythuredig o weithgareddau sydd â'r nod eglur i wella perfformiad. Mae Hargreaves a Fullan (2012) yn awgrymu na fydd athrawon yn gwella eu gallu, er enghraifft wrth roi adborth effeithiol, dim ond am fod arweinwyr yn eirioli ei fod yn ddull da. Bydd angen i athrawon arsylwi, profi, ymholi ac arbrofi â thechnegau i ddatblygu adborth effeithiol, beth bynnag fo lefel eu profiad. Mae arweinwyr mewn ysgolion effeithiol yn deall y bydd angen amser ac ymdrech i newid yr hyn y mae athrawon yn ei wneud yn eu hystafelloedd dosbarth. Dywed Wiliam (2016, tud.163), 'Mae cynnal newidiadau yn yr hyn mae athrawon yn ei wneud yn eu hystafelloedd dosbarth yn cynnwys newid arferion hynod awtomataidd; proses i newid ffyrdd arferol yw newid arfer yn ei hanfod'. Ymchwiliodd Lally et al. (2010) i ba mor hir yr oedd yn ei gymryd i oedolion ffurfio arfer a darganfuwyd bod hyn yn cymryd mwy na deufis ar gyfartaledd. Roedd pa mor hir yr oedd yn ei gymryd yn amrywio yn dibynnu ar yr ymddygiad, yr unigolyn a'r amgylchiadau. Mae hyn yn awgrymu na fydd newid arferion mewn addysgu yn digwydd yn gyflym a bydd yn cymryd gwahanol faint o amser i athrawon ymgorffori'r gwelliannau a ddymunir.

Yn y gorffennol, mae gormod o ysgolion a gwasanaethau gwella ysgolion wedi rhoi strategaethau ar waith nad ydynt yn cael eu cefnogi gan waith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er enghraifft, daeth Pashler, et al. (2008, tud.117), i'r casgliad fod, 'y cyferbyniad rhwng poblogrwydd enfawr y dull arddulliau dysgu mewn addysg a'r diffyg tystiolaeth gredadwy ar gyfer ei defnyddio yn drawiadol ac yn destun pryder, yn ein barn ni. Os oes budd ymarferol i ddosbarthu arddulliau dysgu myfyrwyr, nid yw hyn wedi cael ei ddangos eto'. Hefyd, nid oes unrhyw dystiolaeth fod gweithgareddau fel hyfforddi'r ymennydd ac ymarfer yr ymennydd yn effeithiol o ran gwella safonau. Mae Wiliam (2016, tud.177) yn datgan, 'A dweud y gwir, proses hunanfoddhaus yw treulio amser ar bethau (niwrowyddoniaeth, ymarfer yr ymennydd, astudio mewn gwersi, arddulliau dysgu) sydd efallai yn helpu, neu ddim yn helpu, myfyrwyr pan fydd tystiolaeth gadarn am yr hyn sy'n helpu myfyrwyr'.

Nid yw ysgolion sy'n effeithiol o ran gwella a chynnal perfformiad addysgu bob amser yn dilyn y tueddiadau diweddaraf, yn enwedig y rheiny nad ydynt wedi'u profi. Mae

arweinwyr yn ddigon cryf i ymwrthod â mentrau nad ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol yn eu hysgol.  Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn chwilio am dystiolaeth fod arloesi yn debygol o gynnig manteision i athrawon a disgyblion.  Defnyddiant dystiolaeth ymchwil ac ymchwil weithredu i lywio eu penderfyniadau.

Yr ysgolion mwyaf effeithiol yn yr arolwg hwn oedd y rheiny a oedd yn defnyddio tystiolaeth yn dda i lywio eu harfer.  Roeddent yn allblyg, yn trafod ymchwil yn rheolaidd, ac yn dysgu oddi wrth arfer orau yn eu sefydliadau eu hunain ac mewn sefydliadau eraill.  Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn chwilfrydig am beth oedd yn gweithio orau i'w disgyblion.  Roeddent yn meddwl yn feirniadol am addysgeg, yn darllen yn eang am addysgu a dysgu, ac yn trafod eu gwaith gydag athrawon eraill. Roedd staff yn ymdrechu i ddeall "pam" a "sut" o ran addysgu, yn ogystal â "beth".

Roedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn annog rhwydweithio eang ar draws sectorau, adrannau ac ysgolion.  Roedd ganddynt ffocws clir ac eglur ar strategaethau addysgegol ysgol gyfan sy'n gysylltiedig â chynnydd disgyblion ac yn mesur effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau disgyblion yn rheolaidd.  Mewn ysgolion llai effeithiol, arhosai staff tan ddiwedd blwyddyn academaidd i fyfyrio ar ba mor dda yr oedd strategaethau gwella wedi effeithio ar ddeilliannau disgyblion.

Roedd gan yr ysgolion mwyaf effeithiol bolisïau clir i gynorthwyo athrawon wrth gyflwyno gwersi.  Roedd y polisïau'n nodi cyfrifoldebau athrawon yn ddiamwys o ran eu harfer ystafell ddosbarth, gan gynnwys cynllunio, asesu ac adborth.  Gwnaeth y polisïau gysylltiadau cryf hefyd rhwng y cwricwlwm, addysgeg, addysgu a dysgu. Arweiniodd hyn at lefelau uchel o gysondeb ac atebolrwydd.

Mae arolygu'n awgrymu bod rhagoriaeth mewn addysgu yn cyfuno strategaethau addysgegol hynod effeithiol â rhoi'r strategaethau hyn yn eu cyd-destun o fewn gwahanol bynciau a meysydd dysgu.  Mae'r athrawon a'r adrannau mwyaf effeithiol yn meddu ar wybodaeth bwnc fanwl ac maent yn dewis y dull gorau ar gyfer y gweithgaredd a'r pwnc.  Yn aml, mae arweinwyr yn rhoi pwyslais tebyg ar staff yn dysgu am ddatblygiadau diweddar yn eu sector neu'u pwnc ochr yn ochr â strategaethau gwella addysgegol effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.  Mae hyn yn golygu bod yr ysgolion mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r 12 egwyddor addysgegol a mynd i'r afael â'r gyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg fel y dyfynnir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

Mewn llawer o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg thematig hwn, mae uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella addysgu ac addysgeg.  Yn gyffredinol, maent:

- yn meithrin diwylliant o ymholi ac ymgysylltu
- yn ymddiried yn eu staff i wneud dewisiadau proffesiynol
- yn meddu ar bolisi ystafelloedd dosbarth agored
- yn creu cyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol ynghylch addysgu
- yn rhoi addysgu ac addysgeg fel eitemau agenda yn rheolaidd mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr a staff
- yn defnyddio diwrnodau datblygiad proffesiynol fel cyfleoedd strategol i archwilio mentrau pellach mewn addysgu a dysgu
- yn creu amser dynodedig i athrawon gymryd rhan mewn arsylwadau cymheiriaid ac ymchwil weithredu

- yn defnyddio ymchwil i lywio'r penderfyniadau a'r strategaeth ar gyfer eu hysgol
- yn meddu ar bolisïau ar gyfer addysgu, adborth a'r cwricwlwm y mae pob un o'r staff yn eu deall ac yn cadw atynt
- yn sefydlu perthnasoedd proffesiynol yn eu rhanbarth a thu hwnt
- yn gofyn am gyngor arbenigol, ac yn gweithredu yn unol â hynny

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno strategaethau amrywiol gyda'r bwriad o wella ansawdd addysgu a dysgu, a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu harfer trwy gydol eu gyrfaoedd. Y nod yw meithrin gallu a rhoi diwedd ar yr amrywiadau o fewn ysgolion, a rhyngddynt. Mae diwygiadau addysg presennol yn seiliedig ar fodel system hunanwella a gweithio rhwng ysgolion. Mae hyn yn golygu, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, bod arweinwyr ac athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain a datblygiad eu cymheiriaid. Caiff y dull hunanwella hwn ei arwain gan yr ysgol, a'i gydbwyso gan gymorth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r strategaethau hyn yn llwyddiannus a chyflawni amcan galluogi 1: datblygu proffesiwn addysgu o ansawdd uchel, fel y dyfynnir yn y cynllun, Addysg yng Nghymru: ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21 (Llywodraeth Cymru, 2017b).

# Mae addysgu a dysgu da yn :

- canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
- golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
- golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad
- cryfhau y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn gyson, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer
- cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain
- hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- hybu cydweithio

## 2: Argraffluniau o ysgolion sydd wedi gwella eu haddysgu

### Symud ymlaen o gategori statudol

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Tŷ-du** ym mis Rhagfyr 2013 a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arni. Gwnaed sawl argymhelliad i'r ysgol yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu, yn ogystal â'r angen i wella cynllunio ac asesu. Y mater mwyaf arwyddocaol ynglŷn â'r maes hwn o waith yr ysgol oedd yr angen i sefydlogi addysgu ac arweinyddiaeth fel y gallai'r ysgol ddarparu parhad ar gyfer disgyblion, a allai wedyn elwa'n fwy effeithiol ar fedrau ac arbenigedd athrawon.

Pan gafodd yr ysgol ei monitro gan Estyn ym mis Chwefror 2015, roedd cynnydd yn erbyn bron pob un o'r argymhellion yn dda iawn. Roedd sefydlu timau cwricwlwm effeithiol wedi ysgogi dull ysgol-gyfan cyson o gynllunio'r cwricwlwm. Roedd prosesau asesu gwell yn golygu bod athrawon yn cael darlun cywir o alluoedd disgyblion. Yn sgil arweinyddiaeth gadarn a rolau a chyfrifoldebau clir, galluogwyd pob un o'r staff i gyflawni eu swyddi'n fwy effeithiol. Yn sgil creu timau ar draws sectorau, galluogwyd staff addysgu a staff cymorth i rannu'r cyfrifoldeb ar gyfer gwella'r ysgol. Roedd ffocws manwl mewn cyfarfodydd ar wella darpariaeth a safonau yn darparu cyfleoedd da i staff ym mhob cyfnod o'u gyrfa ddatblygu a mireinio eu medrau arwain. Hefyd, roedd gweithio mewn timau gyda chydweithwyr cefnogol wedi helpu gwella morâl staff yn sylweddol.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Sgeti** ym mis Chwefror 2015. Barnodd arolygwyr fod perfformiad a rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn ddigonol. Rhoesant yr ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol statudol gwelliant sylweddol. Barnodd arolygwyr fod ansawdd yr addysgu yn anfoddhaol. Fe wnaethant nodi meysydd ychwanegol i'w gwella yn narpariaeth y cyfnod sylfaen, cynllunio ac asesu athrawon ac yn arweinyddiaeth yr ysgol. Ym mis Mai 2016, cynhaliodd arolygwyr ymweliad dilynol. Barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd, a thynnwyd yr ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach** ym mis Ionawr 2015 a barnwyd bod angen mesurau arbennig arni. Gadawodd y tîm arolygu'r ysgol ag wyth argymhelliad, ac un ohonynt oedd gwella marcio athrawon i sicrhau bod eu sylwadau'n helpu disgyblion i ddeall sut i wneud eu gwaith yn well. Nododd yr adroddiad fod disgwyliadau athrawon o'r hyn y gallai disgyblion ei gyflawni yn aml yn rhy isel. Cynhaliodd arolygwyr dri ymweliad dilynol a thynnwyd enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig ym mis Mawrth 2016. Roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf neu dda iawn wrth fynd i'r afael â phob un o'r wyth argymhelliad. Mae'r pennaeth yn enghraifft dda o bennaeth hirsefydledig a arhosodd yn ei swydd ar ôl barn mesurau arbennig, a gweithiodd yn llwyddiannus gyda'i staff a'r gwasanaethau cymorth lleol a rhanbarthol i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol.

Arolygwyd **Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIII** ym mis Rhagfyr 2014. Barnodd arolygwyr nad oedd perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg a bod gormod o amrywiad mewn prosesau

hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol. Barnodd y tîm arolygu fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol a gadawodd yr ysgol â phum argymhelliad. Tynnodd Estyn enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol ym mis Mehefin 2016 gan ei bod wedi gwneud cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion. Mae arweinwyr wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i wella ansawdd yr addysgu a rhannu arfer dda ar draws yr ysgol.

Arolygwyd **Coleg Cymunedol Tonypandy** ym mis Tachwedd 2014. Barnodd arolygwyr fod angen mesurau arbennig ar yr ysgol. Gadawodd arolygwyr yr ysgol â chwe argymhelliad, ac un o'r rhain oedd gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu. Tynnodd Estyn enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig ym mis Tachwedd 2016 ar ôl chwe ymweliad dilynol gan ei bod wedi gwneud cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth buddiol i'w staff, sydd wedi gwella ansawdd yr addysgu yn llwyddiannus.

### Gadael y categori monitro gan Estyn

Arolygwyd **Ysgol Gymunedol Neyland** ym mis Medi 2014 a barnwyd bod angen iddi gael ei monitro gan Estyn. Gadawodd y tîm arolygu'r ysgol â chwe argymhelliad. Roedd dau o'r argymhellion ynglŷn â gwella agweddau ar addysgu, yn gyntaf trwy addasu gwaith i fodloni anghenion a galluoedd disgyblion, ac yn ail trwy wella ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Mae'r adroddiad yn datgan hefyd na wnaeth arweinwyr wneud yn siŵr fod mentrau cytûn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws yr ysgol, na chymryd digon o sylw o ddeilliannau o weithgareddau arfarnu, fel arsylwadau gwersi. Ym mis Rhagfyr 2015, cynhaliodd arolygwyr ymweliad dilynol. Barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf neu dda iawn o ran pob un o'r chwe argymhelliad.

Erbyn hyn, mae arweinwyr yn ystyried ystod eang o dystiolaeth i wella ansawdd yr addysgu ac maent wedi sicrhau dull cyson o ran arfer ystafell ddosbarth.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Siôr** ym mis Ebrill 2012 ac eto ym mis Mai 2015. Ar y ddau achlysur, barnodd arolygwyr fod ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth yn ddigonol a rhoddwyd yr ysgol yn y categori monitro gan Estyn. Roedd adroddiadau'r ddau arolygiad yn cynnwys argymhellion i wella ansawdd yr addysgu. Yn 2015, argymhellodd arolygwyr hefyd y dylai'r ysgol wella'r ddarpariaeth i fodloni gofynion ac ethos y cyfnod sylfaen. Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliodd arolygwyr ymweliad dilynol. Barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf o ran yr argymhellion hyn.

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio ystod addas o ddulliau i wella a sicrhau ansawdd ei safon addysgu.

Arolygwyd **Ysgol Uwchradd Llysweri** ym mis Ebrill 2013 a barnwyd bod angen iddi gael ei monitro gan Estyn. Dywedodd y tîm arolygu fod diffygion mewn addysgu ar draws yr ysgol. Fe wnaethant argymell y dylai'r ysgol wella ansawdd a chysondeb yr addysgu. Adolygodd Estyn gynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhellion ym mis Hydref 2015 a barnodd nad oedd angen unrhyw fonitro pellach mewn perthynas â'r arolygiad.

Mae Ysgol Uwchradd Llysweri wedi cynnal ei ffocws ar wella arferion addysgu ac addysgegol.

Arolygwyd **Ysgol Syr Hugh Owen** ym mis Mawrth 2016. Canlyniad yr arolygiad oedd y byddai'r ysgol yn cael ei monitro gan Estyn. Barnodd y tîm arolygu fod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol a bod ei rhagolygon gwella yn dda. Gadawodd arolygwyr yr ysgol â phedwar argymhelliad, ac un ohonynt oedd, 'cryfhau a sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol trwy rannu arfer orau'. Ym mis Hydref 2016, tynnodd arolygwyr enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn.

Gwnaeth Ysgol Syr Hugh Owen gynnydd cyflym wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd a sylwodd arolygwyr ar ysbryd cryf o gydweithrediad ymhlith arweinwyr ar bob lefel.

Arolygwyd **Ysgol Uwchradd Aberteifi** ym mis Ionawr 2015. Barnodd arolygwyr fod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol a bod ei rhagolygon gwella yn dda. Nododd y tîm arolygu y byddai'r ysgol yn cael ei monitro gan Estyn. Barnodd arolygwyr fod yr addysgu'n dda ar y cyfan, ond fod diffyg cysondeb. Er enghraifft, hanner o'r athrawon yn unig oedd yn dewis a pharatoi adnoddau'n ofalus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Gadawodd y tîm arolygu'r ysgol ag argymhelliad i wella'r addysgu trwy sicrhau bod pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau i brocio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Ym mis Tachwedd 2016, barnodd Estyn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da a thynnodd enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn.

## Adeiladu ar arfer dda bresennol

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Deighton** ym mis Hydref 2011, a barnodd arolygwyr fod angen gwelliant sylweddol arni. Tynnodd arolygwyr yr ysgol o'r lefel hon o weithgarwch dilynol ym mis Mehefin 2013 gan fod ei harweinwyr newydd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Pan arolygwyd yr ysgol gan Estyn eto ym mis Mehefin 2015, roedd y pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi cynnal ei gwelliant cyflym a barnodd arolygwyr fod yr ysgol yn dda ar draws pob dangosydd ansawdd.

Mae'r ysgol yn parhau ar ei thaith i wella trwy rannu arfer dda mewn addysgu ar draws yr ysgol i sicrhau safon gyson uchel.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Hafod** ym mis Medi 2014. Barnodd arolygwyr fod ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda a bod rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol.

Mae gan yr ysgol ethos cryf o ddatblygu addysgu i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion. Mae'r ethos cyffredinol i ddarparu cwricwlwm cyfoethog yn ategu arddull cyflwyno gwersi. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion o ystod eithriadol o amrywiol o gefndiroedd i wneud yn dda iawn yn yr ysgol.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Maes-y-Coed** ym mis Gorffennaf 2010 a rhoddwyd hi yn y categori gwelliant sylweddol. Argymhellodd yr arolygiad y dylai'r ysgol wella ansawdd yr addysgu. Pan arolygwyd yr ysgol gan Estyn ym mis Mawrth 2015, barnodd arolygwyr fod perfformiad presennol a rhagolygon gwella'r ysgol yn dda.

Barnwyd bod yr addysgu'n dda, a bod bron yr holl addysgu'n effeithiol. Gadawodd y tîm arolygu'r ysgol â phedwar argymhelliad, yr oedd un ohonynt yn ymwneud â rhannu arferion addysgu effeithiol yn yr ysgol i sicrhau cysondeb ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol wedi bod ar daith i wella o ran datblygu ansawdd a chysondeb yr addysgu. Un o nodweddion allweddol taith yr ysgol hon yw bod y rhan fwyaf o'r athrawon a oedd yn cael eu cyflogi yn ystod yr arolygiad yn 2010 yn parhau i weithio yn yr ysgol. Mae'r pennaeth, a oedd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol yn 2010, yn llwyddiannus wrth herio a chynorthwyo pob un o'r staff i wella'u harfer i safon uchel. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn parhau i wella ac mae'r ysgol yn anelu am ragoriaeth erbyn hyn.

Mae arweinwyr yn yr ysgol wedi dewis eu dull presennol o wella addysgu gan eu bod yn ei weld fel ffordd o uchafu'r cyfleoedd i staff weithio gyda'i gilydd, i fyfyrio ar eu harfer a chymryd rhan mewn prosiectau ymchwil weithredu.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Oldcastle** ym mis Mehefin 2017. Barnodd y tîm arolygu fod yr addysgu'n dda a bod y rhan fwyaf o'r gwersi'n ddiddorol a chyffrous. Mae adroddiad yr arolygiad yn nodi bod 'bron pob un o'r athrawon yn rhannu llawer o agweddau ar arfer ystafell ddosbarth effeithiol rhyngddyn nhw eu hunain a gydag ysgolion eraill'. Mae'r ysgol yn arwain gwaith ar y cyd â 28 ysgol arall ledled Cymru i fentora pobl newydd sy'n dechrau yn y proffesiwn. Mae'r gwaith partneriaeth llwyddiannus yn datblygu gallu i arwain ac yn herio'r ysgol i barhau i ddatblygu, gwella a mireinio ansawdd ei haddysgu a'i dysgu ei hun. Argymhellodd y tîm arolygu y dylai athrawon sicrhau eu bod yn gweddu gweithgareddau ystafell ddosbarth i anghenion dysgu disgyblion yn fwy penodol, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth â medrau sylfaenol, er mwyn gwella'r addysgu ymhellach.

Mae'r ysgol yn rhannu arfer mewn addysgu a dysgu yn effeithiol, yn yr ysgol a thu hwnt.

Arolygwyd **Ysgol Cynwyd Sant** ym mis Hydref 2016 a barnwyd bod ganddi arweinyddiaeth a rheolaeth, profiadau dysgu a rhagolygon gwella rhagorol. Mae'r pennaeth yn credu bod sicrhau dysgu proffesiynol rhagorol ar gyfer pob un o'i staff yn allweddol i lwyddiant yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn neilltuo adnoddau sylweddol i ddatblygu arweinwyr medrus ar bob lefel yn yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn gwneud cyfraniad rhagorol at sicrhau addysgu o ansawdd uchel ynghyd â chynnydd a safonau da iawn gan ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol hanes a brofwyd o arweinyddiaeth gref ac arwain arloesedd.

Arolygwyd **Ysgol Pencae** ym mis Ionawr 2017. Barnodd arolygwyr fod perfformiad presennol yr ysgol yn dda a bod rhagolygon gwella ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol. Mae timau o arweinwyr canol ac athrawon ar draws yr ysgol yn gyfrifol am ddatblygu agweddau penodol ar addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu bod staff ym mhob cyfnod o'u gyrfaoedd yn cael cyfleoedd rhagorol i wella fel athrawon a datblygu medrau arwain. Mae adroddiad yr arolygiad yn nodi cryfderau sylweddol mewn addysgu ar draws yr ysgol a barnodd fod yr addysgu'n dda ar y cyfan.

Mae'r ysgol yn datblygu athrawon i fod yn ymarferwyr ystafell ddosbarth effeithiol ac yn arweinwyr y dyfodol.

Arolygwyd **Ysgol Gyfun Dŵr y Felin** ym mis Mawrth 2017. Barnodd y tîm arolygu fod gan yr ysgol ragolygon gwella rhagorol a bod ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda. Gadawodd y tîm arolygu'r ysgol â thri argymhelliad, yr oedd dau ohonynt yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu. Yr argymhelliad cyntaf ynglŷn ag addysgu oedd 'gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig lefel yr her ar gyfer y dysgwyr mwy abl'. Yr ail argymhelliad, yn gysylltiedig ag addysgu, oedd 'gwella adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion ac ansawdd atebion disgyblion'. Nododd adroddiad yr arolygiad hefyd nad oedd rhai gwersi'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu tuag at eu dysgu. Roedd yr ysgol eisoes wedi nodi'r meysydd hyn i'w datblygu trwy graffu'n drylwyr iawn ar dystiolaeth uniongyrchol ac roedd wedi dechrau gweithio ar wella'r agweddau hyn.

Mae Dŵr y Felin yn gweithio'n strategol i gryfhau ei haddysgu a'i haddysgeg.

Arolygwyd **Ysgol Gyfun Tredegar** ym mis Tachwedd 2009. Nododd arolygwyr ddiffygion sylweddol mewn safonau cyrhaeddiad a phresenoldeb yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn i'r pennaeth presennol ymuno â'r ysgol ym mis Medi 2012, roedd canlyniadau wedi parhau i ostwng, ac roedd perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac yn y 50% isaf o ysgolion ar gyfer presenoldeb. Yn ychwanegol, roedd yr ysgol yn wynebu pwysau sylweddol o ran ei chyllideb, a gwaethygwyd hyn gan y gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr a cholli chweched dosbarth yr ysgol.

Yn ei harolygiad diweddaraf gan Estyn ym mis Hydref 2016, cyflawnodd yr ysgol farnau da yn gyffredinol am ei deilliannau a'i rhagolygon gwella. Nododd yr adroddiad fod yr ysgol wedi llwyddo i sefydlu addysgu cyson gryf a nododd effaith gadarnhaol hyn ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Barnodd Estyn hefyd fod yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol, gan nodi'r gwaith nodedig gydag ysgolion cynradd partner i sicrhau arferion dysgu ac addysgu cyson ar draws y clwstwr.

Mae'r ysgol wedi gwella ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion yn sylweddol ers ei nodi'n Ysgol Llwybrau Llwyddiant fel rhan o raglen Her Ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru yn 2014.

Arolygwyd **Ysgol Bro Pedr** ym mis Hydref 2016. Barnodd y tîm arolygu fod perfformiad, rhagolygon gwella a safon yr addysgu yn yr ysgol yn dda. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sydd wedi'i seilio ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad thematig hwn oherwydd y cryfderau a nodwyd mewn addysgu yn ystod yr arolygiad craidd a pha mor dda y mae'r ysgol wedi datblygu'r maes hwn o'i gwaith ymhellach.

## Cynnal rhagoriaeth mewn addysgu

Arolygwyd **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg** ym mis Mawrth 2009 a barnodd arolygwyr fod yr addysgu'n dda gyda nodweddion rhagorol. Nododd yr adroddiad fod y nodweddion rhagorol yn cynnwys disgwyliadau uchel, darpariaeth dda iawn ar gyfer gwahaniaethu, rhediad cyflym i'r dysgu, pwyslais cryf

ar ddysgu annibynnol a gwaith grŵp ar y cyd a grymuso disgyblion i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Ym mis Mawrth 2015, cafodd yr ysgol arolygiad arall. Cafodd yr ysgol y farn uchaf posibl eto am ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu. Dywedodd yr adroddiad hwn fod gan athrawon berthnasoedd gweithio effeithiol gyda disgyblion, a disgwyliadau uchel ohonynt. Mae'r adroddiad yn nodi bod y ffordd y mae athrawon yn annog a chynnwys disgyblion mewn cynllunio eu dysgu eu hunain yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol ac ar y cyd.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Herbert Thompson** ym mis Mawrth 2014. Cafodd yr ysgol farnau rhagorol am bob dangosydd ansawdd a'i pherfformiad presennol a'i rhagolygon gwella. Mae safonau cyson uchel yr addysgu ar draws yr ysgol yn ffactor arwyddocaol yn y safonau rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion, a'u lles. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol iawn ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol athrawon. Ceir trafodaeth agored am addysgu a dysgu ymhlith staff a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r prosesau hyn wedi cefnogi datblygiad addysgu o ansawdd uchel parhaus ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn parhau i wella'i safonau mewn dysgu ac addysgu, sydd eisoes yn uchel.

Arolygwyd **Ysgol Gyfun Pontarddulais** ym mis Mawrth 2016 a barnodd arolygwyr fod ei pherfformiad a'i rhagolygon gwella presennol yn rhagorol. Roedd ansawdd yr addysgu'n rhagorol hefyd. Dywedodd arolygwyr fod ansawdd cyson uchel yr addysgu yn un o brif gryfderau'r ysgol a'i fod yn cyfrannu'n sylweddol at ddeilliannau rhagorol disgyblion. Mae dull hunanarfarnu trylwyr yr ysgol a'i hymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth fel ysgogwr ar gyfer gwella'r ysgol wedi helpu sicrhau bod yr ysgol wedi cynnal rhagoriaeth dros gyfnod ac wedi datblygu ei diwylliant o gydweithio ac arloesedd ymhellach.

Mae Ysgol Gyfun Pontarddulais yn canolbwyntio'n ddiflino ar wella ansawdd yr addysgu.

Arolygwyd **Ysgol Gynradd Parcyrhun** ym mis Rhagfyr 2016. Barnodd arolygwyr fod perfformiad a rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn rhagorol. Barnwyd hefyd fod ansawdd yr addysgu yn rhagorol.

Ar ôl ei phenodi, sefydlodd y pennaeth flaenoriaethau i ddatblygu'r ysgol yn uned ddysgu drefnus, lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cryf. Dros y blynyddoedd, bu gwelliant mawr yn ymrwymiad y staff tuag at eu gwaith a'u hatebolrwydd o ran sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau'n llwyddiannus.

O ganlyniad i weledigaeth y pennaeth ac ymroddiad parhaus pob un o'r athrawon, mae safon yr addysgu wedi gwella'n raddol ac mae'n parhau i wella, gan sicrhau bod disgyblion bellach yn derbyn addysgu a phrofiadau dysgu rhagorol.

Mae'r ysgol yn ymdrechu'n barhaus i wella'i harferion addysgu ac addysgegol.

Arolygwyd **Ysgol Gyfun Y Pant** ym mis Hydref 2011 ac eto ym mis Ionawr 2017, pan oedd hi'n ysgol beilot ar gyfer y fframwaith arolygu newydd. Yn 2011, cafodd yr ysgol farnau rhagorol am berfformiad a rhagolygon gwella presennol, yn ogystal ag

am safonau ac addysgu.  Yn ei harolygiad diweddaraf, barnodd Estyn fod yr ysgol yn rhagorol ym mhob un o'r pum maes arolygu.

Mae'r ysgol wedi datblygu a chynnal ethos cryf o wella arfer athrawon ac o fod â disgwyliadau uchel o staff a disgyblion.  Mae'n rhoi pwyslais cryf iawn ar ddysgu proffesiynol, sy'n arwain at arfer ystafell ddosbarth hynod gyson ac effeithiol.

# Astudiaethau achos o ysgolion sydd wedi gwella eu haddysgu a symud ymlaen o gategori statudol

## Ysgol Gynradd Tŷ-du

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Tŷ-du yng Nghasnewydd.  Mae 609 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 76 o ddisgyblion meithrin rhan-amser.  Mae gan yr ysgol ddwy ganolfan adnoddau dysgu gyda lleoedd ar gyfer tua 20 o ddisgyblion o bob rhan o'r awdurdod lleol.

Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd.  Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn ohonynt ac 1% yn unig sy'n siarad Cymraeg gartref.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Secondiwyd y pennaeth o ysgol arall adeg yr arolygiad.  Daeth yn bennaeth parhaol ym mis Medi 2014.

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae ffocws yr ysgol bob amser yn gadarn ar wella cynnydd disgyblion a chodi safonau a gwella lles.  Y nod yw rhoi diben i'r holl ddysgu proffesiynol, sy'n cysylltu ag un o flaenoriaethau'r ysgol ac sy'n glir i bob un o'r staff.  Mae uwch arweinwyr yn annog pob un o'r staff i fyfyrio ar eu harfer a chymryd cyfrifoldeb am wella addysgu a dysgu yn eu hystafelloedd dosbarth.

Wrth i'r ysgol symud allan o welliant sylweddol, bu'n rhaid i uwch arweinwyr weithio'n galed i wella ymddiriedaeth broffesiynol ar draws yr ysgol.  Erbyn hyn, mae'r parch ar y ddwy ochr a'r ddealltwriaeth gytûn o addysgu o ansawdd uchel sy'n bodoli yn yr ysgol yn ganolog i ddiwylliant yr ysgol.  Mae'r ethos hwn yn annog athrawon a staff cymorth i ddatblygu agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu proffesiynol eu hunain.  Mae arweinwyr, sydd i gyd yn athrawon effeithiol, yn dangos a rhannu eu harfer eu hunain.  Mae athrawon yn croesawu'r cyfleoedd hyn ac yn elwa arnynt.  Mae'r pennaeth yn honni na allwch ddiystyru pa mor bwysig yw adnabod eich staff a'u cynnwys, yn enwedig mewn cyfnodau heriol.  Enghraifft o hyn yw sicrhau eich bod yn dyrannu tasgau i'r bobl fwyaf priodol, gan ystyried eu cryfderau a'u medrau penodol, yn ogystal â'u dyheadau.

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith cyhoeddedig i gefnogi holl arsylwadau athrawon.  Mae tair lefel o arsylwadau ystafell ddosbarth, sef: arsylwadau gwersi ffurfiol, sesiynau 'galw i mewn' anffurfiol, ac arsylwadau

cydweithredol a myfyriol rhwng grwpiau o dri athro. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn arsylwadau ar un lefel nwy fwy, yn dibynnu ar eu rôl a ffocws yr ysgol ar y pryd. Mae'r holl uwch arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ansawdd deilliannau arsylwadau ystafell ddosbarth. Maent yn personoli unrhyw arsylwadau gwersi dilynol fel y gallant fynd i'r afael ag anghenion datblygiadol unigol athrawon yn effeithiol.

Pan fydd arweinwyr yn cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth ffurfiol, er enghraifft at ddibenion rheoli perfformiad, maent yn ystyried pob agwedd ar y fframwaith cyhoeddedig, gan gadw cynnydd a safonau disgyblion fel y prif ysgogwr bob amser. Pan fydd uwch arweinwyr neu gydlynwyr pwnc yn cynnal 'sesiynau galw i mewn' byr, maent yn canolbwyntio ar feysydd penodol y fframwaith, sy'n berthnasol i flaenoriaethau'r ysgol neu anghenion staff unigol. Mewn enghraifft ddiweddar, edrychodd y cydlynydd mathemateg ar gyflymdra gweithgareddau cynhesu mathemategol, ac ystyried pa mor llwyddiannus yr oedd athrawon yn anelu'r sesiwn i fodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

I gynorthwyo athrawon i weithio mewn triawdau, buddsoddodd yr ysgol adnoddau mewn offer fideo a rhoddodd amser i athrawon ffilmio eu hunain yn gweithio. I ddechrau, gwnaeth athrawon hyn yn unigol. Pan welodd athrawon eu hunain yn addysgu eu dosbarthiadau eu hunain, teimlai llawer ohonynt fod hyn yn drobwynt pwysig iddyn nhw. Gallent nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu eu hunain, heb ofni beirniadaeth gan bobl eraill. Cawsant yr amser a'r lle i fyfyrio ar eu haddysgu eu hunain a dysgu'r disgyblion yn eu dosbarthiadau. Wedi i athrawon deimlo'n gyfforddus â'r arfer hon, trefnodd uwch arweinwyr yr athrawon yn grwpiau hyfforddi sector. Cynlluniodd y grwpiau gyfres o wersi gyda'i gilydd ac wedyn arsylwi a ffilmio'i gilydd yn addysgu. Ar ôl yr arsylwadau hyn, fe wnaethant fyfyrio ar ffocws penodol neu ar bwynt addysgu cyffredinol, gan ddefnyddio detholiadau bach o'r ffilmiau fel enghreifftiau o arfer dda neu i ddangos maes i'w wella. Roedd y dull systematig hwn yn golygu bod athrawon yn dod i arfer â gweithio fel hyn yn raddol. Galluogodd iddynt drafod addysgu'n fwy hyderus ac yn agored gyda chydweithwyr cefnogol a datblygu diwylliant o gydweithio a hunanarfarnu diffuant.

Datblygiad cymharol newydd yw'r defnydd o gyfraniadau disgyblion i wella agweddau ar addysgu. Mae grŵp dynodedig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn arsylwi addysgu a dysgu ochr yn ochr ag aelod o staff. Maent yn cytuno ar ffocws ac yn paratoi rhestr o gwestiynau i'w gofyn i ddisgyblion wrth iddynt fynd ar daith ddysgu neu arsylwi gwers. Y prif ffocws ar gyfer y grŵp yw ystyried profiad disgyblion, er enghraifft defnyddioldeb adnoddau ac arddangosfeydd a pha mor dda y mae disgyblion yn ymgymryd â'u dysgu. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu eu bod yn nodi agweddau ar yr addysgu hefyd, fel perthnasoedd athrawon gyda'u disgyblion, ac yn edrych ar ba mor dda y mae athrawon yn annog eu disgyblion i ymarfer y medrau y maent wedi eu dysgu o'r blaen. Yn ddiweddar, er enghraifft, aeth y grŵp disgyblion ar daith ddysgu trwy'r ysgol yn ystod gweithgareddau yn gynnar yn y bore i weld pa mor dda roedd disgyblion yn ymarfer eu sillafu.

Mae arweinwyr yn annog athrawon i fod yn arloesol yn eu dull addysgu a rhoi'r holl ddysgu mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Nid yw'r ysgol yn defnyddio cynllun ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ond yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd fel asgwrn cefn ar gyfer cynllunio athrawon. Mae hyn yn golygu bod rhaid i athrawon

ddefnyddio dull creadigol a hyblyg.  Maent yn cynllunio tasgau cyfoethog i wneud hyn, gan ganolbwyntio bob tymor ar ysgogwr pwnc ar draws yr ysgol, fel daearyddiaeth, hanes, y celfyddydau creadigol neu wyddoniaeth.  Mae athrawon a disgyblion yn adeiladu eu prosiectau o amgylch hyn – maent yn cyfeirio ato fel ‘caffael testun’.  Nod pob testun yw cwmpasu set o fedrau, ond y dosbarthiadau sydd i benderfynu sut maent yn gwneud hyn.

## Deilliannau

Mae’r ysgol wedi symud ymlaen yn sylweddol, ac erbyn hyn, mae ganddi enw da yn ei chymuned ac ar draws yr awdurdod lleol a’r consortiwm.  O ganlyniad i ddysgu proffesiynol llwyddiannus a datblygu arweinwyr medrus yn yr ysgol, mae sawl athro wedi symud ymlaen i swyddi uwch mewn ysgolion eraill.  Mae arweinwyr eraill wedi cael eu penodi i’r uwch dîm arweinyddiaeth yn yr ysgol, er enghraifft i fod yn bennaeth y cyfnod sylfaen ac yn bennaeth cyfnod allweddol 2.

Mae ansawdd yr addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol.  Ychydig iawn o athrawon yn unig sy’n derbyn cymorth i wella ar hyn o bryd, ac oherwydd y fframwaith a’r strategaethau clir a chefnogol iawn a ddefnyddia’r ysgol, maent yn cymryd rhan yn llawn yn y broses hon.  Un o’r nodweddion llwyddiant allweddol a nodwyd gan staff addysgu yn yr ysgol yw’r ymddiriedaeth broffesiynol sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng y pennaeth, yr uwch arweinwyr a’r staff eraill.  Dywed canlyniadau holiaduron staff fod hinsawdd o ymddiriedaeth a gonestrwydd yn bodoli yn yr ysgol.  Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Maent yn gwybod beth yw eu rolau a’u cyfrifoldebau, maent yn teimlo’n rhydd i roi adborth gonest, ac maent yn hapus yn eu gwaith.

Dywed athrawon mai’r newidiadau cynnil sy’n digwydd oherwydd gwaith yr ysgol i wella addysgu yw’r rhai mwyaf effeithiol, weithiau.  Er enghraifft, ar ôl arsylwi eu hunain yn gweithio, dechreuodd athrawon feddwl yn fwy gofalus am y modd yr oeddent yn defnyddio eu staff cymorth yn ystod gwersi.  Wrth drafod elfennau o wersi penodol, mae athrawon yn atgoffa’i gilydd o elfennau hyfforddiant y gallent fod wedi’u hanghofio, neu strategaethau cytûn a allai fod ar goll.  Efallai mai’r hyn sydd bwysicaf yw bod timau o athrawon yn magu hyder ymhlith ei gilydd trwy fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, wedyn maent yn siarad yn onest, ac mewn modd sensitif ond agored, am yr hyn a allai fod yn well.

Mae safon y ddeialog broffesiynol rhwng staff yn uchel iawn.  Ceir diwylliant o archwilio wrth iddynt gofleidio dibenion Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn eu cwricwlwm presennol a pharatoi ar gyfer heriau cwricwlwm newydd.  Mae athrawon a staff cymorth yn croesawu syniadau newydd, maent yn fodlon rhoi cynnig ar ddulliau newydd, ac yn hyderus y cânt gymorth gan uwch arweinwyr i wneud hynny.  Er enghraifft, teimlai athrawon nad oeddent yn gwneud digon i adeiladu ar fedrau llafaredd disgyblion i ennyn diddordeb yn eu dysgu.  I fynd i’r afael â hyn, gosododd un athro dasg i grŵp o fechgyn Blwyddyn 3 abl ond a oedd wedi ymddieithrio, fynd ati i gynllunio, ysgrifennu, creu a ffilmio rhaglen gylchgrawn deledu.  Cefnogodd uwch arweinwyr y dull hwn trwy ymgysylltu â darparwyr allanol arbenigol i helpu disgyblion i wneud y gwaith ffilmio a recordio a gweithio ochr yn ochr ag athrawon i ddatblygu eu medrau i wneud gweithgareddau fel hyn yn nodwedd gynaliadwy o waith yr ysgol.  Yn yr un modd, mae staff cymorth yn gwybod

bod uwch arweinwyr yn gwerthfawrogi eu barn ac yn gwrando ar geisiadau am gymorth penodol.  Er enghraifft, dangosodd arolwg diweddar o staff cymorth fod bylchau yn eu cymhwysedd digidol, felly fe wnaeth y cydlynwyr TGCh deilwra sesiynau ar gyfer staff cymorth a oedd yn bodloni eu hanghenion yn fanwl gywir.

Mae disgyblion yn cydnabod bod eu llais yn cyfrif ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at hunanarfarnu yn yr ysgol, yn cydweithio ag athrawon i osod eu targedau eu hunain ac yn cael cyfleoedd i wneud awgrymiadau ynglŷn â sut a beth maent yn ei ddysgu.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn teimlo bod yr ysgol bellach wedi cyrraedd sefyllfa gref yn ei thaith i wella.  Nid oes cynlluniau i gyflwyno strategaethau newydd ar hyn o bryd, ond mae cynllunio gwelliant yn canolbwyntio ar atgyfnerthu a rhannu'r arfer dda sy'n bodoli ar draws yr ysgol i sicrhau cysondeb.

# Ysgol Gynradd Sgeti

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sgeti yn Abertawe. Ar hyn o bryd, mae 472 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, sy'n cael eu haddysgu mewn 15 dosbarth. Mae 54 o'r rhain yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser.

Mae tua 5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae llawer o ddisgyblion yn wyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 8% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Er 2012, mae'r ysgol wedi cael tri phennaeth parhaol gwahanol, yn ogystal â chyfnodau byr pan oedd pennaeth dros dro yn gyfrifol am arweinyddiaeth yr ysgol. Dechreuodd pennaeth presennol yr ysgol ar y swydd ym mis Medi 2017.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Yn dilyn yr arolygiad craidd yn 2015, roedd angen i'r ysgol weithio'n strategol i fynd i'r afael â'r holl argymhellion. Sylweddolodd arweinwyr fod y farn anfoddhaol ar gyfer addysgu yn gwneud hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella. Yn benodol, roedd arweinwyr yn dra ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael ag anghysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Roedd y materion hyn yn cynnwys cynllunio aneffeithiol mewn lleiafrif o ddosbarthiadau. Roedd hyn yn golygu bod gormod o achosion pan nad oedd disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol gan eu bod yn derbyn gwersi nad oedd yn cynnwys gweithgareddau â'r lefel gywir o her. Roedd gormod o amrywioldeb yn ansawdd yr adborth i ddisgyblion hefyd, a oedd yn golygu nad oeddent yn deall yn ddigon da sut i wella eu gwaith. Nid oedd prosesau ar gyfer sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon yn drylwyr. Amlinellodd yr arweinwyr gynllun ar gyfer gwella.

Diwygiodd yr ysgol ei strwythur staffio gan ailddiffinio cyfrifoldebau arweinwyr. Gwnaeth yn siŵr fod y rolau hyn yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ei nodau strategol, sef argymhellion yr arolygiad ar y pryd. Er enghraifft, daeth arweinwyr yn gyfrifol am gynnal arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a rhoi adborth proffesiynol i athrawon o dan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.

I ddechrau, gweithiodd uwch arweinwyr gydag aelodau staff yr oedd angen cymorth arnynt fel rhan o system gyfeillion. Galluogodd hyn y cydweithwyr i ddechrau ymweld ag ystafelloedd dosbarth ei gilydd i rannu arfer. Ar yr adeg hon, roedd yn bwysig i'r ysgol ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut beth oedd addysgu da. Fe ddechreuon nhw ddefnyddio pecyn canllawiau addysgu'r consortiwm rhanbarthol. Gweithiodd uwch arweinwyr mewn parau i arsylwi gwersi. Roedd hyn yn fuddiol wrth gynorthwyo uwch arweinwyr i gael deialog broffesiynol am agweddau ar arferion

addysgu a llunio barnau cytûn am ansawdd yr addysgu.  Roedd yr arfer hon yn effeithiol hefyd wrth osod y sylfeini i athrawon fod yn ymarferwyr myfyriol.

Yn ystod yr ymweliad dilynol ym mis Mai 2016, nododd arolygwyr, ‘Mae arweinwyr ysgolion wedi defnyddio ffordd reolaidd a systematig o fonitro gwersi, sy’n cael ei wneud yn fewnol a chan y consortiwm rhanbarthol, i nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yng ngwaith athrawon unigol.  Maent wedi defnyddio arweiniad a hyfforddiant gan yr awdurdod lleol a’r consortiwm rhanbarthol yn dda i gynyddu ystod y dulliau addysgu a datblygu gallu staff i fyfyrio’n feirniadol ar eu haddysgu eu hunain.’  Fodd bynnag, i rai o’r staff, roedd pwysau parhaus y barnau ac ystod eang iawn y disgwyliadau o fewn y fframwaith addysgu yn hynod anodd.  Gwelsant hyn yn fwy fel cadarnhad o’r hyn nad oeddent yn ei wneud yn dda.  Yn fwy diweddar, mae arweinwyr wedi cydnabod hyn, er enghraifft trwy ddefnyddio arsylwadau gwersi nad ydynt yn barnu, ond sy’n canolbwyntio ar nodi cryfderau a meysydd i’w gwella.

I ddatblygu disgwyliadau ac arfer gyson, gwnaeth uwch arweinwyr waith craffu gyda’u ‘cyfeillion’.  Roedd hyn yn ddefnyddiol, er enghraifft wrth fynd i’r afael ag anghysondebau mewn adborth ysgrifenedig i ddisgyblion.  Galluogodd staff i arfarnu p’un a oeddent yn gweithio yn unol â pholisi’r ysgol.  Dros gyfnod, mae’r ysgol wedi datblygu’r arfer hon ymhellach trwy ddefnyddio strategaethau ychwanegol, fel marcio mewn ysgrifbinnau gwahanol liwiau i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella a thrwy adael tudalen wag ochr yn ochr â draff cychwynnol i ddisgyblion ymateb i farcio.  Erbyn hyn, mae’r her a gyflwynir gan farcio athrawon a’r trefniadau ar gyfer gosod targedau yn helpu disgyblion i wneud cynnydd yn unol â’u hanghenion a’u cyfnod datblygu.  Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall y systemau hyn ac yn ymateb yn dda iddynt.

Ail-lansiodd yr ysgol ddefnydd o strategaethau eraill asesu ar gyfer dysgu a oedd wedi pylu dros gyfnod.  Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion siarad â phartneriaid, er enghraifft i drafod dysgu blaenorol.

Ar yr un adeg y cyflwynwyd y fframwaith addysgu, nododd yr ysgol fod angen ymweld ag ysgolion â pherfformiad uchel i arsylwi arfer effeithiol.  Aeth athrawon i ysgolion ar gyfer ymweliadau ffocysedig.  Buont yn gweithio ar strategaethau effeithiol i ddefnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio’r camau nesaf ar gyfer dysgu sy’n bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus.  Fe wnaethant gyflwyno’r arfer hon yn dda mewn dosbarthiadau.  Er enghraifft, wrth gynllunio i addysgu disgyblion i ysgrifennu at wahanol ddibenion, mae athrawon yn defnyddio llyfrau o’r flwyddyn flaenorol fel man cychwyn.  Mae hyn yn galluogi athrawon a disgyblion i ddechrau o’r man cychwyn priodol trwy nodi beth wnaethant yn dda, er enghraifft yn eu darn diwethaf o ysgrifennu adrodd yn ôl, a’r hyn roedd angen iddynt ei wella’r tro nesaf.  Dros gyfnod, mae athrawon wedi mynd â’r dull hwn ymhellach trwy gyflwyno proses gosod targedau sy’n addas ar gyfer plant i gefnogi parhad a dilyniant mewn dysgu.  Mae’r arfer hon yn rhoi llais i ddisgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain yn erbyn meini prawf penodol ac wrth nodi sut gallant wella ymhellach.  Erbyn hyn, mae pob un o’r athrawon yn adolygu effaith y gwaith hwn yn rheolaidd i barhau i sicrhau cysondeb a rhannu arfer, er enghraifft mewn cyfarfodydd sector lle mae gwahanol adrannau’n cyfarfod i arfarnu eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o addysgeg y cyfnod sylfaen. Mae staff yn rhoi hyn ar waith yn gyson yn eu gwaith bob dydd. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion yn y rhan fwyaf o sesiynau. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau addysgu uniongyrchol, er enghraifft i addysgu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn hyn, mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu mewn meysydd darpariaeth barhaus yn dda ac yn gwella'r meysydd hyn yn briodol ar y cyfan gydag adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu adnoddau defnyddiol i addysgu disgyblion yn yr awyr agored. Mae cyfleoedd hyfforddi gwerth chweil ar gyfer staff cymorth wedi cryfhau eu medrau holi ac wedi gwella eu gallu i ymyrryd yn nysgu disgyblion a'i wella ar adegau priodol.

Mae'r ysgol wedi datblygu gallu staff i ddefnyddio cynlluniau penodol yn dda, er enghraifft i addysgu medrau darllen cynnar disgyblion a datblygu dealltwriaeth disgyblion o wahanol genres ysgrifennu. I ddechrau, roedd yr ysgol yn defnyddio'r rhain fel offeryn i gefnogi cysondeb. Fodd bynnag, mae'n dechrau gwneud defnydd craffach o'r adnoddau hyn. Er enghraifft, mae athrawon yn dechrau eu defnyddio pan fydd angen yn hytrach na fel dull 'un math sy'n addas i bawb'.

### Deilliannau

Mae trefniadau monitro mewnol yr ysgol yn nodi, o'u cyfuno, bod y gwaith hwn wedi gwella ansawdd yr addysgu fel bod llawer o wersi'n dda neu'n well. Mae'r ysgol yn barnu nad oes unrhyw addysgu o safon anfoddhaol erbyn hyn.

Ceir cyd-ddealltwriaeth o beth sy'n gwneud addysgu da ac mae staff yn ymateb yn dda i ddisgwyliadau uchel.

Mae penderfyniadau strategol, fel staff yn gweithio fel cyfeillion a chyflwyno cyfarfodydd sector, wedi cynorthwyo'r staff i ddatblygu diwylliant o fyfyrio a rhannu.

Mae'r ysgol yn adeiladu'n dda ar y sylfeini hyn. Mae'r pennaeth newydd wedi datblygu ethos tîm cryf mewn cyfnod byr iawn. Mae strategaethau cynnil, fel y gystadleuaeth i greu dyluniad ar gyfer drysau ystafell ddosbarth, wedi helpu creu ethos tîm a chystadleuaeth iach. Mae hi wedi newid y strwythur staffio i gynyddu gallu arwain, er enghraifft trwy gyflwyno swyddi cyfrifoldeb addysgu a dysgu. Mae'n grymuso'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r athrawon i fyfyrio ar lwyddiannau wrth wella addysgu ac i sicrhau gwelliannau pellach. Er enghraifft, mae hi wedi cyflwyno system newydd o arsylwadau fideo yn sensitif mewn ffordd gefnogol ac anfygythiol. At ei gilydd, mae staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r datblygiad hwn. Maent yn awyddus i fyfyrio ar eu harfer broffesiynol eu hunain yn erbyn pecyn canllawiau addysgu cyhoeddedig i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Ceir ymdeimlad cryf o berchnogaeth ac optimistiaeth ymhlith arweinwyr ac athrawon o ran sut bydd ansawdd yr addysgu yn gwella ymhellach o'r adeg hon.

Mae'r ysgol eisoes wedi dechrau defnyddio'r safonau proffesiynol cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'n defnyddio'r rhain yn briodol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn ehangach, er enghraifft i ymgorffori'r 12 egwyddor addysgegol o Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn

ei gwaith. Ceir llawer o achosion o hyn; er enghraifft, gweithiodd yr ysgol â darparwr allanol i wella addysgeg y cyfnod sylfaen. Arweiniodd hyn at hyfforddi pwrpasol ar y safle ar gyfer staff. Gwelodd staff fod hyn yn fuddiol wrth ddatblygu eu darpariaeth barhaus a'u darpariaeth wedi ei chyfoethogi ac wrth wella medrau cynorthwywyr addysgu i ddefnyddio'r meysydd hyn gyda disgyblion. Er enghraifft, yn ystod gweithgareddau rhifedd, roedd cynorthwywyr addysgu yn ei chael yn anodd datblygu medrau rhifedd disgyblion. Trwy hyfforddi a chymorth, maent wedi datblygu 'llinyn rhifedd aur' yr wythnos, sy'n adeiladu ar fedrau y mae disgyblion wedi eu datblygu'r wythnos flaenorol mewn gweithgareddau addysgu uniongyrchol. Mae arweinwyr wedi cydweithio â phartneriaid cymunedol i gynllunio profiadau dysgu mewn cyd-destunau dilys fel prosiect i wneud, marchnata a gwerthu sebon. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfuno llawer o feysydd dysgu yn effeithiol ac yn herio disgyblion ar y lefel gywir. Mae cyflwyno 'Dw i'n meddwl bod' wedi helpu medrau Cymraeg a Saesneg disgyblion. Mae hefyd wedi dyfnhau gallu disgyblion i feddwl a mynegi eu teimladau am faterion a datblygu medrau creadigol, er enghraifft trwy ymateb i her i ddatblygu bar siocled newydd i Willy Wonka a disgrifio'r pwerau a allai fod ynddo.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Datblygu diwylliant o arfer fyfyriol ymhellach trwy ddefnyddio technoleg fideo
- Cryfhau gallu uwch arweinwyr fel arsyllwyr addysgu fel y gallant ddarparu'r cymorth cywir i athrawon unigol sydd â gwahanol anghenion proffesiynol i'w helpu i wella
- Adeiladu ar y defnydd cychwynnol o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth i gefnogi addysgeg addysgu gwell a galluogi diwygio'r cwricwlwm yn effeithiol
- Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion

# Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach ym mhentref Solfach yn Sir Benfro. Mae tua 70 o ddisgyblion amser llawn yn mynychu'r ysgol, ac mae chwe disgybl arall yn mynychu'r dosbarth meithrin. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn wyn Prydeinig ac mae 4% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae tua 4% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2005. Adeg yr arolygiad, roedd gan yr ysgol bedwar dosbarth oedran cymysg. Roedd athrawon amser llawn yn addysgu tri o'r dosbarthiadau hyn. Roedd y pennaeth ac athrawes ran-amser yn rhannu cyfrifoldeb am y dosbarth arall. Roedd gan y pennaeth ymrwymiad addysgu o bedwar diwrnod yr wythnos. Mae'r ysgol bellach wedi'i threfnu'n dri dosbarth oedran cymysg. Mae athrawon parhaol amser llawn, y mae dau ohonynt wedi ymuno â'r ysgol ers yr arolygiad, yn addysgu pob dosbarth erbyn hyn. Nid oes gan y pennaeth gyfrifoldeb am addysgu dosbarth mwyach. Er mis Medi 2017, mae'r pennaeth wedi cael ei benodi'n bennaeth gweithredol dros dro ysgol leol arall yn ogystal â bod yn bennaeth Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach.

Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach yn cau ar 31 Awst 2018. Ar 1 Medi 2018, bydd yr ysgol yn dod yn rhan o ysgol newydd yr Eglwys yng Nghymru i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed. Bydd dwy ysgol leol arall, sef Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Bro Dewi, yn rhan o'r ysgol pob oed hefyd. Bydd yr ysgol newydd yn gweithredu ar y tri safle presennol.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Ar ôl yr arolygiad craidd, cynigiodd y pennaeth ymddiswyddo. Fodd bynnag, cynigiodd y corff llywodraethol a'r awdurdod lleol eu cefnogaeth lawn, ac arhosodd y pennaeth yn ei swydd. O'r cychwyn, roedd y pennaeth a'r staff yn onest iawn â llywodraethwyr, rhieni a disgyblion am y gwelliannau roedd eu hangen a'u penderfyniad i weddnewid yr ysgol. Y penderfyniad hwn a pharodrwydd y pennaeth i wrando ar gyngor yw conglfaen taith yr ysgol i wella.

Cymerodd y pennaeth amser i fyfyrio ar ganlyniadau'r arolygiad a sylweddolodd fod angen iddi wneud ei disgwyliadau uchel yn fwy eglur, dirprwyo'n ehangach a dwyn athrawon i gyfrif yn well er mwyn meithrin tîm mwy proffesiynol a chryfach. Yn y gorffennol, roedd llawer o brosesau'r ysgol yn eithaf anffurfiol ac nid oedd arweinwyr bob amser yn gwirio'n ddigon da fod staff yn cyflawni pwyntiau gweithredu cytûn. Roedd hyn yn golygu nad oedd cytundebau a luniwyd am strategaethau i wella cynllunio ac ansawdd yr addysgu yn digwydd yn gyson ym mhob dosbarth.

Gyda chyngor ei hymgynghorydd her, a chymorth gan Estyn yn ystod ymweliad y cynllun gweithredu ôl-arolygiad, ysgrifennodd y pennaeth gynllun gweithredu clir

ynglŷn â sut byddai hi a'i staff yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Dirprwyodd y cynllun gyfrifoldebau priodol ymhlith y staff addysgu. Roedd yr amserlen fisol a oedd yn rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am raddfeydd amser ar gyfer gweithgareddau, fel hyfforddiant, monitro, ffocws cyfarfodydd a therfynau amser ar gyfer adroddiadau ar gynnydd. Rhoddodd yr amserlen hon raddfeydd amser diffiniedig i staff ar gyfer camau gweithredu a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb a rhai eu cydweithwyr. Ar ôl trafod, llofnododd pob un o'r staff y cynllun gweithredu a'r amserlen, a diwygiodd y pennaeth swydd-ddisgrifiadau i adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd a lefel uwch ei disgwyliadau o ran athrawon yn cyflawni rôl ehangach nag yn eu hystafell ddosbarth eu hunain yn unig. Lluniodd y pennaeth lyfryn am rôl y cydlynydd pwnc hefyd, gan wneud ei disgwyliadau am y rôl yn eglur a rhoi arweiniad defnyddiol i athrawon. Trwy rannu cyfrifoldeb yn fwy, cafwyd cydweithio cryfach rhwng athrawon a ffocws craffach o lawer ar addysgeg a dysgu. Erbyn hyn, mae pob cyfarfod yn dilyn fformat safonol ac yn canolbwyntio'n dda ar fusnes craidd yr ysgol i wella dysgu ac addysgu. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn deialog agored a gonest am beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen iddo ddigwydd nesaf. Mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn arfarnu pob agwedd ar waith yr ysgol.

Rhoddodd yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol gymorth da i'r ysgol i helpu athrawon i wella eu harfer. Ariannodd yr awdurdod lleol ddau athro o ysgolion eraill am bum niwrnod yr un i weithio ochr yn ochr ag athrawon y cyfnod sylfaen i wella eu dealltwriaeth o egwyddorion y cyfnod. Arweiniodd y cymorth hwn at welliannau yn arfer athrawon a datblygodd y ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi ei chyfoethogi ar gyfer disgyblion. Roedd athrawon ymgynghorol rhanbarthol a lleol yn darparu cymorth gwerthfawr hefyd. Er enghraifft, roedd yr athrawes ymgynghorol ar gyfer rhifedd yn helpu athrawon i gynllunio ar gyfer rhifedd ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Roedd yn darparu sesiynau cyfnos hefyd i athrawon ddysgu am strategaethau a methodolegau effeithiol ar gyfer addysgu mathemateg. Mae hyn wedi arwain at gysondeb gwell yn y ffordd y mae athrawon yn cynllunio ac addysgu mathemateg a pharhad a dilyniant gwell i ddisgyblion. Llwyddodd ystod eang y cyfleoedd datblygu i wella hyder athrawon wrth gyflwyno gwersi sy'n benodol i bwnc a chynllunio ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae wedi rhoi hyder hefyd i athrawon weithio gyda'i gilydd i gynllunio profiadau dysgu cyffrous a chreadigol ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio ar y cyd â'r grŵp actio amatur a'r gwasanaeth tân lleol i gyflwyno diwrnod yr Ail Ryfel Byd pan ymddangosodd 'bom heb ffrwydro' ar gae'r ysgol. Mae profiadau fel y rhain yn ennyn diddordeb disgyblion yn llawn yn eu dysgu ac yn annog athrawon i fwynhau eu haddysgu a chael hwyl hefyd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi rhoi mwy o bwyslais ar wella addysgu trwy rannu arferion addysgu o fewn yr ysgol a'r tu allan. Bellach, caiff athrawon ddau gyfle bob blwyddyn i arsylwi ei gilydd ar thema gytûn. Mae un o'r athrawon yn addysgu'r wers tra bydd y ddau arall yn arsylwi a gwneud nodiadau ar ansawdd y dysgu a'r safonau. Mae'r athrawon yn defnyddio'r ffurflenni arsylwi gwersi a ddarperir gan y consortiwm rhanbarthol i lywio eu trafodaethau ar ôl y gwersi. Fodd bynnag, gallai defnyddio'r ffurflenni hyn ar gyfer arsylwadau cymheiriaid rwystro trafodaeth fuddiol ac mae perygl i'r ymarfer ymwneud yn fwy â thicio blychau i longyfarch cydweithwyr yn hytrach na thrafod effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion. Hefyd, nid yw ticio'r holl flychau gofynnol yn golygu o reidrwydd

bod y wers yn dda neu fod yr addysgu'n cael digon o effaith ar ddysgu disgyblion. Mae athrawon yn teimlo bod y ffurflenni wedi darparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer arsylwi cymheiriaid. Mae'r pennaeth, mewn partneriaeth â'r ymgynghorydd her, yn arsylwi un wers yn ffurfiol bob blwyddyn. Mae nodiadau a wneir ochr yn ochr â'r ffurflen arsylwi gwers yn dangos bod yr arsylwadau hyn yn rhoi adborth clir i athrawon ar gryfderau mewn addysgu a'r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd i wella. Mae deilliannau o arsylwadau gwersi yn bwydo'n briodol i dargedau rheoli perfformiad unigol.

Mae'r athrawes a gymhwysodd yn ddiweddar sydd yn yr ysgol yn derbyn lefel dda o gymorth gan fentor yr ysgol a chydweithwyr eraill. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn addysgu, cafodd gyfle i fynychu llawer o ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol yn ogystal â derbyn 10% o amser digyswllt. Roedd hyn yn golygu ei bod yn cael cyfleoedd priodol i fyfyrio ar ei harfer ac arsylwi addysgu yn ei hysgol ei hun ac mewn ysgolion eraill.

Mae'r ddau athro profiadol wedi cymryd rhan mewn triawdau, gan weithio gydag athrawon o ddwy ysgol arall. Bu un triawd yn archwilio ffyrdd o ddatblygu medrau Cymraeg trwy weithgareddau trawsgwricwlaidd a bu'r llall yn ystyried sut i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Roedd i'r triawdau hyn fformat sesiwn gynllunio ar y cyd ar gyfer y tri athro dan sylw lle gwnaethant gytuno ar ffocws y gwersi. Wedyn, cynlluniodd athrawon eu gwersi eu hunain ar sail y thema a daeth yr athrawon o'r ysgolion eraill i arsylwi. Fe wnaethant ailadrodd y fformat hwn ym mhob un o'r tair ysgol. Gan fod athrawon wedi cymryd rhan yn y triawdau, cawsant amser i fyfyrio ar eu harfer a rhannu syniadau gyda gweithwyr proffesiynol eraill, a dysgu oddi wrthynt.

Penodwyd pennaeth yr ysgol uwchradd leol, sef Ysgol Dewi Sant, i arwain yr ysgol pob oed newydd. Mae wedi dyfeisio rhaglen ar gyfer yr athrawon yn y tair ysgol a fydd yn ffurfio'r ysgol newydd. Mae'r rhaglen hon yn darparu cyfleoedd da i athrawon ym mhob un o'r tair ysgol gymryd rhan mewn prosiect ymchwil deg awr naill ai drwy weithio'n annibynnol neu gydag athrawon eraill yn unrhyw un o'r ysgolion. Ymgynghorodd pennaeth Ysgol Dewi Sant â'r penaethiaid yn Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach ac Ysgol Bro Dewi am y rhaglen a'r deilliannau a fwriedir. Mae'r naill a'r llall wedi cytuno cyflwyno'r rhaglen i'w staff a chysylltu'r prosiect ymchwil annibynnol â thargedau rheoli perfformiad unigol. Bydd rhaid i staff ddangos tystiolaeth o'r deg awr y maent wedi gweithio ar eu prosiect. Nod y rhaglen yw cynnwys yr holl athrawon mewn ymchwil weithredu. Nid y canlyniad yw'r ffactor sy'n ei yrru; mae'n ymwneud yn fwy ag athrawon yn cael profiad o gynnal ymchwiliad a chael cyfleoedd i weithio ar draws ysgolion a sectorau.

Mae blaenoriaethau datblygu Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach yn parhau i ganolbwyntio ar wella addysgeg athrawon. Mae targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn cynnwys anelu am ragoriaeth mewn addysgu ym mhob dosbarth a pharatoi staff ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy ddatblygu arfer yn unol â'r egwyddorion addysgegol.

## Deilliannau

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers ei harolygiad craidd. Mae gan arweinwyr ac athrawon ddisgwyliadau uchel o ansawdd yr addysgu. Mae

cyfarfodydd yn canolbwyntio’n dda ar wella ansawdd ac mae pob un o’r staff yn cymryd cyfrifoldeb am wella addysgu ar draws yr ysgol, nid yn unig yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. Mae hyder athrawon yn eu harfer eu hunain a’u parodrwydd i roi cynnig ar syniadau newydd a rhannu eu harfer wedi tyfu’n sylweddol. Mae’r ysgol yn fwy allblyg erbyn hyn, ac mae’n barod i weithredu yn unol â chyngor ac arfer a welwyd mewn ysgolion eraill. Mae’r awdurdod lleol yn cydnabod bod rhai agweddau ar arferion yr ysgol yn hynod effeithiol ac mae wedi gofyn i’r ysgol rannu ei dull ag ysgolion eraill.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Ymgorffori arsylwi cymheiriaid
- Archwilio a thrafod y 12 egwyddor addysgegol sy’n ategu’r cwricwlwm newydd
- Rhoi cyfle i athrawon gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil annibynnol
- Gweithio’n agos gyda’r ysgolion eraill a fydd yn ffurfio’r ysgol newydd i sicrhau parhad a chysondeb o ran addysgeg ac arfer

# Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIII

## Cyd-destun

Ysgol gymysg 11-19 yn y Fenni, Sir Fynwy yw Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIll, sydd â 950 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 155 ohonynt yn y chweched dosbarth.  Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, ac mae 1% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Medi 2014, ychydig fisoedd yn unig cyn arolygiad Estyn, ac ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd yn yr ysgol ar lefel uwch arweinyddiaeth.  Er nad adawodd y tîm arolygu argymhelliad penodol ar addysgu, roedd yn glir i'r pennaeth na fyddai'r ysgol yn gwneud cynnydd yn erbyn ei hargymhellion heb ffocws clir ar wella ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Ar ei diwrnod cyntaf yn yr ysgol, fe wnaeth y pennaeth newydd gyfleu ei gweledigaeth ar gyfer yr ysgol i bob un o'r staff fel un lle roedd pob disgybl yn cael yr addysg orau posibl sydd ar gael, beth bynnag fo'u cefndir neu'u rhywedd.  I gyflawni hyn, roedd hi'n glir fod angen i addysgu a dysgu fod wrth wraidd popeth roedd yr ysgol yn ei wneud.  I wella'r addysgu, roedd angen ffocws cadarn ar ddatblygu gallu arweinwyr ar draws yr ysgol i sefydlu prosesau hunanarfarnu trylwyr a oedd yn cysylltu'n dda â chynllunio gwelliant ac yn llywio rhaglen ystyrlon o ddysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff.

Rhannodd y pennaeth gynllun gwella drafft yr ysgol â staff ar y diwrnod hwnnw hefyd, a oedd yn nodi nifer o flaenoriaethau i wella ansawdd yr addysgu yn yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sefydlu strwythur addysgu a dysgu ysgol gyfan i rannu a datblygu arfer orau
- sefydlu dulliau cyson o asesu ffurfiannol ar draws yr ysgol
- sicrhau bod yr holl wersi'n darparu her briodol ar gyfer disgyblion
- sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol gyda ffocws clir ar wella deilliannau disgyblion a lleihau amrywiad yn yr ysgol

Cymerodd yr ysgol nifer o gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Er enghraifft, sefydlodd arweinwyr rwydweithiau o arfer broffesiynol i fynd i'r afael ag agweddau ar arfer yr oeddent wedi eu nodi yn feysydd i'w datblygu yn rownd flaenorol yr ysgol o arsylwadau addysgu a dysgu.  Yn y flwyddyn gyntaf, cymerodd yr holl staff addysgu ran mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol a oedd yn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd, gwaith grŵp a gwaith pâr, holi effeithiol,

hunanasesu ac asesu cymheiriaid, marcio, asesu ac adborth, neu gynllunio ar gyfer gwahaniaethu a her. Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynodd yr ysgol friffiau addysgu a dysgu er mwyn gallu lledaenu'r strategaethau mwyaf effeithiol yr ymchwiliodd aelodau iddynt yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliodd yr ysgol adolygiad systematig o'i pholisïau allweddol hefyd i gefnogi datblygu arfer gyson ar draws yr ysgol. Er enghraifft, adolygodd y rhwydwaith marcio, asesu ac adborth bolisi asesu'r ysgol. Gweithiodd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol gyda'i gilydd i greu polisi addysgu a dysgu'r ysgol. Yn sgil y trafodaethau hyn, ffurfiwyd strategaeth allweddol yr ysgol i nodi a datblygu arfer dda mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, sef datblygu rhaglen ysgol gyfan ar gyfer adolygu cymheiriaid.

Cyflwynwyd cylch cyntaf y rhaglen adolygu cymheiriaid ysgol gyfan gan yr ysgol rhwng mis Medi 2015 a mis Mehefin 2017. Mae wedi bod yn effeithiol o ran gwella ansawdd hunanarfarnu yn yr ysgol, gwella ansawdd yr addysgu a gyrru gwelliannau cynaledig yn neilliannau disgyblion.

Nod y rhaglen adolygu cymheiriaid yw arfarnu safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol trwy ffocws ar brofiad grŵp bach o ddisgyblion dethol. Mae pob adolygiad cymheiriaid yn canolbwyntio ar garfan o chwe disgybl ar draws yr ystod gallu o grŵp blwyddyn penodol. Mae adolygiad cymheiriaid pellach yn dethol grŵp o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol.

Ar gyfer pob adolygiad cymheiriaid, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd i arfarnu'r cynnydd a wna'r disgyblion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata cynnydd, cyfweliadau â disgyblion, archwilio cynlluniau dysgu, craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau gwersi. Mae'r cydweithio hwn wedi galluogi uwch arweinwyr i herio a chefnogi arfarniad arweinwyr canol o ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn llawer mwy effeithiol. Dros gyfnod, mae wedi arwain at ddatblygu llawer mwy o gysondeb yng ngwaith uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn coladu'r deilliannau o bob adolygiad cymheiriaid ac yn eu rhannu â staff a llywodraethwyr. Mae'r adroddiad adolygu cymheiriaid yn rhoi arfarniad manwl o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o ran cynnydd a safonau disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Yn ei hanfod, mae hefyd yn dadansoddi pa mor effeithiol y mae addysgu'n cefnogi cynnydd disgyblion a pha mor gyson y mae athrawon yn mynd i'r afael â meysydd ysgol gyfan i'w datblygu yn eu haddysgu. Er enghraifft, yn y cylch cyntaf, roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ba mor dda roedd athrawon wedi darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd neu ar ansawdd yr asesu a'r adborth.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae uwch arweinwyr yn crynhoi tystiolaeth o bob adolygiad cymheiriaid mewn adroddiad blynyddol terfynol, gan roi gwybodaeth gynhwysfawr sy'n seiliedig ar arsylwadau pob un o'r staff a phrofiad mwy nag 13% o ddisgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan arweinwyr wybodaeth gyfoethog am y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu i lywio cynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mae lefel bellach o ddadansoddi ar gael i

arweinwyr meysydd pwnc, sy'n eu galluogi i arfarnu perfformiad eu hadran eu hunain yn erbyn meincnodau ar gyfer yr ysgol gyfan a chynllunio blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn eu hadran eu hunain.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y rhaglen adolygu cymheiriaid yn effeithiol i gynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol ar gyfer staff.  Yn ogystal â sicrhau bod y rhain yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ysgol gyfan, mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o adolygiadau cymheiriaid i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion unigol athrawon ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddi a mentora ar gyfer athrawon sydd angen gwella agweddau ar eu harfer, yn ogystal â hwyluso cyfleoedd i staff wella medrau sy'n berthnasol i'r arbenigedd y maent yn ei addysgu.  Mae rhai athrawon yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gaffael cymwysterau lefel uwch mewn arfer addysgol neu arweinyddiaeth a rheolaeth.  Yn ychwanegol, mae rôl yr ysgol fel ysgol arloesi ar gyfer cwricwlwm er mis Ionawr 2017 wedi sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd cynyddol i ddatblygu eu gwybodaeth trwy eu hymglymiad mewn rhwydweithiau ehangach o arfer broffesiynol.

Nodwedd allweddol o ymagwedd yr ysgol at ddysgu proffesiynol fu sicrhau bod staff wedi cael cyfleoedd addas i gydweithio ar draws adrannau ar bob cam o daith yr ysgol i wella.  Mae arweinwyr yn cynllunio diwrnodau dysgu proffesiynol yn dda i alluogi athrawon i arwain neu gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol, a gweithio gyda'i gilydd ar weithgareddau craffu ar waith yr ysgol gyfan.  Mae hyn wedi sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff ar draws adrannau weithio gyda'i gilydd, rhannu arfer orau a myfyrio ar ddulliau sy'n seiliedig ar bwnc, yn ogystal â helpu i feithrin gallu ar gyfer arweinyddiaeth trwy'r ysgol.

### Deilliannau

Mae rhaglen yr ysgol ar gyfer adolygu cymheiriaid wedi galluogi'r ysgol i gryfhau medrau a gallu arweinwyr canol yn sylweddol trwy eu hymglymiad mewn ystod gynhwysfawr o weithgareddau hunanarfarnu sy'n canolbwyntio'n glir ar y berthynas rhwng addysgu effeithiol a chynnydd disgyblion.  Mae wedi rhoi synnwyr clir i arweinwyr yr ysgol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae wedi galluogi iddynt gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r rhain.

Ym mis Mehefin 2016, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn ei hargymhellion ac fe'i tynnwyd o'r categori o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.  Nododd y tîm arolygu yn ei adroddiad fod yr ysgol wedi datblygu monitro rheolaidd a systematig o ran addysgu ac asesu trwy graffu ffocysedig ar lyfrau ac arsylwadau gwersi.

Nododd hefyd fod yr ysgol wedi rhoi ystod gynhwysfawr o strategaethau ar waith i gefnogi datblygiad arweinwyr.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddi a mentora targedig ar gyfer arweinwyr unigol, ac ymglymiad cynlluniedig yng nghymunedau dysgu proffesiynol yr ysgol.  Mae'r gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth wedi cyfrannu at gynnydd addas yn y rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ac mewn gwella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad disgyblion wedi gwella'n sylweddol o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2017, fe wnaeth perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 osod yr ysgol yn hanner uchaf yr ysgolion tebyg yn seiliedig ar gymhwyster disgyblion am brydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2017c).

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Wrth i'r ysgol gynllunio'r camau nesaf yn ei thaith i wella, mae staff wedi bod â rôl allweddol hefyd mewn adolygu rownd gyntaf y rhaglen adolygu cymheiriaid ac argymell newidiadau i'w ffocws a'i chylch gwaith. Er enghraifft, ni fydd ail gylch y rhaglen yn ystyried grwpiau blwyddyn ar wahân mwyach, ond bydd yn edrych ar ddau grŵp blwyddyn gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar bontio a dilyniant rhwng grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol. Yn ychwanegol, ni fydd arsylwadau gwersi'n rhoi barnau unigol ar gyfer gwersi nac athrawon mwyach, ond bydd yn canolbwyntio ar effaith yr addysgu ar ddysgu i lywio cynllunio strategol yr ysgol yn fwy manwl gywir, i wella'r ddau faes hyn.

# Coleg Cymunedol Tonypandy

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg 11 i 19 yw Coleg Cymunedol Tonypandy, sy'n gwasanaethu tref Tonypandy a'r ardal gyfagos yn Rhondda Cynon Taf. Mae 619 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae tua 90 ohonynt yn y chweched dosbarth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae nifer gyffredinol y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng o ryw 200 o ddisgyblion. Mae hyn yn bennaf am fod y chweched dosbarth yn cael ei ddiddymu'n raddol fel rhan o ad-drefnu'r awdurdod lleol. Bydd Coleg Cymunedol Tonypandy yn cau a bydd ysgol 3-16 newydd yn cael ei sefydlu yn ei le ar y safle presennol ym mis Medi 2018.

Daw llawer o ddisgyblion yr ysgol o bentrefi cyfagos Cwmclydach, Llwynypïa a Phen-y-graig. Mae tua 28% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Adeg yr ymweliad thematig hwn, mae pennaeth dros dro a dirprwy bennaeth dros dro, yr oedd y naill a'r llall ohonynt yn aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol yn ystod yr arolygiad craidd, yn arwain yr ysgol.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae uwch arweinwyr yng Ngholeg Cymunedol Tonypandy yn ystyried bod eu taith i wella wedi dechrau yn fuan ar ôl i Estyn osod y coleg yn y categori mesurau arbennig. Ar ôl yr arolygiad, adolygodd arweinwyr yr ysgol eu gweithgareddau a'u barnau hunanarfarnu. Cawsant ddealltwriaeth gliriach o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws y coleg, a oedd yn eu galluogi i osod blaenoriaethau â ffocws craffach ar gyfer gweithredu. Un o'r blaenoriaethau mwyaf brys oedd gwella addysgu ar draws y coleg, ac yn benodol, gwneud y cyswllt rhwng ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion yn fwy eglur.

Rhoddwyd blaenoriaeth i addysgu a dysgu yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad, gyda ffocws penodol ar rai agweddau allweddol fel holi, gosod amcanion a meini prawf llwyddiant.

Yn ychwanegol, cydnabu arweinwyr fod lles staff yn allweddol i greu diwylliant i wella ynddo. Fe wnaethant sicrhau bod pob un o'r staff yn cael yr hyfforddiant i ategu'r gwelliannau a ddisgwylir, a'u bod yn gwybod sut i fanteisio ar gymorth ac arweiniad ychwanegol. Er enghraifft, cymerodd llawer o staff ran mewn gweithgareddau datblygiad personol, fel mynychu cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar.

I wella cyfathrebu a dosbarthu arweinyddiaeth yn fwy effeithiol, fe wnaeth uwch arweinwyr egluro a mireinio eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain a rhai arweinwyr canol. Dros gyfnod, cymerodd arweinwyr cyfadrannau fwy o rôl mewn monitro ac arfarnu effaith y gwaith, yn ogystal â chynorthwyo eu cydweithwyr.

Adolygodd arweinwyr y polisi addysgu a dysgu a'r llawlyfr staff i sicrhau bod eu disgwyliadau ynghylch arfer ystafell ddosbarth yn glir. Fe wnaethant hefyd greu pecyn canllawiau a oedd yn amlinellu'r disgwyliadau hyn yn fanwl, a rhoesant ganllawiau ar sut i gymhwyso ystod o strategaethau addysgu ac asesu. Bu rhai o'r staff yn cymryd rhan mewn rhaglen addysgu wedi'i harwain gan y consortiwm. Fodd bynnag, buan y penderfynodd y coleg ei fod yn elwa mwy o ganolbwyntio ar ychydig o ddisgwyliadau wedi'u mynegi'n glir ar gyfer yr holl athrawon yn hytrach na bod staff yn mynychu digwyddiadau allanol.

Llwyddodd arweinwyr i greu darlun cliriach o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws y coleg trwy arsylwadau mwy trylwyr a chywir. Fe wnaeth hyn eu galluogi i drefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol mwy perthnasol, ac wedi eu teilwra, mewn rhai achosion.

Un o'r gweithgareddau sydd, ym marn y coleg, wedi cael yr effaith fwyaf yw'r defnydd o dechnoleg fideo. Fe wnaeth hyn alluogi athrawon unigol i ystyried a myfyrio ar eu harfer eu hunain, a chael cyfle i rannu a thrafod eu haddysgu gyda chydweithwyr eraill. Roedd gan bob cyfadran 'hyrwyddwr' hyfforddedig i gefnogi'r gweithgarwch hwn, a hyd yma, mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi defnyddio'r dechnoleg i fyfyrio ar eu harfer eu hunain. Mewn rhai achosion, defnyddiodd yr uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am addysgu a dysgu y cyfleuster hwn yn fuddiol iawn i ddarparu hyfforddi uniongyrchol trwy glustffon. Llwyddodd pob un o'r athrawon a gymerodd ran yn y gweithgareddau hyfforddi uniongyrchol i wella agweddau ar eu harfer yn gyflym ac maent wedi cynnal y gwelliannau hyn.

Ynghyd ag ymweliadau ag ysgolion eraill, a chyfleoedd i arsylwi ei gilydd, mae'r diwylliant yn y coleg wedi dod yn fwy cydweithredol. Mae athrawon yn siarad am bolisi drws agored ac yn gwerthfawrogi'r diwylliant dysgu sydd bellach yn fwy amlwg.

I baratoi ar gyfer symud i ysgol 3-16, mae'r clwstwr wedi gweithio gyda'i gilydd yn agosach. Mae cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd wedi bod yn gyfle cyfoethog i athrawon rannu arfer o ran sut gall athrawon gefnogi cynnydd disgyblion yn y ffordd orau a chytuno beth yw'r ffordd orau o ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion. Mae athrawon yn frwdfrydig am y profiadau dysgu proffesiynol hyn gan eu bod wedi annog a chefnogi gwaith ar draws y sector.

### Deilliannau

Mae bron pob un o'r staff yn cymryd rhan yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigir, ac yn ymgysylltu'n dda â nhw. Mae athrawon yn frwdfrydig am y cyfleoedd a gânt i arloesi a datblygu eu medrau. Erbyn hyn, mae llawer ohonynt yn teimlo'n fwy abl a hyderus i fentro a rhoi cynnig ar dechnegau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr addysgu wedi gwella. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn gwersi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy yn eu dysgu. Maent yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt drwy fforymau disgyblion, ac yn meddwl bod y coleg yn ymateb i'w hadborth.

Mae'r ffaith fod y coleg yn rhoi mwy o bwyslais ar arfer dda yn yr ystafell ddosbarth wedi arwain at welliannau mewn addysgu a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, yn

2017, llwyddodd tua 45% o ddisgyblion Blwyddyn 11 i gyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg.  Mae hyn yn gynnydd o ryw 15 pwynt canran o gymharu â'r canlyniadau adeg yr arolygiad craidd (Llywodraeth Cymru, 2017c).

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Wrth i'r coleg baratoi ar gyfer cau, bydd yn parhau i weithio ar ei flaenoriaethau presennol cyn dod yn rhan o'r ysgol 3-16 newydd.

## Astudiaethau achos o ysgolion sydd wedi gwella eu haddysgu ac wedi dod allan o'r categori monitro gan Estyn

## Ysgol Gynradd Gymunedol Neyland

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Neyland yn Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae 333 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, a 52 ohonynt yn mynychu'r dosbarth meithrin. Mae'r ysgol wedi'i threfnu'n bum dosbarth oedran cymysg a chwe dosbarth un oedran. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig.

Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan dros 40% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2006. Mae dau o'r tri aelod arall o'r tîm arweinyddiaeth a'r rhan fwyaf o'r staff addysgu a oedd yn eu swydd adeg yr arolygiad yn parhau i weithio yn yr ysgol.

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cytuno bod canfyddiadau'r tîm arolygu wedi creu syndod i ddechrau, ond roeddent yn benderfynol o wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod yr argymhellion wedi helpu'r ysgol i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf ac wedi eu galluogi i wrthod ymgymryd â mentrau nad oeddent yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r ysgol, er eu bod yn ddiddorol. Mae arweinwyr yn meddwl eu bod wedi ceisio gwneud gormod o bethau ar unwaith yn y gorffennol a bod hyn wedi arwain at ddiffyg cysondeb ac ymgorffori arferion cytûn.

Mae arweinwyr yn cydnabod bod diffyg cysondeb ar draws grwpiau blwyddyn a rhyngddynt yn peri problem adeg yr arolygiad. Ar ôl yr arolygiad, lluniodd y tîm arweinyddiaeth restr o nodweddion gorfodol ar gyfer arferion ystafell ddosbarth cyffredinol ac ar gyfer y chwe argymhelliad. Roeddent yn disgwyl gweld y nodweddion gorfodol hyn ym mhob dosbarth. Mewn cyfarfodydd staff, trafododd athrawon y nodweddion gorfodol a chawsant gyfleoedd da i gyfrannu at y broses. Mae'r nodweddion gorfodol wedi datblygu wrth i athrawon arbrofi ag arferion newydd. Er enghraifft, canfu'r ysgol fod un o'r nodweddion gorfodol gwreiddiol ynghylch adborth a marcio yn rhy gymhleth a beichus i athrawon a disgyblion. Mewn rhai achosion, roedd athrawon yn treulio mwy o amser yn ysgrifennu sylwadau nag yr oedd disgyblion wedi'i gymryd i gwblhau'r gwaith. Arweiniodd hyn at drafodaethau ymhlith athrawon am ddiben marcio ac adborth a chytunodd pob un o'r athrawon i gael sgyrsiau ystyrlon â disgyblion ynglŷn â sut gallant wella eu gwaith. Cytunodd athrawon ar god marcio hefyd ac mae pob dosbarth yn defnyddio'r cod yn gyson, ac yn bwysig, mae disgyblion yn ei ddeall. Trwy drafodaeth ymhlith pob aelod o staff, cytunodd athrawon y dylai marcio bob amser fod yn ystyrlon a bod ansawdd yr

adborth i ddisgyblion yn bwysicach na'i faint. Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain yn dda sut mae marcio'n helpu gwella dealltwriaeth disgyblion trwy graffu ar waith gyda disgyblion a gofyn iddynt sut mae sylwadau eu hathro a'u cyfoedion yn eu helpu i gynhyrchu gwaith gwell.

Mae'r nodweddion gorfodol wedi datblygu i fod yn siarter ddysgu y mae'r ysgol yn ailedrych arni bob hanner tymor. Cyn cyfarfodydd y siarter, mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau hunanarfarnu sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau a'r cytundebau yn y siarter. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys craffu ar waith gyda disgyblion, gwrando ar ddysgwyr, adborth llywodraethwyr ac arsylwadau gwersi. Mae cofnodion o gyfarfodydd staff yn dangos yn glir sut mae arweinwyr yn olrhain yr holl weithgareddau monitro ac yn rhoi adborth gonest i staff a chamau nesaf clir. Mae arweinwyr yn cymryd amser i ddathlu popeth sy'n mynd yn dda ac yn pwysleisio'r cynnydd y mae pawb wedi'i wneud.

Mae arweinwyr yn arsylwi pob athro bob tymor yn erbyn blaenoriaeth gytûn yn y siarter. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ffurflen o'r consortiwm rhanbarthol ar gyfer asesu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Pan gyflwynodd arweinwyr arsylwadau gwersi ffurfiol rheolaidd i ddechrau, gwelodd athrawon fod yr arsylwi yn fwy fel perfformiad ac roeddent yn teimlo eu bod o dan y sbotolau. Dywed arweinwyr fod defnyddio ffurflen y consortiwm wedi helpu athrawon a nhw eu hunain i ailfeddwl am ddiben arsylwadau gwersi. Erbyn hyn, maent yn canolbwyntio'n gliriach ar effaith yr addysgu ar ddeilliannau disgyblion yn hytrach nag ar yr athro fel unigolyn. Ar ôl pob arsylwad, caiff yr athro adborth byr ar lafar. Mae'r uwch arweinydd yn ysgrifennu nodiadau'r arsylwad ac yn cyfarfod â'r athro i gael deialog broffesiynol fanwl am safonau disgyblion, cyfraniad yr athro at flaenoriaethau'r siarter, cryfderau mewn addysgu ac unrhyw ddatblygiad neu gymorth pellach sydd ei angen. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod ar ôl rownd yr arsylwadau gwersi i ddwyn ynghyd gryfderau'r ysgol gyfan a'r meysydd i'w datblygu, yn ogystal â chynnydd tuag at flaenoriaethau'r siarter. Maent yn adrodd am eu canfyddiadau yn onest ac yn agored i staff. Er enghraifft, nododd trafodaethau am arsylwadau gwersi fod cyflymdra yn faes i'w ddatblygu gan fod disgyblion wedi datgan bod rhaid iddynt wrando gormod cyn gwneud unrhyw beth. Cyflwynodd athrawon y 'rheol deg eiliad' i geisio sicrhau eu bod yn mynd ati i ennyn diddordeb disgyblion trwy gydol y wers ac nad ydynt yn drysu pethau trwy roi esboniadau hirfaith. Roedd arsylwadau gwersi hefyd yn dechrau trafodaeth am wahaniaethu, gan fod arweinwyr yn teimlo, er bod y rhan fwyaf o athrawon yn gwahaniaethu gweithgareddau, nid oeddent bob amser yn rhoi ystyriaeth ddigon da i fannau cychwyn y disgyblion yn y dosbarth. Yn sgil y trafodaethau hyn, cytunodd athrawon ynglŷn â sut i wahaniaethu gweithgareddau a phwysigrwydd holi disgyblion yn rheolaidd i ddeall pa mor dda y maent yn ymdopi â gofynion y wers. Uwch arweinwyr sy'n cynnal y rhan fwyaf o arsylwadau gwersi.

Adeg yr arolygiad, roedd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth a dau uwch athro. Ar ôl secondio un o'r uwch athrawon, estynnodd y pennaeth wahoddiad i bedwar aelod o'r staff addysgu fynychu cyfarfodydd uwch arweinwyr a chymryd rhan ynddynt. Bellach, mae'r arweinwyr canol hyn yn cymryd cyfrifoldeb am brosiectau fel astudio mewn gwersi, meistroli mathemateg, darpariaeth barhaus ac wedi ei chyfoethogi yn y cyfnod sylfaen a chymedroli. Mae hyn wedi dosbarthu arweinyddiaeth a chyfrifoldeb yn dda ar draws yr ysgol ac mae wedi gwella'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y darpar arweinwyr hyn.

Mae arweinwyr yn adnabod eu staff yn dda. Maent wedi symud ar gyflymdra y mae staff yn gyfforddus ag ef ac wedi cynnwys staff mewn llawer o benderfyniadau pwysig ynglŷn â'r hyn y dylai'r ysgol ei wneud i gyflawni cysondeb a thyfu ei harfer broffesiynol. Bu tri o athrawon yn archwilio ac yn arbrofi â'r ymagwedd astudio mewn gwersi y llynedd. Maent yn meithrin eu profiad o'r ymagwedd yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn 2017/2018 a bwriedir hyfforddi athrawon Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn y fethodoleg yn ystod tymor yr haf. Mae arweinwyr yn gwirio'n barhaus fod yr hyn y maent yn ei wneud yn iawn i'w hysgol ac nad ydynt yn ofni rhoi'r gorau i wneud rhywbeth os nad yw'n gweithio i'w hathrawon neu'u disgyblion. Mae'r ysgol newydd ddechrau cyflwyno arsylwadau cymheiriaid, gan nad oedd pob un o'r athrawon yn gyfforddus â'r gweithgaredd hwn yn y gorffennol. Roedd adborth o'r rownd gyntaf o arsylwadau cymheiriaid yn gadarnhaol ac athrawon yn croesawu'r cyfle i rannu eu harfer ar y cyfan. Mae uwch arweinwyr a rhai athrawon wedi cael cyfle i arsylwi arfer mewn ysgolion eraill.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y pennaeth archwiliad o ganfyddiadau ynglŷn â datblygiad proffesiynol yn yr ysgol. Rhoddodd sgôr i'r ysgol yn ôl p'un a oedd yn ddatblygol, efydd, arian neu aur yn unol ag ystod o ddatganiadau a chwestiynau am ddull presennol yr ysgol o ddatblygu staff. Canolbwyntiodd y cwestiynau ar destunau, fel p'un a oes gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad proffesiynol effeithiol, rôl arweinwyr mewn arddangos datblygiad proffesiynol da, pa mor gyfforddus yw staff yn rhannu eu harfer, a pha mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo staff i dyfu a datblygu eu harfer broffesiynol. Mae arweinwyr wedi defnyddio'r deilliannau o'r archwiliad i lywio blaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae targedau yn erbyn y flaenoriaeth hon yn cynnwys ennyn diddordeb athrawon mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol tymor hwy, yn hytrach na mynychu cyrsiau neu ddigwyddiadau unigol ac i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu ysgol gyfan neu sector. Mae'r ysgol eisoes wedi dechrau ar y cyfnod hwn ar ei thaith trwy gyflogi darparwr allanol i arwain diwrnod datblygu staff ar beth sy'n gwneud addysgu rhagorol. Fe wnaeth y diwrnod hwn annog staff i feddwl am eu harfer a rhannu syniadau a methodolegau. Ar ôl y diwrnod hwn, a'r trafodaethau proffesiynol dilynol, diwygiodd staff y siarter ddysgu i adlewyrchu'r ffaith y byddai eu gwersi'n cynnwys cyfres o sesiynau llawn, byr i wirio dealltwriaeth disgyblion a chynnig cyfleoedd mwy rheolaidd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae athrawon ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 i gyd wedi mynychu'r un cwrs datblygiad proffesiynol pedwar diwrnod ar sut i ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu cydweithredol. Mae'r cwrs, sesiynau cynllunio ar y cyd bob pythefnos ar ôl yr ysgol a dysgu cydweithredol fel ffocws yr arbrawf astudio mewn gwersi wedi arwain at ddull cyson ar draws y dosbarthiadau hyn a ffocws gwell ar fedrau cymdeithasol a chyfathrebu disgyblion a'u lles emosiynol. Mae athrawon wedi gweithio gyda'i gilydd i feddwl, er enghraifft, am y modd y mae trefniadaeth eu hystafelloedd dosbarth a'u holi yn arwain at lefelau gwell o gydweithrediad a llai o bryder i ddisgyblion.

## Deilliannau

**Bellach, mae'r ysgol yn sicrhau:**

- Bod gweithgareddau monitro yn arwain at gamau gweithredu clir
- Bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth well o lawer o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu hysgol

- Bod pob un o’r staff bellach yn cymryd cyfrifoldeb am yr arfer yn eu dosbarthiadau
- Bod lefelau gwell o gysondeb, yn enwedig mewn marcio ac adborth
- Bod yr ysgol gyfan yn ystyried effaith addysgu ar ddysgu
- Bod staff yn fwy hyderus i gymryd rhan mewn arsylwadau cymheiriaid
- Bod yr ysgol yn dosbarthu arweinyddiaeth yn fwy effeithiol
- Bod staff yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu’n broffesiynol a dysgu gyda’i gilydd

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol:

- Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer arsylwi cymheiriaid, a’u hymgorffori
- Ystyried goblygiadau ariannol cyflwyno’r dull astudio mewn gwersi ar draws yr ysgol os yw’n profi’n llwyddiannus
- Gwneud mwy o ddefnydd o ymchwil i lywio arfer, gan gynnwys staff yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil weithredu
- Bod yn fwy allblyg a threfnu bod mwy o staff yn ymweld â darparwyr eraill i rannu a gweld math arall o arfer dda
- Datblygu gallu staff i fyfyrio ar eu harfer ac yn unol â’r safonau proffesiynol newydd

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Siôr

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Siôr ym mhentref bach Llan San Siôr, ger Abergele yng Nghonwy. Mae 61 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, ac mae chwech ohonynt yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae'r ysgol wedi'i threfnu'n dri dosbarth oedran cymysg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae tua 17% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 22% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2010. Mae ganddo ymrwymiad addysgu o ddeuddydd a hanner bob wythnos, o leiaf. Mae tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn cynnwys y pennaeth ac athro sydd â chyfrifoldeb addysgu a dysgu rhan-amser.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Defnyddiodd y pennaeth ddeilliannau arolygu 2015 yn sbardun ar gyfer gwella. Yn y lle cyntaf, nododd fod angen i'r ysgol fod yn fwy allblyg i ddod o hyd i ddulliau a fyddai'n gwella addysgu a dysgu a'u mabwysiadu. Dechreuodd staff ymweld ag ysgolion lleol y nodwyd bod ganddynt safonau addysgu da. Dros gyfnod o ryw wyth wythnos, ymwelodd athrawon ag ysgolion eraill i arsylwi gwersi, i nodi arfer dda a gweithio ar gynllunio i ddisgyblion o wahanol alluoedd. Ar yr un pryd, mabwysiadodd yr ysgol 'siarter addysgu'. Fe wnaeth y continwwm hwn o ddisgrifyddion addysgu helpu athrawon i ddeall sut olwg fyddai ar arfer dda yn eu hystafelloedd dosbarth. Roeddent yn gallu nodi llawer o rinweddau arfer dda a ddyfynnwyd yn y siarter trwy eu harsylwadau o'u hysgol bartner, a'u gwaith gyda hi. Roedd y camau hyn yn effeithiol o ran codi disgwyliadau athrawon o'u gwaith, eu cynorthwyo i fyfyrio ar eu harfer eu hunain ac o ran sicrhau lefelau cysondeb yn ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, nododd adroddiad dilynol 2016 fod '*pob un o'r athrawon yn defnyddio dulliau cyson, fel rhannu bwriadau dysgu gyda disgyblion ar ddechrau gwersi a sesiynau llawn, defnyddiol ar ddiwedd pob sesiwn'.* O ganlyniad i ddisgwyliadau uwch ac ymwybyddiaeth ddatblygol o ddulliau addysgegol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus erbyn hyn. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen bellach yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn dda yn eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill trwy adborth llafar a thrwy ddefnyddio system raddio goleuadau traffig.

Defnyddiodd arweinwyr yr ysgol argymhellion arolygiad am agweddau ar eu harweinyddiaeth i wella'r addysgu ymhellach. Er enghraifft, fe wnaethant wella prosesau hunanarfarnu a dechrau gwneud defnydd effeithiol o reoli perfformiad staff. Dechreuodd arweinwyr gynnwys pob un o'r staff mewn gweithgareddau monitro. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion i arfarnu pa mor

dda y gwnaeth adborth helpu disgyblion i wella eu gwaith. Llywiodd y gweithgareddau hyn ddatblygiad proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff, er enghraifft trwy edrych ar farcio effeithiol o ysgolion eraill. Llwyddodd arweinwyr i yrru hyn yn ei flaen trwy osod targed rheoli perfformiad ar gyfer pob un o'r staff i wella ansawdd y marcio a'r adborth ar gyfer disgyblion. Yn 2016, nododd arolygwyr fod *'trefniadau ar gyfer marcio ac adborth i ddisgyblion yn effeithiol ac yn helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach'*. Roedd y rhain yn weithgareddau datblygu tîm pwysig a oedd yn cynorthwyo'r staff i ddeall eu rôl ar y cyd i gyflymu cynnydd disgyblion a phwysigrwydd helpu ei gilydd.

Mae staff wedi datblygu'r ethos tîm hwn yn llwyddiannus i rannu cynllunio. Maent yn cynllunio profiadau dysgu disgyblion ar y cyd gan ddefnyddio platfform dysgu digidol HWB. Mae hyn yn effeithiol o ran galluogi pob un o'r staff i weld cynllunio'i gilydd, er enghraifft i weld sut mae cydweithwyr yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol alluoedd.

Mae arweinwyr yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau gwersi erbyn hyn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu. Mae'r arsylwadau hyn yn defnyddio nodweddion arfer effeithiol a amlinellir yn y siarter addysgu. Maent yn cynnwys arfarniadau addas o effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn yn ystod taith yr ysgol, mae'r pennaeth yn tueddu i gynnal yr arsylwadau hyn gyda chymorth ymgynghorwyr her. Ni chaiff athrawon eraill yn yr ysgol eu cynnwys mewn arsylwadau gwersi ffurfiol eto. Nid yw'r ysgol wedi cyrraedd cyfnod gosod targedau unigol pwrpasol eto ar gyfer athrawon ar sail dadansoddiad manwl o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu. Ar hyn o bryd, mae arsylwadau gwersi yn tueddu i droi o gwmpas y broses rheoli perfformiad ac nid ydynt yn ymddangos fel strategaeth barhaus i hyrwyddo twf proffesiynol.

Caiff athrawon gyfleoedd datblygiad proffesiynol ychwanegol defnyddiol i wella agweddau ar eu gwaith. Er enghraifft, mae hyfforddiant i ddefnyddio dulliau penodol o ddatblygu medrau siarad ac ysgrifennu disgyblion yn effeithiol. O'i gyfuno â mentrau gwella eraill fel datblygiadau i farcio ac adborth, caiff yr hyfforddiant hwn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae hyfforddiant i wella dealltwriaeth o addysgeg y cyfnod sylfaen a'r gallu i'w rhoi ar waith, wedi cael effaith gadarnhaol ar y cyfan. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn sicrhau bod cydbwysedd addas o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy chwarae a phrofiadau yn ogystal ag ystod dda o weithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. O'i chyfuno, mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi disgyblion i gaffael, datblygu a chymhwyso eu medrau'n briodol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn datblygu gwelliannau diweddar i greu momentwm ar gyfer newidiadau addysgegol ehangach. Mae hyn yn cefnogi'r agenda genedlaethol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol sydd wedi'u hanelu at ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr gwydn, ac yn annog staff i fanteisio'n fwy ar adnoddau digidol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae'r ysgol yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gydweithio'n effeithiol, er enghraifft i gynllunio profiadau dysgu dilys a go iawn, fel digwyddiadau 'Masnach Deg'.

## Deilliannau

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf ers ei harolygiad diweddaraf o ran gwella ansawdd yr addysgu ac o ran rhoi addysgeg y cyfnod sylfaen ar waith
- Mae'r ysgol wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth o beth sy'n gwneud addysgu da
- Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn gwneud defnydd da o gyfleoedd dysgu proffesiynol i wella eu harfer
- Mae ansawdd yr addysgu yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- Mae'r ysgol yn defnyddio a datblygu ystod addas o ddulliau i adolygu ansawdd yr addysgu'n gyson
- Mae arweinwyr yn dangos y gallu i wella addysgu ar lefel ysgol gyfan

**Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol**

- Datblygu gallu'r ysgol ymhellach i nodi cryfderau a gwendidau mewn addysgu yn annibynnol
- Parhau i ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol i nodi agweddau ar addysgu sydd angen eu gwella ar lefel ysgol gyfan
- Defnyddio'r dadansoddiad o dystiolaeth o ansawdd yr addysgu i osod targedau gwella unigol ar gyfer athrawon sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigol fel dysgwyr proffesiynol
- Datblygu trefniadau i athrawon fyfyrio ar y cynnydd y maent wedi'i wneud yn erbyn nodau gwella

# Ysgol Uwchradd Llysweri

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg 11-19 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd Llysweri, sy’n gwasanaethu ardaloedd preswyl ar ochr ddwyreiniol Casnewydd. Mae tua 800 o ddisgyblion ar y gofrestr gydag oddeutu 150 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae tua 31% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol yn nodi bod gan ryw 29% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan bron i 3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae tua 23% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae’r gyfran hon yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Mae un deg chwech y cant o ddisgyblion ar gyfnod caffael iaith A neu B Llywodraeth Cymru; nid oes gan rai o’r disgyblion hyn unrhyw brofiad blaenorol o addysg. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o ystod eang o gefndiroedd ethnig. Nid yw tua 15% o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae’r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, sydd wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017, dirprwy bennaeth a ymunodd â’r ysgol yn 2013, a dau bennaeth cynorthwyol. Ymunodd y pennaeth cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am addysgu a dysgu â’r ysgol ym mis Ebrill 2014.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi canolbwyntio’n ddiflino ar wella addysgeg a chreu diwylliant o ddisgwyliadau cyson uchel ar gyfer addysgu a dysgu. Mae arweinwyr wedi egluro a chryfhau eu disgwyliadau gofynnol o arfer yn yr ystafell ddosbarth a chyfrifoldebau ar y cyd. Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol ar gyfer staff ac maent wedi bod yn ofalus i beidio â gorlethu staff â gormod o newid.

Mae diwylliant arfarnol cryf yr ysgol wedi galluogi arweinwyr i farnu cryfderau a meysydd i’w datblygu yn onest, a nodi anghenion dysgu proffesiynol yn gywir.

Mae gan yr ysgol gynllun tair blynedd manwl ar gyfer gwella addysgu. Mae hwn yn amlinellu cyfleoedd wedi eu cynllunio ac sy’n amserol i gyflwyno strategaethau newydd i sicrhau cynnydd gwell ar gyfer dysgwyr. Y prif ffocysau ar gyfer gwella addysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd cyflwyno acronym addysgegol i sicrhau cyflymdra a her, ochr yn ochr ag ystod o strategaethau i herio’r credoau sylfaenol am ddysgu a deallusrwydd a bennwyd ymlaen llaw. Mae pob un o’r staff addysgu yn glir am eu cyfrifoldebau ar y cyd o ran addysgeg a’u hatebolrwydd personol o fewn y system.

Mae pob un o’r staff yn aelodau o un o rwydweithiau dysgu proffesiynol yr ysgol. Mae’r rhwydweithiau hyn yn defnyddio ymchwil weithredu i wella agweddau ar addysgu. Mae’r rhwydweithiau’n dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013) i sicrhau eu bod yn canolbwyntio’n briodol ac y gallant ddangos effaith

eu gwaith. Mae rhwydweithiau diweddar wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn ogystal â blaenoriaethau'r ysgol. Mae pob rhwydwaith yn ysgrifennu adroddiad am eu canfyddiadau, y maent yn ei rannu â phob un o'r staff. Mae arweinwyr yn ystyried deilliannau ymchwil weithredu'r rhwydweithiau pan fyddant yn adolygu polisi a dulliau'r ysgol. Oherwydd bod uwch arweinwyr yn ystyried safbwyntiau staff, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwella'r ysgol, a gwerthfawrogir eu barn broffesiynol.

Mae staff yn cymryd rhan mewn sesiynau dysgu arfer ar y cyd hefyd. Hyfforddi cymheiriaid yw hyn gan ddefnyddio model GROW ac mae hefyd yn ymgorffori agweddau ar astudio mewn gwersi. Mae cydweithwyr yn cytuno ar ffocws, yn cynorthwyo ei gilydd wrth iddynt baratoi gwelliannau ac yn myfyrio ar arfer ystafell ddosbarth trwy hyfforddi cymheiriaid. Trwy gymunedau dysgu a grwpiau dysgu arfer ar y cyd, anogir athrawon i ddefnyddio tystiolaeth a defnyddio arfer effeithiol brofedig. Mae ystod y cymorth sydd ar gael i'r grwpiau yn cynnwys technoleg fideo i gofnodi gwersi a llyfrgell ddysgu gyda chyhoeddiadau perthnasol a chyfle i ymchwilio.

Mae'r ysgol yn cynllunio'i gweithgareddau dysgu proffesiynol yn ofalus iawn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan staff yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi eu dysgu. Mae'r arfarnu yn drylwyr a gonest. Mae pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac maent yn gwybod bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i wella eu haddysgu. Mae staff yn trafod eu rhan yn y gweithgareddau hyn yn ystod sesiynau rheoli perfformiad sy'n cysylltu â'r safonau proffesiynol newydd.

Mae prosesau arfarnu yn cynnwys olrhain a monitro trylwyr i gynorthwyo a herio pob un o'r staff. O ganlyniad i weithgareddau hunanarfarnu rheolaidd a thrylwyr, mae gan bob athro broffil addysgu a dysgu personol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn trafod y proffiliau personol mewn cyfarfodydd rheolwyr llinell i ddathlu cryfderau a nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol. Mae staff yn gwerthfawrogi'r rhain gan eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad am eu harfer a natur bwrpasol y cyfleoedd dysgu proffesiynol manwl gywir a gynigir. Mae gan bob adran broffil addysgu a dysgu hefyd, sy'n cynorthwyo arweinwyr canol i deilwra eu cynlluniau gwella yn unol â hynny. Mae addysgu a dysgu yn eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod rheolwyr llinell a chyfarfod adrannol.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hunanarfarnu trylwyr a manwl hyn a thrafodaethau rheolwyr llinell, gall yr ysgol gynllunio ac amlinellu gweithgarwch dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### Deilliannau

Adeg yr arolygiad yn 2013, roedd athrawon yn frwdfrydig ac roedd ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a safonau gwaith disgyblion mewn tua hanner o wersi yn unig. Yn 2017, mae ansawdd yr addysgu wedi gwella'n sylweddol fel y dangosir gan ganlyniadau arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a chan ymatebion staff a disgyblion i arolygon cyfadrannau am ansawdd addysgu a dysgu. Mae deilliannau disgyblion wedi gwella hefyd; er enghraifft yn 2017, mae'r ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg sy'n seiliedig ar gymhwyster disgyblion am brydau ysgol am ddim ar gyfer lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Mae disgyblion yn gryf o'r farn fod addysgu ac ymddygiad wedi gwella'n sylweddol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.  Mae athrawon yn hynod werthfawrogol o'r gweithgareddau dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt a'r modd y mae'r ysgol yn cefnogi eu datblygiad personol yn llwyddiannus.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Ymgorffori cyfrifoldebau ar y cyd ar gyfer pob un o'r staff sy'n deillio o ddiwrnodau dysgu proffesiynol ac yn cysylltu'n benodol â meddylfryd twf a datblygu llafaredd
- Datblygu llais y dysgwr trwy ddeialogau tymhorol am addysgu
- Datblygu edrych ar lyfrau trwy sgwrsio â dysgwyr
- Ymgorffori iaith y 12 egwyddor addysgegol
- Cyflwyno proffiliau addysgu a dysgu personol ar gyfer staff cymorth (gan adlewyrchu staff addysgu) i'w galluogi i gymryd perchnogaeth o'u dysgu a'u datblygiad proffesiynol

# Ysgol Syr Hugh Owen

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog 11-19 yng Nghaernarfon yng Ngwynedd yw Ysgol Syr Hugh Owen. Mae 853 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 171 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. At ei gilydd, mae bron i 100 o ddisgyblion yn fwy nag adeg yr arolygiad craidd ym mis Mawrth 2016.

Mae tua 16% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae bron i 90% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gyda'u teuluoedd ac mae 92% yn rhugl yn yr iaith. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 13% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth parhaol wedi cael ei secondio i weithio mewn consortiwm rhanbarthol ac mae'r dirprwy bennaeth wedi ymgymryd â swydd pennaeth dros dro. Mae un o'r pedwar pennaeth cynorthwyol wedi ymgymryd â swydd dirprwy bennaeth dros dro. Er mwyn cefnogi'r tîm arweinyddiaeth, mae pedwar arweinydd canol wedi ymgymryd â chyfrifoldebau arwain dros dro.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae gwella addysgu yn brif flaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol gyfan, ac mae'r ysgol yn datgan ei bod yn ceisio 'creu awyrgylch sy'n galluogi'r ysgol i wthio ffiniau addysgu a dysgu'. Gweledigaeth y pennaeth dros dro yw y dylai'r ysgol fod mor gynhwysol ag y bo modd. Mae'n credu'n gryf fod pob disgybl yn haeddu addysgu o ansawdd uchel a lefelau uchel o gymorth ac arweiniad. Er mwyn adlewyrchu'r lefel uwch hon o ddisgwyliad ac atebolrwydd cynyddol staff, fe wnaeth uwch arweinwyr ddiwygio neu ailysgrifennu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Un o gyfrifoldebau craidd pob uwch arweinydd yw gwella addysgu a dysgu. Mae hyfforddiant pwrpasol wedi digwydd i sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn deall rhinweddau gwersi llwyddiannus. Mae gan bob un o'r athrawon darged rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig ag addysgu. Mae athrawon yn deall bod ganddynt gyfrifoldeb proffesiynol i wella agweddau ar eu haddysgu er mwyn cyfrannu at weledigaeth yr ysgol gyfan. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon yn dda. Maent wedi blaenoriaethu gwariant i alluogi athrawon i fynychu digwyddiadau dysgu proffesiynol buddiol. Yn gyfnewid am hyn, mae arweinwyr yn disgwyl i staff rannu eu methodolegau dysgu am addysgu a materion addysgegol gyda'u cydweithwyr, naill ai mewn cyfarfodydd adrannol neu mewn digwyddiadau ysgol gyfan.

Nododd y pennaeth parhaol a'r dirprwy bennaeth (y pennaeth dros dro erbyn hyn) fod disgwyliadau isel a diffyg uchelgais llawer o ddisgyblion yn gallu rhwystro'r ysgol rhag cyflawni ei nod o wella addysgu a dysgu. I'r perwyl hwn, maent yn rhannu pob grŵp blwyddyn yn ddau fand cyfochrog. Galluogodd hyn yr ysgol i neilltuo dau ddosbarth ar gyfer athrawon pynciau craidd ym mhob grŵp blwyddyn, pe bai angen. O ganlyniad i rannu carfanau blwyddyn yn ddwy set o 1, 2 a 3 yn hytrach na chael setiau 1-6, codwyd dyheadau disgyblion a hyrwyddwyd eu cred mewn gallu cyrraedd eu potensial.

Nododd uwch arweinwyr fod angen gwneud arweinyddiaeth yn fwy dosbarthedig ar draws yr ysgol.  Fe wnaethant gynyddu atebolrwydd arweinwyr canol pynciau, gan roi cyfeiriad clir iddynt o ran eu cyfrifoldeb am addysgu a dysgu yn eu hadrannau.  Daeth pob arweinydd canol pwnc yn atebol am ansawdd yr addysgu a chysondeb marcio ac asesu o fewn eu pwnc.  O ganlyniad i'r arweinyddiaeth ddosbarthedig gynyddol, roedd cyfradd y gwelliant a'r newid yn gyflym.

Roedd y rhan fwyaf o staff yn deall bod angen gwella addysgu ac yn rhannu gweledigaeth ac uchelgais yr ysgol am gysondeb gwell yn ansawdd yr addysgu.  Gwirfoddolodd rhai athrawon i arwain rhaglenni addysgegol i ymestyn eu dysgu eu hunain a chael profiad arwain.  Fodd bynnag, roedd lleiafrif o athrawon yn gwrthwynebu newidiadau radical i drefniadaeth dosbarthiadau ac i'r diwylliant hunanfyfyrio a hunanwella oedd yn tyfu'n gyflym.  Roedd cryn dipyn yn llai ohonynt yn bryderus am gyflymdra'r newid.  Er mwyn lleihau pryder, rhoddodd y pennaeth arferion ar waith i hyrwyddo diwylliant o ddidwylledd a rhannu ymhlith staff.

Cyflwynodd yr ysgol arfer o weithio mewn triawdau a roddodd gyfle i athrawon gydweithio â chydweithwyr.  Sicrhaodd arweinwyr eu bod nhw a staff allweddol eraill ar gael i gynorthwyo'r triawdau â chynllunio a chyflwyno gwersi pe bai angen.  Trefnodd arweinwyr gyfleoedd gwerth chweil hefyd i athrawon ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ymarferwyr cryf.  Cyn i uwch arweinwyr arsylwi gwersi, cafodd pob un o'r athrawon gyfle i gydgynllunio'r wers gyda chymheiriad o'u dewis.

Dangosodd deilliannau o weithgareddau monitro fod angen gwella cyflymdra dysgu disgyblion.  Treuliodd arweinwyr amser yn ymchwilio i ffyrdd llwyddiannus o ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu.  Fe wnaethant rannu eu canfyddiadau â staff, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau mai disgyblion yw canolbwynt y wers a lleihau faint mae'r athro'n siarad.

Trefnodd yr ysgol ddiwrnodau a digwyddiadau dysgu proffesiynol ysgol gyfan pwrpasol, wedi'u harwain gan ymarferwyr adnabyddus sydd â chefndir llwyddiannus mewn rheoli newid.  Llwyddodd y strategaethau hyn i helpu lleihau pryder ymhlith athrawon, gan gyfrannu at ddiwylliant mwy agored yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r angen i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Llywodraeth Cymru, 2016), buddsoddodd yr ysgol yn sylweddol mewn gwella'i chaledwedd TGCh.  Prynodd arweinwyr gyfrifiaduron llechen, byrddau gwyn, adnoddau digidol a chaledwedd arbenigol ar gyfer athrawon.  Fe wnaethant ddarparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff ar sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn.  Sicrhawyd bod disgwyliadau sut y dylai staff ddefnyddio'r adnoddau newydd mewn gwersi yn eglur.  Mewn cyfnod cymharol fyr, mae bron pob un o'r athrawon wedi datblygu arferion da mewn defnyddio technoleg ddigidol yn eu gwersi.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddathlu arfer dda mewn addysgu ac asesu ar draws yr ysgol.  Er enghraifft, ar ôl pob cyfnod o graffu ar waith, maent yn creu compendiwm sy'n cynnwys enghreifftiau o adborth ac asesu effeithiol.

### Deilliannau

Ymatebodd disgyblion yn dda i'r newid sylweddol yn arferion athrawon, ac yn gyffredinol, bu gwelliant sylweddol mewn cyfnod byr yn agweddau disgyblion. Roedd disgyblion a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiad thematig hwn yn rhoi canmoliaeth fawr i'r newidiadau yn ansawdd yr addysgu. Fe wnaethant gyfeirio'n benodol at athrawon yn dod â'r dysgu'n fyw trwy dasgau diddorol a difyr a oedd yn eu galluogi i feddwl am bethau drostynt eu hunain.

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r ysgol wedi llwyddo i wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r athrawon wedi ymdrin yn frwdfrydig â blaenoriaeth yr ysgol i 'wthio'r ffiniau addysgu a dysgu'. O ganlyniad i'r ymdrech newydd ac uchelgeisiol hon i wella, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi parhau i fod yn dda o leiaf am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae safonau lles wedi gwella'n sylweddol dros yr un cyfnod.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Bydd yr ysgol yn parhau i ymgorffori'r arferion a gyflwynwyd i sicrhau'r cydweithio a'r cydweithrediad gorau rhwng staff.

# Ysgol Uwchradd Aberteifi

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog 11-19 yn nhref arfordirol Aberteifi yng Ngheredigion yw Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o'r dref a'r dalgylch gwledig cyfagos. Roedd 534 o ddisgyblion ar y gofrestr adeg yr arolygiad craidd ym mis Ionawr 2015, ond bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y disgyblion ers hynny. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol 603 o ddisgyblion ar y gofrestr, gydag 84 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Daw tua 30% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith yr aelwyd. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg mamiaith i 67%. Mae'r ysgol wedi cynyddu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ers adeg yr arolygiad craidd hefyd**.** Mae tua 16% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 34% o ddisgyblion angen dysgu ychwanegol. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae canolfan adnoddau dysgu yn yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2012. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, pennaeth cynorthwyol a phennaeth cynorthwyol dros dro.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi penodi dirprwy bennaeth newydd a thri phennaeth cynorthwyol. Mae'r pennaeth wedi rhannu ei weledigaeth ar gyfer gwella addysgu gyda phob un o'r staff. Mae'r weledigaeth hon i sicrhau bod pob un o'r athrawon yn cydweithio â'i gilydd ac yn cynorthwyo ei gilydd i sicrhau diwylliant o ysgol hunanwella, sy'n anelu am ragoriaeth. Addysgu a dysgu yw'r ffocws canolog yn y weledigaeth hon a neilltuir llawer o egni ac amser i sicrhau bod athrawon yn cyflwyno'r gwersi gorau posibl yn gyson.

Cynhelir adolygiadau cyfadran hynod effeithiol bob blwyddyn ar gyfer pob un o'r wyth cyfadran. Mae'r adolygiad trylwyr a chynhwysfawr yn cynnwys disgyblion yn cymryd rhan mewn arolygon addysgu a dysgu ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob cyfadran. Mae arweinwyr hefyd yn craffu ar dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd cyfadrannau ac arfarniadau o ddysgu proffesiynol i farnu i ba raddau y mae athrawon yn defnyddio hyfforddiant ac arweiniad. Mae'r corff llywodraethol llawn yn derbyn adolygiadau'r cyfadrannau, sy'n cynnwys argymhellion ynglŷn â sut i wella'r gyfadran. Wedyn, mae penaethiaid cyfadrannau'n cyflwyno cynllun gweithredu i gyfarfod nesaf pwyllgor safonau'r llywodraethwyr.

Mae uwch arweinydd, sydd â chyfrifoldeb am addysgu a dysgu, wedi treulio llawer o'i hamser yn ymgymryd ag ymchwil weithredu ac yn archwilio arfer dda mewn ysgolion eraill. Mae'n defnyddio ymarferwyr cryf yn yr ysgol i'w chynorthwyo yn ei hymdrech i wella addysgu. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd cynhyrchiol a buddiol o ymchwil i addysgeg i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel a phwrpasol ar gyfer pob un o'r staff. Yn sgil y gweithgareddau hyn, mae athrawon wedi diwygio a diweddaru polisïau ar addysgu a dysgu a marcio ac asesu. Mae nod cyffredin i'r ddau bolisi

hyn, sef: i athrawon fod yn gyson a theg trwy greu awyrgylch o ymddiriedaeth gyda'r disgyblion y maent yn eu haddysgu.  Mae'r polisïau yn pwysleisio pwysigrwydd athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio ac asesu yn ddoeth ac yn gynhyrchiol i leihau eu baich gwaith.  I'r perwyl hwn, mae'r polisïau'n cynnwys atodiadau tra ystyriol ar ffyrdd ymarferol o leihau baich gwaith a chynyddu effaith.

Ers yr arolygiad craidd, mae dysgu proffesiynol parhaus yn ffocws allweddol wrth gynllunio datblygiad yr ysgol.  Dros y flwyddyn academaidd, mae athrawon, fel rhan o'u hamser cyfeiriedig, yn cymryd rhan mewn cyfres o 11 o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol a sesiynau hyfforddi.  Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i hyfforddi staff a rhoi ar waith yr addysgeg yr ymchwiliwyd iddi'n dda, sy'n ategu gweledigaeth y pennaeth ar gyfer gwella addysgu.  Mae gofyn i holl arweinwyr digwyddiadau dysgu proffesiynol seilio eu mewnbwn ar dystiolaeth a gafwyd o ymchwil weithredu ddibynadwy ac effeithiol.  O ganlyniad, mae staff yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hyfforddiant ac arweiniad gan eu cymheiriaid.  Ar ôl pob digwyddiad dysgu proffesiynol, mae pob cyfadran yn cynnal dadansoddiad cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau o ansawdd eu darpariaeth bresennol.  Wedyn, mae cyfadrannau'n llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â deilliannau'r dadansoddiad.

Mae arweinwyr yn rhoi llawer o bwys ar gofnodi barn disgyblion, ac mae gan lais y disgybl ran annatod yn y rhan fwyaf o weithgareddau hunanarfarnu.  Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor ysgol ac athrawon allweddol yn aelodau o bwyllgor addysgu a dysgu.  Mae gan y grŵp arloesol hwn rôl bwysig mewn cynorthwyo athrawon i wella eu harfer.  Dyfeisiodd y pwyllgor strategaeth 'Quality Teacher 10' yr ysgol, sy'n seiliedig ar egwyddorion cynllunio effeithiol ac yn cynnwys arweiniad fel cael dechrau ysbrydoledig i wersi, cynnwys pwrpasol a sesiwn lawn, fuddiol.

Mae ymchwil i strategaethau addysgegol i ddatblygu annibyniaeth a gwydnwch disgyblion yn ategu llawer o weithdrefnau cytûn yr ysgol ar gyfer cynllunio ac addysgu.  Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau eistedd bechgyn/merched, lleoliad strategol disgyblion o grwpiau sy'n agored i niwed, holi disgyblion ar hap a sicrhau 'amser aros' priodol am ateb gan ddisgyblion, ar lafar ac wrth ymateb i waith ysgrifenedig.  Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o fatrics tra ystyriol o dechnegau holi, sy'n eu galluogi i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau disgyblion yn dda.  Mae'r ysgol yn disgwyl i athrawon roi yr un pwys ar 'amser aros' ac 'amser siarad'.  Mae arweinwyr yn darparu arweiniad tra ystyriol, sy'n deillio o ymchwil gynhwysfawr, i athrawon ar sut i asesu gwaith disgyblion yn effeithiol a darparu adborth defnyddiol.  Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio model cytûn yr ysgol ar gyfer marcio gwaith disgyblion.  Mae'r model hwn yn annog athrawon i roi sylw cyfartal i gynnwys y gwaith, cymhwyso medrau a meysydd i'w gwella.  Mae athrawon yn amlygu meysydd o waith disgyblion sydd angen eu gwella ac yn rhoi awgrymiadau defnyddiol sy'n helpu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am wella eu gwaith eu hunain.  Mae athrawon yn rhoi amser mewn gwersi i ddisgyblion ymateb i sylwadau am eu gwaith.

Er mwyn cefnogi ei nod o gael rhagoriaeth mewn addysgu, mae'r ysgol wedi addasu ei dogfennau sicrhau ansawdd.  Er enghraifft, mae ffurflenni arsylwi gwersi ac adroddiadau craffu ar waith yn ei gwneud yn glir mai safonau, darpariaeth ac addysgu da yw'r disgwyliad gofynnol.  Os bydd arweinwyr yn barnu bod angen gwella unrhyw weithgaredd neu wers, mae'n seiliedig ar y ffaith nad oes digon o ddisgyblion yn gwneud cynnydd.  Mae athrawon yn defnyddio systemau cyffredin ar

gyfer cynllunio gwersi a meini prawf llwyddiant hefyd. Maent yn rhannu tair lefel o ddisgwyliad gyda disgyblion, gan esbonio'r lefel ddisgwyliedig ofynnol a sut beth yw llwyddiant da a rhagorol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn ei gwneud yn glir i ddisgyblion y dylai bron eu holl waith fod yn dda, o leiaf.

Mae arweinwyr yn sefydlu llawer o brosiectau thematig fel rhan o'u ffocws ysgol gyfan ar wella darpariaeth yn gyffredinol, ac addysgu yn benodol. Nododd yr ysgol grŵp o athrawon yn eu trydedd neu bedwaredd flwyddyn yn addysgu a fyddai'n elwa ar gyfarwyddyd clir a dull newydd o wella eu haddysgu. Roedd arweinwyr nid yn unig am i'r athrawon hyn elwa ar ddysgu proffesiynol, ond hefyd i ddefnyddio eu datblygiad personol er budd yr ysgol trwy fod yn ymarferwyr arweiniol. Dechreuwyd adnabod yr athrawon hyn fel y grŵp gwella addysgu.

Gwnaeth y grŵp ddefnydd cynhyrchiol o dechnoleg fideo i arfarnu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu haddysgu eu hunain. Fe wnaethant gyfarfod yn rheolaidd, rhannu pytiau fideo ohonyn nhw eu hunain a nodi meysydd ffocws ar gyfer y cyfarfod nesaf. Fe wnaethant drefnu teithiau dysgu ffocysedig yn yr ysgol ac ymweld â darparwyr eraill. Ymhen amser, fe wnaethant nodi cryfderau penodol yn eu harfer, a rannwyd gyda staff yr ysgol gyfan ar ffurf pytiau fideo 'sut i' deg munud. Mae'r ysgol bellach wedi cynyddu'r platfform cymorth ac arweiniad hwn trwy alluogi mwy o athrawon i greu'r pytiau fideo, er enghraifft 'Sut i ddefnyddio tablau lluosi'n gywir mewn tasgau rhifedd trawsgwricwlaidd', 'Sut i ymdawelu dosbarth a'i gael yn barod am waith yn llwyddiannus' a 'Sut i gynllunio gweithgareddau dechreuol effeithiol ac ysbrydoledig'. Mae gwaith y grŵp gwella addysgu wedi rhoi mwy o hyder ac arbenigedd i staff wrth gynllunio gweithgareddau pwrpasol. Mae hyn wedi sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a safon y gwaith yn llyfrau disgyblion.

Nododd yr ysgol grŵp o ymarferwyr rhagorol hefyd, a'u galluogi i ymuno â'r rhaglen ranbarthol ar gyfer athrawon rhagorol. Darparodd yr ymarferwyr hyn arweinyddiaeth a hyfforddiant ysgol gyfan, yn seiliedig ar theori a methodoleg addysgegol gadarn wedi iddynt gymryd rhan yn y rhaglen. Er enghraifft, fe wnaethant arwain gweithgareddau dysgu proffesiynol ysgol gyfan ar ddefnyddio cynllunio holi effeithiol.

## Deilliannau

Mae'r ysgol wedi llwyddo i newid ei diwylliant ac wedi dod yn sefydliad sy'n ymdrechu i wella'n barhaus.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu proffesiynol ac mae arweinwyr wedi buddsoddi amser a chyllid sylweddol ar gyfer y flaenoriaeth hon. Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a bennir i staff wedi arwain at arferion addysgu gwell a chysondeb gwell o lawer o ran cyflwyno addysgu da ar draws yr ysgol. Mae rhoi cyfle i athrawon arwain gweithgareddau dysgu proffesiynol wedi cryfhau gallu'r ysgol i arwain. Mae hyn wedi gwella agenda cynllunio dilyniant yr ysgol yn llwyddiannus ac wedi gwella ansawdd arweinyddiaeth ganol ac uwch arweinyddiaeth yn sylweddol.

Bellach, caiff athrawon gyfleoedd mwy rheolaidd a buddiol i fyfyrio ar, ac arfarnu, eu harfer eu hunain, a'u cydweithwyr. Mae ymglymiad dysgwyr mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd, fel craffu ar waith, wedi creu cyfleoedd gwerth chweil i staff gydweithio â disgyblion i flaenoriaethu gwella deilliannau.

Mae deilliannau perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella ers yr arolygiad craidd ac mae'r bwlch o ran rhywedd wedi cau'n sylweddol (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae gwelliant mawr wedi bod yn ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn yr ysgol hefyd.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Cryfhau ymhellach fedrau athrawon mewn holi a strategaethau asesu eraill, i gynyddu lefel yr her i ddisgyblion
- Gwneud addysgu a dysgu yn fwy cyson ar draws yr ysgol trwy ddod o hyd i gyfleoedd i ledaenu arfer orau trwy ddefnyddio technoleg
- Gwella ymglymiad disgyblion yn eu dysgu trwy wneud arferion asesu a marcio yn fwy cyson ar draws yr ysgol er mwyn rhoi adborth gwell i ddisgyblion ar eu cynnydd a sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod beth y dylent ei wneud i wella'u gwaith
- Rhannu arfer orau o ran cynnwys disgyblion wrth asesu eu cynnydd eu hunain a datblygu eu medrau dysgu annibynnol
- Datblygu dealltwriaeth athrawon o'r safonau proffesiynol diwygiedig a chynnwys athrawon mewn ymchwil weithredu fel rhan o'r gweithdrefnau rheoli perfformiad newydd

# Astudiaethau achos o ysgolion sydd wedi adeiladu ar eu harfer dda bresennol mewn addysgu

## Ysgol Gynradd Deighton

Mae Ysgol Gynradd Deighton yn Nhredegar ym Mlaenau Gwent. Mae 182 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cael eu haddysgu mewn tri dosbarth un oedran a thri dosbarth oedran cymysg. Mae dosbarth meithrin rhan-amser hefyd.

Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac nid oes unrhyw un ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2012, a phenodwyd y dirprwy bennaeth ym mis Ebrill 2013.

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, eu staff a'u disgyblion. Mae staff yn cytuno bod rhaid i'r ysgol ddarparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd y gall eu cynnig i'w disgyblion, a chodi eu dyheadau. Hwn yw'r grym sy'n gyrru popeth a wna'r ysgol.

Pan benodwyd y pennaeth yn 2012, nid oedd gan yr ysgol ddiwylliant o rannu arfer rhwng athrawon. Ar ôl dechrau anodd, newidiodd y diwylliant yn raddol a chafodd ei symbylu ar ôl arolygiad 2015, i ymateb i'r argymhelliad am rannu arfer dda. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio cyfuniad o arsylwadau gwersi ffurfiol gan uwch arweinwyr ac arsylwadau mwy anffurfiol mewn triawdau athrawon i barhau i wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn adlewyrchu ymdrech barhaus yr ysgol i wella ochr yn ochr â'i nod i baratoi ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn datblygu ymagwedd at y cwricwlwm sy'n defnyddio 'cyfryngau', neu gyd-destunau ar gyfer dysgu, sy'n darparu profiadau ystyrlon, go iawn ar gyfer disgyblion. Trwy wneud hynny, nod athrawon yw ymgorffori'r pedwar diben o Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn y cwricwlwm a symud tuag at ddull maes dysgu a phrofiad.

Ar y cychwyn, canolbwyntiodd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ar wella cydweithio rhwng athrawon yn yr ysgol. Yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi ymestyn y dull hwn i ddatblygu diwylliant o gydweithio ag ysgolion eraill yn y consortiwm rhanbarthol a thu hwnt i helpu gwella addysgu. Mae arweinwyr yr ysgol yn annog athrawon i ymweld ag ysgolion eraill yng Nghymru a thu hwnt i gaffael syniadau newydd i ddylanwadu ar eu harfer, a'i gwella. Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol

dramor, yn ogystal ag elwa ar weithio gydag asiantaethau celfyddydau allanol, fel rhan o'r rhaglen 'ysgolion creadigol arweiniol'.

Yn 2012, ceisiodd y pennaeth gyflwyno arsylwadau gwersi bob tymor. Er gwaethaf ychydig o wrthwynebiad cychwynnol, erbyn 2014, daeth arsylwadau gwersi rheolaidd a rhannu arfer dda ar draws yr ysgol yn rhywbeth arferol. Yn 2016, llwyddodd gwaith yr ysgol i wella addysgu i gyrraedd lefel arall, wrth i arweinwyr gyflwyno fframwaith masnachol, strwythuredig i ganolbwyntio'n fwy manwl gywir ar elfennau penodol o addysgu i helpu athrawon ar bob lefel i wella eu harfer ac anelu at fod yn rhagorol. Mae arsylwadau'n canolbwyntio ar wahanol elfennau o'r fframwaith ar draws y flwyddyn, tra'n cynnal ffocws ar gynnydd a safonau disgyblion bob amser.

Pan fydd uwch arweinwyr yn cynnal eu harsylwadau gwersi ffurfiol bob tymor, maent yn rhoi dadansoddiad manwl iawn i athrawon o'u gwersi, gan gynnwys pa mor hir y mae'r athro wedi'i dreulio yn cyflwyno pob adran o'r wers. Mae'r pennaeth yn credu bod y lefel hon o graffu wedi bod yn allweddol wrth helpu codi disgwyliadau athrawon ohonyn nhw eu hunain a'u disgyblion. Mae'n cynorthwyo uwch arweinwyr wrth roi adborth datblygiadol clir i athrawon ac yn eu galluogi i nodi materion penodol y gall unigolion weithio i'w gwella.

Yn ogystal ag arsylwadau gwersi ffurfiol, mae athrawon yn gweithio gyda'u cydweithwyr mewn triawdau ac yn defnyddio technoleg fideo i ffilmio eu gwersi eu hunain o leiaf unwaith y tymor. Mae'r sesiynau hyn yn annog athrawon i ddefnyddio eu medrau beirniadol i adolygu eu haddysgu eu hunain ac addysgu eu cydweithwyr a datblygu eu medrau arfarnol. Mae datblygu ymddiriedaeth rhwng cydweithwyr wedi bod yn allweddol i lwyddiant y system hon. Mae wedi gwella hunanhyder athrawon i glywed eu cydweithwyr yn nodi cryfderau mewn elfennau o'u haddysgu. Mae hefyd wedi eu hannog i addasu eu haddysgu, yn aml mewn ffyrdd eithaf cynnil sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd dysgu disgyblion, er enghraifft rhoi mwy o amser i ddisgyblion feddwl cyn iddynt ateb neu fod yn fwy ymwybodol o sut maent yn holi disgyblion.

Gan fod yr ysgol wedi datblygu ei dull o gydweithio rhwng cydweithwyr yn yr ysgol, mae llawer o athrawon hefyd wedi ymweld ag ysgolion y nodwyd bod ganddynt arfer dda mewn mannau eraill yn y consortiwm rhanbarthol. Maent wedi teithio i Loegr hefyd i ymweld ag ysgolion sydd ag arfer hynod ddiddorol. Mae'r profiadau cydweithredol hyn yn helpu athrawon i ehangu eu meddwl a rhoi cynnig ar syniadau newydd y maent yn dysgu amdanynt. Er enghraifft, mae cyfnewid dosbarthiadau ag athrawon eraill yn yr ysgol ar 'Ddyddiau Gwener Rhyfedd' ('Freaky Fridays') yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddeall yr heriau sy'n gysylltiedig ag addysgu gwahanol grwpiau blwyddyn. Hefyd, mae mynychu cyfarfodydd gydag athrawon yn yr ardal sy'n defnyddio'r un fframwaith dysgu proffesiynol yn darparu cyfleoedd da i rannu syniadau a thrafod llwyddiannau a methiannau mewn amgylchedd nad yw'n feirniadol.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod athrawon a staff cymorth yn cael digonedd o gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau. O ganlyniad i hyn, datblygwyd cyfleoedd rhwng dosbarthiadau i gydweithio ar weithgareddau datrys problemau ac ymchwilio ar ddydd Gwener. Yn ei dro, mae hyn wedi cynnwys disgyblion mewn cyfrannu'n fwy at gynllunio athrawon.

Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn awgrymu syniadau ar gyfer meysydd darpariaeth wedi ei chyfoethogi, yn seiliedig ar y medrau y maent wedi bod yn eu dysgu mewn gweithgareddau â ffocws, fel defnyddio map stori yn y gornel ysgrifennu, neu adeiladu pont i'r dyn bach sinsir groesi'r afon yn yr hambwrdd dŵr.

## Deilliannau

Mae safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uchel gyda thua 90% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (Llywodraeth Cymru, 2017d). Mae'r pennaeth yn credu bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth manwl a roddir ar ôl arsylwadau gwersi. Mae uwch arweinwyr o'r farn fod y rhan fwyaf o'r addysgu yn yr ysgol yn dda neu'n rhagorol erbyn hyn.

Mae athrawon yn hyderus ac yn barod i gymryd risgiau addysgegol yn bwyllog a rhoi cynnig ar ddulliau a strategaethau newydd. Maent yn gwybod bod uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn gefnogol i hyn, ac nid ydynt yn ofni gofyn cwestiynau anodd, neu fod rhywun yn gofyn cwestiynau anodd iddyn nhw. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod athrawon yn dweud nad yw rhai o'r gwelliannau mwyaf buddiol mewn addysgu yn drawsffurfiannol ynddynt eu hunain o reidrwydd, ond maent yn eithaf bach. Mae'r ysgol yn eu galw yn 'dalpiau aur' ('golden nuggets'), sef pethau bach sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w gwaith. Mae athrawon yn rhannu'r 'talpiau aur' hyn â'i gilydd yn ystod trafodaethau a myfyrio ar ôl arsylwadau triawdau.

O ganlyniad i ddatblygu dealltwriaeth athrawon o safonau trwy gymedroli gwaith disgyblion yn rheolaidd gyda'i gilydd a sicrhau ansawdd cymedroliadau, mae'r gydberthynas rhwng barnau athrawon a safon gwaith disgyblion mewn llyfrau yn agosach o lawer nag ydoedd yn y gorffennol.

Mae sgyrsiau dysgu mewn cyfarfodydd staff wedi'u seilio ar ddysgu ac addysgu. Yr hyn sy'n bwysig yw bod athrawon a staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog yn eu dysgu proffesiynol. Maent yn cydnabod bod gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn ohonynt, ond yn deall bod angen iddynt fod yr athrawon gorau y gallant fod i roi'r cyfle gorau posibl o lwyddo i ddisgyblion.

## Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Parhau i roi adborth datblygiadol clir i athrawon sy'n eu galluogi i wella eu harfer
- Ymgorffori ac ymestyn gweithio mewn triawdau
- Parhau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd

# Ysgol Gynradd Hafod

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Hafod yn Abertawe, ger canol y ddinas. Mae 247 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed. Mae disgyblion wedi eu trefnu'n saith dosbarth. Mae'r ysgol yn darparu cyfleusterau meithrin ar gyfer 36 o blant tair a phedair oed sy'n mynychu'r ysgol yn rhan-amser i ddechrau. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn rheoli darpariaeth Dechrau'n Deg ar y safle. Mae tua 29% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae tua 60% o'r disgyblion yn wyn Prydeinig. Mae 40% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae mwyafrif o'r disgyblion hyn o dreftadaeth Asiaidd, Bangladeshaidd yn bennaf. Siaredir 15 o ieithoedd gwahanol gan ddisgyblion, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw Sylheti. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae gan ryw 35% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan rai disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2006. Mae'r dirprwy bennaeth wedi bod yn ei swydd am gyfnod tebyg.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae llawer o lwyddiant yr ysgol wrth ddatblygu cwricwlwm bywiog a gwella addysgeg addysgu wedi digwydd o ganlyniad i hirhoedledd, cysondeb a chreadigrwydd arweinwyr yr ysgol. Mae arweinwyr yn adnabod eu disgyblion a'u staff yn eithriadol o dda ac yn creu hinsawdd sy'n annog cymorth, creadigrwydd ac arloesedd ar y ddwy ochr.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi arfarnu ei darpariaeth i sicrhau ei bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm sydd ar y gweill. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae wedi aildrefnu'r uwch dîm arweinyddiaeth i ymgorffori swyddi cyfrifoldeb addysgu a dysgu ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae wedi datblygu timau ac unigolion sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio'r chwe maes dysgu, yn ogystal â staff sydd â chyfrifoldeb am asesu ar gyfer dysgu a sicrhau parhad yn nysgu disgyblion o 3-16 oed. Er bod timau ar gyfer pob maes dysgu, nid yw'r ysgol yn galluogi staff i weithio ar eu pen eu hunain. Mae monitro a datblygiad staff effeithiol gan uwch arweinwyr, er enghraifft ar ddiwrnodau dysgu proffesiynol, yn sicrhau bod y meysydd dysgu a dull addysgegol yr ysgol yn parhau yn gysylltiedig.

Mae uwch arweinwyr, arweinwyr meysydd dysgu penodol a'u timau yn arfarnu'r cwricwlwm a'i effaith ar ddysgu trwy galendr o weithgareddau monitro sydd wedi'i gynllunio'n ofalus. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi ac, yn fwy diweddar, teithiau dysgu. Mae'r gwaith hwn wedi nodi camau nesaf clir a phriodol. Er enghraifft, mae'r tîm cymhwysedd digidol yn deall, er bod medrau cyflwyno a medrau creadigol disgyblion yn gryf, ei bod yn ddyddiau cynharach o ran datblygu gwaith sy'n ymwneud â thrin data. Mae arweinwyr wedi nodi hefyd fod gormod o waith yn llyfrau disgyblion yn gywir, sy'n golygu nad yw'n herio pob disgybl

yn ddigon da yn gyson. Fe wnaethant nodi na wnaeth eu system olrhain electronig fodloni ei hangen mewn perthynas â llywio camau nesaf disgyblion ar gyfer dysgu yn ddigon da. Fe wnaethant hefyd nodi problemau â defnyddio'r system i sicrhau trylwyredd yng nghywirdeb asesiadau. Mae'r ysgol yn gweithio i fynd i'r afael â hyn trwy ddatblygu model asesu newydd.

Mae arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro tebyg i arfarnu ansawdd yr addysgu. Trwy'r gwaith hwn, maent yn nodi agweddau ar arfer broffesiynol y mae angen eu gwella ar lefel ysgol gyfan ar gyfer pob un o'r athrawon, yn ogystal â chryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer athrawon unigol. I fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella ysgol gyfan, mae'r ysgol yn dechrau defnyddio ymchwil weithredu yn effeithiol. Er enghraifft, ar ôl nodi asesu ar gyfer dysgu ac adborth yn faes i'w wella, dyrannodd arweinwyr gyfrifoldeb am wella i athro. Defnyddiodd hyn fel rhan o'i waith meistr. Dechreuodd y gwaith â rhagdybiaethau ac adolygiad llenyddol. Yn yr achos hwn, canolbwyntiodd y darllen ar b'un a oedd plant pump a chwech oed yn gallu arfarnu eu cynnydd eu hunain yn effeithiol. Arweiniodd hyn at ddatblygu ystod o feini prawf llwyddiant parhaol i helpu grŵp o chwe disgybl arfarnu agweddau ar eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft atalnodi. Canfu'r ymchwil fod y gwaith hwn yn effeithiol o ran cynorthwyo disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain. Ers yr arbrawf cychwynnol, mae'r canfyddiadau wedi dylanwadu ar bolisïau asesu ar gyfer dysgu a marcio'r ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn adolygu effaith bellach y gwaith hwn yn gyson.

Mewn gwaith ymchwil arall, ymunodd yr arweinydd mathemateg â chydweithwyr o bob cwr o Gymru i nodi meysydd o'r pwnc yr oedd disgyblion yn cael trafferth eu deall. Fe wnaethant nodi medrau rhesymu a'r anawsterau roedd disgyblion yn eu cael yn datrys problemau yn annibynnol. Cawsant syniad i ddefnyddio mapiau stori i helpu datrys y problemau. Arbrofodd pob athro yn y grŵp â'r strategaeth gyda hanner y disgyblion yn eu dosbarth. O ganlyniad, roedd y deilliannau ychydig yn well ar gyfer disgyblion targedig. Mae arweinwyr yn Ysgol Hafod yn sicrhau bod staff yn cael amser i rannu canfyddiadau eu gwaith er mwyn trafod y manteision, ac unrhyw beryglon. Mae hyn yn cefnogi diwylliant o fyfyrio a dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i arbrofi â'r mentrau hyn yn fanylach i wneud y canfyddiadau'n ddibynadwy. Mae'r math hwn o waith yn helpu'r ysgol i roi ystyriaeth dda i'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn cael cyfleoedd i arloesi, cydweithio ac arwain mentrau sy'n effeithio ar arferion addysgu ac addysgegol yr ysgol yn gadarnhaol.

Mae monitro gwaith o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau yn sicrhau bod arweinwyr yn cadw golwg agos ar lefelau cydymffurfio â mentrau yn ogystal ag ar eu heffaith. Mae hyn yn galluogi iddynt herio staff yn effeithiol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio system nodiadau *post-it* i nodi cryfderau neu wendidau penodol yng ngwaith athrawon wrth graffu ar lyfrau. Mae hyn yn dangos i athrawon bod arsylwadau arweinwyr wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae deialogau proffesiynol unigol sydd wedi'u seilio ar y ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol hyn hefyd yn sicrhau bod gan athrawon unigol dargedau clir ar gyfer gwella. Y targedau hyn, yn ogystal â thargedau addysgu ysgol gyfan, fydd nodau rheoli perfformiad athrawon yn y pen draw.

Mae disgyblion yn gwneud cyfraniad cryf at waith hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.  Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn arsylwadau gwersi ac yn gwneud arfarniadau addas.  Mae hyn wedi creu awgrymiadau diddorol ar gyfer gwella, er enghraifft trwy nodi bod angen i gynorthwywyr addysgu ymgysylltu’n fwy rhagweithiol â disgyblion mewn rhai achosion yn ystod profiadau dysgu.

Mae arweinwyr yn hyderus iawn yn y penderfyniadau a wnânt am strategaethau addysgu yn yr ysgol.  Maent yn gwybod beth sy’n gweddu orau i’w dysgwyr.  Er enghraifft, maent wedi cyflwyno dull ffurfiol o addysgu ffoneg sy’n seiliedig ar gynllun cyhoeddedig. Maent wedi hyfforddi pob un o’r staff i ddefnyddio hyn yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion yn eu gallu darllen ac asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol.  Mae arweinwyr yn gwrthod arweiniad gan bartneriaid allanol i ddiwygio’r dull hwn gan fod eu hunanarfarniad eu hunain yn nodi bod yr arfer hon yn effeithiol.

**Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol**

- Cyflwyno arsylwadau fideo o addysgu i gefnogi twf proffesiynol
- Ystyried gydag athrawon fanteision a rhwystrau athrawon yn arsylwi eu dosbarth eu hunain yn ystod eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu i lywio eu hasesiad o unigolion a grwpiau o ddisgyblion
- Datblygu medrau digidol disgyblion ymhellach
- Cynyddu lefel yr her ar gyfer disgyblion mwy abl

# Ysgol Gynradd Maes-y-Coed

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maes-y-Coed ym Mhontypridd yn Rhondda Cynon Taf. Mae 313 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 56 o ddisgyblion sy’n mynychu’r dosbarth meithrin amser llawn. Mae 11 dosbarth, ac mae disgyblion o oedrannau cymysg mewn pedwar o’r dosbarthiadau hyn.

Daw’r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol yn nodi bod gan ryw 33% o’i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Hydref 2011. Cyn hyn, roedd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae’r pennaeth yn credu’n gryf mewn defnyddio ymchwil allanol, deilliannau ymchwil fewnol yn seiliedig ar weithredu ac archwilio arfer dda mewn ysgolion eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i lywio’r addysgeg yn ei hysgol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae uwch arweinwyr wedi ymweld â llawer o ysgolion lleol i archwilio darpariaeth y cyfnod sylfaen. Fe wnaethant ymweld ag ysgolion yn Nenmarc a Gwlad yr Iâ hefyd i weld sut mae ysgolion yn Ewrop yn datblygu darpariaeth awyr agored i annog chwarae. Mae arweinwyr yn agored i syniadau newydd ac yn mynd i’r afael yn dda â strategaethau y maent yn clywed amdanynt pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd a chynadleddau gyda phobl broffesiynol eraill. Fe wnaethant ymweld ag ysgol uwchradd 13-18 lwyddiannus yn Swydd Efrog i ddysgu am enillion ymylol cronedig a’r egwyddorion sy’n ategu athroniaeth addysgu a dysgu’r ysgol. Fe wnaethant fynychu cynhadledd ryngwladol hefyd i ddysgu mwy am astudio mewn gwersi.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cymryd rhan mewn ymchwil weithredu ychwanegol hefyd fel rhan o’u datblygiad proffesiynol eu hunain neu fel aelod o grŵp gwella’r ysgol. Mae athrawon wedi ymgymryd ag ymchwil weithredu ar ystod o destunau. Er enghraifft, mae testunau’n cynnwys cydweithio yn yr awyr agored, datblygu egwyddorion addysgegol y cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2, defnyddio’r celfyddydau creadigol a mynegiannol a datblygu’r defnydd o ddarpariaeth barhaus. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o Raddfa Ymglymiad Leuven i fesur effaith y newidiadau ar lefelau ymglymiad disgyblion. Fe wnaeth un darn o ymchwil weithredu ar raddfa fawr gyfuno gwaith yr ysgol ar ddatblygu’r defnydd o’r celfyddydau mynegiannol, hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored a chyflwyno’r fframwaith cymhwysedd digidol. Gorffennodd y prosiect hwn trwy atal amserlen yr ysgol am bythefnos.

Mae arweinwyr yn cyfosod y canfyddiadau o ymweliadau ac ymchwil yn effeithiol, gan roi’r prif uchafbwyntiau i staff ddechrau trafodaethau am yr hyn a allai fod o fudd

i'w hysgol.  Mae arweinwyr a staff yn dewis yr hyn y maent yn arbrofi ag ef yn yr ysgol yn ofalus.  Defnyddiant ddeilliannau eu hymweliadau a'u hymchwil i lywio, ond nid i wneud penderfyniadau am eu haddysgeg a'u harfer.

Yn 2016, ar ôl clywed siaradwr mewn digwyddiad cenedlaethol yn esbonio'r theori y tu ôl i astudio mewn gwersi, mynychodd aelod o uwch staff y gynhadledd ryngwladol ar astudio mewn gwersi.  Arweiniodd hyn at drafodaeth ymhlith pob un o'r staff am yr egwyddorion y tu ôl i astudio gwersi.  Cytunodd staff i arbrofi â'r dull yn ystod blwyddyn academaidd 2016-2017.  Penderfynodd staff y byddai pob un o'r pum triawd yn cynnwys cynorthwyydd addysgu lefel uwch, athro ar y brif raddfa ac aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Dechreuodd yr ysgol trwy ffurfio polisi a amlinellodd eu hymagwedd at astudio mewn gwersi a datblygiad proffesiynol ar y cyd.  Cytunodd staff y byddai astudio mewn gwersi:

- yn disodli system monitro gwersi bresennol yr ysgol
- rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffurflenni arsylwi sesiynau presennol

Byddai hyn yn golygu na fyddai gwersi neu gyfres o wersi'n cael eu graddio.

Cytunodd athrawon a chynorthwywyr addysgu lefel uwch y byddai triawdau:

- yn gwerthfawrogi pob aelod yn gyfartal, beth bynnag fo'u profiad neu'u statws yn yr ysgol
- yn gwneud gwaith ymchwil i wella addysgu a dysgu yn y meysydd ffocws cytûn
- yn canolbwyntio ar ddadansoddi myfyriol, deialog broffesiynol ac ymchwil weithredu
- yn defnyddio cynllunio cytûn, cyfweld â disgyblion ac offer myfyrio i ganolbwyntio ar drafodaethau
- yn defnyddio technoleg fideo i gynorthwyo dadansoddi
- yn derbyn yr holl adborth yn adeiladol ac yn datblygu trafodaethau i wella dealltwriaeth
- yn rhannu nodau a deilliannau astudio mewn gwersi gyda disgyblion

Mae pob triawd yn dilyn yr un fformat.  Gan ddefnyddio dadansoddiad data a/neu ddeilliannau o fonitro, mae staff yn cytuno ar faes i'w wella, er enghraifft cynorthwyo disgyblion ffiniol i gyflawni deilliant 6 mewn ysgrifennu ar ddiwedd y cyfnod sylfaen.  Mae staff yn gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain ar y maes cyn y cyfarfod ffurfiol cyntaf.  Mae'r ysgol yn darparu staff cyflenwi ar gyfer tridiau llawn y gweithgareddau triawd i bob un o'r staff dan sylw.  Yn y cyfarfod cyntaf, mae staff:

- yn trafod y gwaith ymchwil y maent wedi'i wneud
- yn cytuno ar y ffocws ar gyfer y wers gyntaf
- yn dewis tri disgybl a fydd yn ffocws i'r arsylwadau ar y cyd
- yn ffurfio cwestiynau i holi disgyblion cyn cynllunio'r wers
- yn cyfarfod â disgyblion a ddewiswyd i ofyn y cwestiynau
- yn trafod syniadau ar gyfer y wers ac yn cytuno ar fwriadau dysgu
- yn gwneud rhestr o gwestiynau i'w gofyn i ddisgyblion ar ddiwedd y wers
- yn rhagweld sut bydd y disgyblion ffocws yn ymateb i wahanol rannau o'r wers

Ar ôl y gweithgareddau hyn, mae un aelod o’r triawd yn ysgrifennu cynllun y wers, mae un arall yn creu’r ffurflenni a chofnodion y diwrnod ac mae’r aelod arall yn darparu adnoddau ar gyfer y wers.

Yn ystod yr ail ddiwrnod, mae un aelod o’r triawd yn addysgu’r wers tra bydd y ddau arall yn arsylwi. Caiff y wers ei recordio gan ddefnyddio technoleg fideo. Er bod y ffocws ar ddeilliannau’r tri disgybl a ddewiswyd, gan nodi cymaint â phosibl o’r hyn y mae disgyblion yn ei ddweud a’i wneud, mae aelodau’r grŵp yn gwneud sylwadau arfarnol ar bob agwedd ar y dysgu a’r addysgu.

Ar ôl y wers, mae aelodau’r grŵp yn cyfarfod y tri disgybl ffocws i ofyn cwestiynau iddynt ar ôl y wers. Wedyn, mae’r aelodau o’r triawd yn gweithio gyda’i gilydd am weddill y diwrnod. Maent yn trafod eu myfyrdodau cychwynnol ac yn gwylio’r recordiad o’r wers i ganolbwyntio ar bwyntiau allweddol ac ymatebion gwahanol ddisgyblion. Mae staff yn ysgrifennu eu myfyrdodau’n fanwl cyn eu rhannu unwaith eto.

Yr hyn sy’n allweddol i’r broses hon yw bod staff yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol agored a gonest lle maent yn teimlo’n gyfforddus i herio, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella a damcaniaethu. Cyn dechrau’r prosiect astudio mewn gwersi, roedd mwyafrif o staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol wnaeth wella eu medrau hyfforddi a’u helpu i weld sylwadau heriol yn awgrymiadau adeiladol yn hytrach na beirniadaeth bersonol. Mae athrawon yn datgan nad ydynt yn ystyried her yn fygythiad, gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu herio heb gael eu barnu.

Mae aelodau’r triawd yn edrych yn ofalus ar atebion y disgyblion i gwestiynau ar ôl y wers ac yn cymharu sut roeddent yn meddwl y byddai disgyblion yn ymateb i’r wers a sut gwnaethant ymateb mewn gwirionedd. Maent yn nodi unrhyw batrymau neu faterion i’w harchwilio ymhellach yn y wers nesaf. Defnyddiant yr holl wybodaeth a gasglwyd i benderfynu beth y mae angen ei ailadrodd neu’i addasu yn y wers nesaf. Er enghraifft, mewn un sesiwn, nododd myfyrdod athro na wnaeth dau o’r disgyblion ffocws ddefnyddio sgwrsio â phartner yn effeithiol i feddwl am gwestiwn yr athro, a’i drafod. Arweiniodd hyn at yr awgrym fod angen i’r athro gerdded o gwmpas y partneriaid mewn gwersi dilynol i sicrhau effeithiolrwydd y strategaeth a gwneud yn siŵr fod disgyblion yn deall beth y dylent ei drafod. Wedyn, mae aelodau’r triawd yn cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y wers nesaf ar y cyd.

### Deilliannau

Ar draws yr ysgol, mae pwyslais mawr ar staff yn myfyrio ar eu harfer eu hunain ac arfer eu cymheiriaid ac yn eu dadansoddi. Mae staff yn fwy ymwybodol o’u cryfderau eu hunain a’u meysydd i’w datblygu o ran gwella eu harfer yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn deall anghenion y disgyblion yn eu dosbarthiadau. Mae sgyrsiau yn ystafell y staff yn canolbwyntio’n fwy ar addysgu a dysgu erbyn hyn. Mae’r sgyrsiau hyn yn canolbwyntio ar atebion ac mae staff yn dangos parodrwydd a hyder i rannu unrhyw anawsterau a siarad am yr hyn aeth yn dda mewn gwersi. Mae hyn yn helpu staff i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae staff bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar yr hyn y mae disgyblion yn gallu ei wneud a’r hyn na allant ei wneud. Maent yn myfyrio ar eu haddysgu ac yn gwneud newidiadau bach sy’n cael effaith fawr ar unigolion a

grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, mae athrawon bellach yn dyrannu rolau mewn gwaith grŵp ar ôl i dystiolaeth fideo ddangos nad oedd unigolion yn cyfrannu at waith grŵp. Cafodd staff eu synnu gan y disgyblion nad oeddent yn cyfrannu gan nad nhw oedd y rhai y byddai staff wedi eu rhagweld.

Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu'r dull astudio mewn gwersi ar draws yr ysgol trwy brynu offer fideo a dyrannu cyllid i ryddhau ar y cyd bob aelod o bob triawd am o leiaf dridiau yn ystod pob blwyddyn academaidd. Mae astudio mewn gwersi yn gweithio i'r ysgol hon gan fod pob un o'r staff yn credu yn y dull ac maent wedi ymrwymo i'w wneud yn llwyddiant. Mae hyn wedi arwain at lefelau cyson uchel o rannu addysgeg ac adnoddau ac mae wedi gwella cysondeb ac ansawdd yr addysgu.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Bydd yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r dull astudio mewn gwersi a bydd yn monitro ei effaith ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn ofalus.

# Ysgol Gynradd Oldcastle

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Oldcastle yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae 421 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 57 o ddisgyblion yn nosbarth meithrin yr ysgol.  Mae disgyblion wedi eu trefnu'n 15 dosbarth.

Mae tua 8% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, er mai dim ond yn ddiweddar yr ymunodd llawer o'r disgyblion hyn â'r ysgol.  Nododd yr ysgol fod gan ryw 14% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Mawrth 2013.  Un o'i gamau gweithredu cyntaf oedd cynnal cyfres o arsylwadau gwersi i lunio barn wybodus am ansawdd yr addysgu yn yr ysgol.  Canfu ei arsylwadau, er bod pob un o'r staff yn gweithio'n galed, nad oeddent o reidrwydd yn canolbwyntio ar y pethau cywir i'w helpu i wella eu haddysgu, a dysgu disgyblion yn ei dro.  Cyn penodi'r pennaeth, roedd athrawon wedi mynychu nifer o gyrsiau a chyfnodau sabothol datblygiad proffesiynol unigol.  Nododd y pennaeth fod gan athrawon ystod o wahanol gryfderau a meysydd i'w datblygu.  Nid oedd yn credu y byddai mynychu rhagor o ddigwyddiadau allanol yn ysgogi'r gwelliannau oedd eu hangen.  Roedd eisiau gwella addysgu trwy ddefnyddio mecanweithiau cymorth mewnol.  Cyflwynodd y pennaeth system hyfforddi a mentora ddwys am ddeuddeg wythnos i gynorthwyo datblygiad pellach athrawon.  Rhyddhaodd yr ysgol uwch athrawes o'i dyletswyddau ystafell ddosbarth i gynnal y rhaglen a sefydlu partneriaethau gydag ysgolion a sefydliadau eraill i ddatblygu rhaglenni datblygu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr.

Roedd y rhaglen hyfforddi a mentora yn bersonol a theilwredig i'r athrawon dan sylw.  Roedd rhaglenni unigol yn canolbwyntio ar feysydd y nodwyd bod angen eu gwella trwy arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau, yn ogystal ag ar feysydd y nododd yr athro ei fod eisiau eu caboli.  Roedd yr hyfforddwr athrawon yn cyfarfod â phob athro o leiaf unwaith yr wythnos.  Darparodd gymorth yn y dosbarth trwy fodelu gwersi a chyd-addysgu.  Gweithiodd gydag athrawon ar gynllunio gwersi a strategaethau rheoli ystafell ddosbarth hefyd.  Ar ôl pob sesiwn hyfforddi, nododd athrawon ar beth roeddent am weithio cyn y cyfarfod nesaf.  Roedd y perthnasoedd gweithio gonest ac agored a sefydlodd uwch arweinwyr gyda'r staff hynny a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen yn allweddol i'w llwyddiant.  Arweiniodd hyn at lefelau uchel o ymddiriedaeth i'r rheiny oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen ac fe wnaeth fagu hyder a meithrin hunan-barch ymhlith athrawon.

Mae rhaglen hyfforddi a mentora debyg ar waith ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac athrawon graddedig sy’n ymuno â’r ysgol.  Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn cyflogi dau o athrawon ar y rhaglen athrawon graddedig ac athro sydd ar ei ail flwyddyn yn addysgu.  Mae’r dirprwy bennaeth yn cyfarfod â’r athrawon hyn bob wythnos i gynllunio eu profiadau dysgu proffesiynol, fel trefnu ar gyfer modelu gwersi, cyd-addysgu ac arsylwadau cymheiriaid ac i osod targedau addysgegol ar gyfer y dyfodol.  Mae’r ysgol yn teilwra’r profiadau yn effeithiol i fodloni anghenion a chyfnod datblygu’r athro unigol.

Mae’r pennaeth yn ymwybodol iawn o ofynion y proffesiwn addysgu a’r pwysau ychwanegol y mae rhai o’r staff yn eu rhoi arnyn nhw eu hunain.  Er mwyn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a staff yn gofalu am eu hiechyd meddwl, gwahoddodd bob athro i fynychu cwrs ymwybyddiaeth ofalgar.  Ariannwyd y cwrs gan undeb athrawon cenedlaethol a mynychodd athrawon y cwrs o’u gwirfodd am ddwy awr ar ôl yr ysgol am wyth wythnos.  Mynychodd bron pob un o’r athrawon.  Mae athrawon yn cytuno bod mynychu’r cwrs wedi helpu codi eu hymwybyddiaeth o’i gilydd a phwysigrwydd cyfathrebu’n onest ac agored fel bod problemau’n cael eu rhannu yn hytrach na’u cuddio.  Mae hyn wedi helpu gwella llinellau cyfathrebu ymhellach yn yr ysgol ac wedi annog mwy o ddidwylledd fel bod athrawon bellach yn gyfforddus gyda chydweithwyr yn galw i mewn i’w hystafelloedd dosbarth.

Mae’r ysgol yn defnyddio dull ysgol gyfan o ran dysgu proffesiynol.  Er enghraifft, pan benderfynodd yr ysgol gyflwyno adnoddau mathemateg newydd a ffyrdd newydd o weithio, mynychodd pob un o’r staff ddigwyddiadau datblygu mewnol rheolaidd.  Ar ôl pob digwyddiad, mae staff yn cytuno ar ffocws i weithio arno, sy’n gysylltiedig â’u dysgu.  Maent yn rhannu deilliannau eu gwaith mewn cyfarfodydd staff ac uwch arweinwyr.  Mae hyn yn helpu sicrhau gwybodaeth a dull cyson ar draws pob dosbarth.  Mae staff yn mynychu sesiynau diweddaru a gwybodaeth rhanbarthol a lleol, ond anaml iawn y maent yn mynychu digwyddiadau dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr yn annog athrawon i gymryd rhan mewn ymchwil weithredu ac arbrofi â syniadau newydd.  Er enghraifft, mae athrawon wedi defnyddio technegau ymchwil ac ymholi i archwilio sut gall gemau wella medrau mathemategol a sillafu disgyblion.  Mae athrawon yn arbrofi â syniadau ar gyfer gwella cysur a lles disgyblion hefyd trwy gyflwyno seddau bagiau ffa a gwisgo sliperi mewn ystafelloedd dosbarth.  Nid yw arweinwyr yr ysgol yn ofni rhoi’r gorau i brosiectau ac arbrofion os nad ydynt yn bodloni anghenion disgyblion a staff.  Er enghraifft, ychydig flynyddoedd yn ôl, cyflwynodd yr ysgol ddefnydd o dechnoleg fideo ar gyfer arsylwadau gwersi ac arsylwadau cymheiriaid.  Fodd bynnag, ar yr adeg honno, nid oedd athrawon yn ddigon cyfarwydd â rhannu arfer i fod yn gyfforddus â’r math hwn o ddull.  Bu’r ysgol yn arbrofi â marcio triphlyg hefyd ond rhoddodd y gorau i hyn pan gytunodd athrawon nad oedd yn gwella ansawdd yr adborth i ddisgyblion ac nad oedd yn ddefnydd effeithiol o’u hamser.

Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, buddsoddodd yr ysgol yn sylweddol mewn rhaglen arweinyddiaeth bwrpasol am chwe diwrnod ar gyfer pob aelod o’r uwch dîm arweinyddiaeth.  Dros y chwe diwrnod, dysgodd cyfranogwyr am eu hymddygiadau a’u harddulliau arwain eu hunain.  Fe wnaethant archwilio beth oedd y ffordd orau i gyfathrebu a rhoi adborth, osgoi gwrthdaro a magu hyder ymhlith staff, trwy

ddefnyddio ymddygiadau cadarnhaol pendant. Dysgon nhw am dechnegau hyfforddi a mentora a chawsant hyfforddiant ac adborth un i un ar eu perfformiad eu hunain gan fentor allanol. Mae pob un o’r athrawon a gymerodd ran yn y rhaglen yn teimlo eu bod wedi magu hyder a meithrin gallu i gael trafodaethau proffesiynol manwl am ansawdd yr addysgu a’r ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at lefelau uwch o ddidwylledd a gonestrwydd wrth archwilio a rhannu arfer yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn symud oddi wrth arsylwadau gwersi ffurfiol. Nid yw arweinwyr yn yr ysgol yn credu mewn graddio gwersi cyfan na dadansoddi a graddio elfennau unigol o addysgu. Yn 2017-2018, maent yn arbrofi â system o sesiynau galw i mewn lle bydd arweinwyr yn galw i mewn i wersi’n rheolaidd am ryw 15 munud ac wedyn yn cael deialog broffesiynol gydag athrawon. Dros gyfnod, mae staff yn yr ysgol wedi ymgyfarwyddo â’r pennaeth ac aelodau eraill o’r uwch staff yn galw i mewn i’w gwersi’n ddirybudd i siarad â disgyblion a chymryd rhan yn yr addysgu a’r dysgu. Yn 2017/2018, bydd athrawon yn cael eu hannog i arsylwi ei gilydd yn fwy rheolaidd.

### Deilliannau

Mae dull yr ysgol o hyfforddi a mentora athrawon ar sail eu hanghenion unigol a’u cyfnod datblygu wedi arwain at arferion addysgu cyson dda ar draws yr ysgol. Mae gallu uwch arweinwyr i gymryd rhan mewn adborth agored a gonest wedi gwella oherwydd yr hyfforddiant pwrpasol ar arweinyddiaeth, hyfforddi a mentora. Mae hyn yn golygu bod pob un o’r arweinwyr yn gyfforddus yn herio eu syniadau eu hunain a’i gilydd ynglŷn â beth sy’n gwneud addysgu da. O ganlyniad, mae pob un o’r staff yn ymarferwyr myfyriol. Mae ymagwedd yr ysgol gyfan at agweddau at ddysgu proffesiynol yn sicrhau bod mentrau newydd yn cael eu gweithredu a’u datblygu’n gyson ar draws yr ysgol.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Dyma dair prif flaenoriaeth yr ysgol:

- Mireinio’r broses arsylwi gwersi er mwyn i athrawon allu elwa ar lefel uwch o gymorth proffesiynol
- Parhau i gynnal a chyhoeddi ymchwil ar lefel uchel i wella ansawdd dysgu ac addysgu
- Defnyddio arsylwadau gwersi i wrando ar ddysgwyr a chraffu ar lyfrau, gan sicrhau bod gweithgareddau ar gyfer disgyblion medrau sylfaenol yn gweddu’n agosach i’w gallu

# Ysgol Cynwyd Sant

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cynwyd Sant ym Maesteg yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae tua 300 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 40 o ddisgyblion meithrin.  Mae 11 dosbarth, ac mae pump o'r rhain yn ddosbarthiadau oedran cymysg.  Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.  Daw tua 30% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Mae tua 12% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.  Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 1999. Cyn hyn, roedd yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.  Mae hefyd yn rhan o raglen ysgolion arweiniol creadigol Llywodraeth Cymru ac mae'n ysgol hwb ar gyfer ei chonsortiwm rhanbarthol.  Mae hyn yn golygu ei bod yn cefnogi ysgolion eraill yn y consortiwm trwy ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd i arsylwi a rhannu arfer dda.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae'r ysgol bob amser wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i ddatblygu medrau ei staff fel athrawon ac arweinwyr.  Mae hyn yn cynnwys cynorthwywyr addysgu sydd â chyfrifoldeb am arwain dysgu gyda dosbarthiadau a grwpiau.

Mae'r pennaeth yn arweinydd profiadol sy'n magu hyder ymhlith ei gweithlu.  Mae'n eu hannog i roi cynnig ar syniadau newydd a gwahanol ffyrdd o wneud pethau, ac mae'n eu cynorthwyo i wneud hynny trwy ddarparu'r amser a'r adnoddau i gynllunio a gwneud pethau'n gywir.  O ganlyniad, mae aelodau o'i thîm arweinyddiaeth a staff eraill yn datblygu medrau arwain cryf a hunanhyder sylweddol.  Nid ydynt yn ofni arfarnu eu gwaith yn feirniadol ac maent yn addasu cynlluniau neu'n rhoi'r gorau iddynt pan fydd angen.  Nid yw arweinwyr yn peryglu niwedio cynnydd neu les disgyblion ac maent bob amser yn sicrhau bod tystiolaeth dda i awgrymu y bydd canlyniadau cadarnhaol yn sgil unrhyw newidiadau.  Er bod gan athrawon lefelau uchel o ymreolaeth, mae canllawiau clir y dylent weithio oddi mewn iddynt.  Er enghraifft, wrth gynllunio testun, mae uwch arweinwyr yn nodi set o ddisgwyliadau nad ydynt yn agored i drafodaeth.  Mae hyn yn cynnwys wythnos baratoadol pan fydd athrawon yn atgoffa disgyblion am y pethau sylfaenol, gan gynnwys pwysigrwydd sgwrsio pwrpasol, rheolau'r ystafell ddosbarth a'r ysgol, cyflwyno a sillafu, a'r pedwar diben.

Mae gan yr ysgol ddull cysylltiedig ar gyfer popeth a wna, ac mae'n sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n cysylltu â'i gilydd.  Mae cynllunio gwelliant ysgol, rheoli perfformiad, dysgu proffesiynol, ymchwil athrawon a newidiadau i'r cwricwlwm i gyd yn cysylltu'n

agos ac mae hyn yn sicrhau nad yw athrawon yn teimlo fel pe baent yn ailadrodd gwaith yn ddiangen, nac yn gwneud gwaith er mwyn ei wneud.  Bron ym mhob achos, mae unrhyw beth a wna athrawon yn cyflawni sawl diben.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi newid pwyslais arsylwadau ystafell ddosbarth.  Mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr eraill yn cynnal arsylwadau statudol o hyd, ond dair blynedd yn ôl, dechreuodd athrawon weithio mewn triawdau gyda'u cydweithwyr.  Mae staff yn teimlo eu bod bellach yn elwa llawer mwy ar y dull cydweithredol hwn o wella addysgu.

Mae'r pennaeth wedi ymrwymo hefyd i'r cysyniad o athrawon fel ymchwilwyr.  Mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno ffyrdd arloesol o ddatblygu medrau ymchwil athrawon fel rhan o'u gwaith bob dydd, a heb eu gorlethu.  Mae gwaith ymchwil bellach yn cefnogi rheoli perfformiad athrawon a hunanarfarnu'r ysgol.

I gynnal ac ymestyn y cryfderau a nodwyd mewn addysgu adeg yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau addysgol.  Mae'r pennaeth wedi chwilio am gyfleoedd i wella ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth broffesiynol ei hun, gan weithio'n agos ag asiantaethau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r celfyddydau, i gynnal ymweliadau rhyngwladol a gwneud gwaith ymchwil.  Mae hi wedi ymestyn ymglymiad yr ysgol mewn rhannu arfer dda trwy ehangu ei rôl fel ysgol hwb.  Mae'n galluogi aelodau o staff yr ysgol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff o ysgolion eraill, ac yn croesawu llawer o ymwelwyr i'r ysgol.  Er enghraifft, yn ddiweddar, hwylusodd sawl aelod o staff gwrs ar asesu ar gyfer dysgu i ysgolion eraill.  Mae paratoi ar gyfer y gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd da i athrawon fyfyrio ar waith yr ysgol, yn ogystal â dysgu am y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion eraill.

Dechreuodd yr ysgol weithio mewn triawdau sawl blwyddyn yn ôl, ac ysbrydolwyd hyn i ddechrau gan arweiniad gan Lywodraeth Cymru.  Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud yr hyn y mae'n aml yn ei wneud yn hynod lwyddiannus, ac wedi addasu'r syniad yn unol ag anghenion ei hathrawon ei hun a chyd-destun yr ysgol.  Ar y dechrau, cytunodd staff ar ffordd o weithio a oedd yn llai rhagnodol a ffurfiol nag yr oedd yr arweiniad yn ei awgrymu.  Mae pob triawd yn cynnwys uwch arweinydd, a dau aelod arall o staff sydd â gwahanol fedrau a gwahanol lefelau o brofiad.  Maent yn cynllunio gwersi gyda'i gilydd ac yn arsylwi ei gilydd yn addysgu eu dosbarthiadau eu hunain.  Wedyn, maent yn dod at ei gilydd i gael trafodaeth broffesiynol.  Mae'r sgyrsiau hyn yn gefnogol, ond yn codi llawer o faterion pwysig a diddorol, y mae athrawon yn eu trafod yn feirniadol er mwyn arfarnu effeithiolrwydd eu haddysgu ar safonau disgyblion.

I hwyluso ymchwil athrawon, mae'r ysgol wedi defnyddio dull gwahanol o reoli perfformiad.  Mae'r dull newydd nid yn unig yn sicrhau bod rheoli perfformiad yn cysylltu'n dda â datblygiadau eraill yr ysgol, mae hefyd yn sicrhau ymrwymiad ac ymgysylltiad llawn pob un o'r athrawon â'r broses.  Ar ddechrau'r flwyddyn, mae athrawon yn gosod cwestiwn ymchwil iddyn nhw eu hunain.  Er enghraifft, mae un athro wedi dewis ystyried p'un a yw ymarfer corff cynyddol yn cael effaith gadarnhaol ar gymhelliant, ymgysylltiad a chynnydd academaidd grŵp o fechgyn sydd mewn perygl o ymddieithrio.  Daw'r cwestiynau ymchwil hyn yn brif sbardun ar gyfer rheoli perfformiad athrawon trwy gydol y flwyddyn ac maent yn gosod targedau sy'n

gysylltiedig â'r cwestiwn ymchwil.  Er bod gan athrawon ddewis rhydd o gwestiynau ymchwil, mae disgwyliadau arweinwyr o athrawon yn glir.  Yn ystod y flwyddyn, mae arweinwyr yn disgwyl i athrawon:

- wneud gwaith ymchwil weithredu gyda'u disgyblion
- ymgymryd â darllen a gwaith ymchwil proffesiynol cysylltiedig
- arfarnu eu canfyddiadau a pharatoi adroddiad i'w rannu â chydweithwyr ac fel rhan o'u hadolygiad rheoli perfformiad blynyddol

I adlewyrchu'r dull arall hwn o reoli perfformiad, mae'r ysgol hefyd wedi defnyddio dull hollol wahanol o gynllunio gwelliant yr ysgol trwy ddefnyddio cwestiwn ymchwil ysgol gyfan, sydd, ar gyfer 2017-2018, yn canolbwyntio ar baratoadau'r ysgol ar gyfer y cwricwlwm newydd.  Mae'r trywydd ymholi presennol yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae staff yn defnyddio'r egwyddorion addysgegol a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) i godi safonau a gwella lles pob disgybl.

## Deilliannau

O ganlyniad i'r ffocws cryf ar ddatblygu arweinwyr a pharhau i wella addysgu, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.  Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad am y pedwar diben yn hyderus ar lefel sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu.  Mae rhan disgyblion mewn cynllunio testunau yn rhan bwysig o athroniaeth yr ysgol.  Mae hyn yn sicrhau lefelau uchel o ymgysylltu â dysgu ac yn cyfrannu at les a chynnydd cryf disgyblion o fannau cychwyn.

Fel rhan o hunanarfarniad yr ysgol, mae staff wedi dechrau arfarnu cynnydd yn erbyn y pedwar diben a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).  Mae'r ysgol yn cynnal arolwg hefyd i asesu agweddau disgyblion tuag at ddysgu ac atebion athrawon i'w dysgu proffesiynol.  Yn y ddau achos, mae ymatebion yn gadarnhaol.  Er enghraifft, mae holiadur diweddar i staff yn cadarnhau bod pob un o'r staff a holwyd yn teimlo bod eu dealltwriaeth o'r newidiadau yn y cwricwlwm newydd yn dda neu'n dda iawn.

Mae athrawon yn ymddiddori'n fawr yn eu dysgu proffesiynol eu hunain ac yn croesawu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil a rhannu arfer dda gydag athrawon eraill.  Maent yn staff hyderus sy'n ymateb yn frwdfrydig i syniadau newydd ac maent yn hyblyg yn eu hymagwedd at bob agwedd ar eu gwaith.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, eu cydweithwyr a'u disgyblion.

## Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bwriadu:

- Datblygu ymhellach ei dull o weithio mewn triawdau ar gyfer athrawon a staff cymorth, i gynnwys staff sy'n cyflenwi mewn dosbarthiadau yn rheolaidd
  - ➢ defnyddio staff profiadol yn yr ysgol i wella agweddau penodol ar hyfforddiant a mentora
  - ➢ cynyddu nifer y sesiynau cynllunio ar y cyd ac arsylwadau gwersi ar y cyd ar gyfer triawdau athrawon o ddau i dri mewn blwyddyn a sicrhau bod

arweinydd y tîm yn llunio adroddiad ar ddeilliannau'r gwaith triawdau i'w rannu â staff eraill ar draws yr ysgol
    - galluogi unigolion i fyfyrio o fewn triawdau ar eu perfformiad eu hunain a defnyddio'r safonau addysgu proffesiynol i nodi meysydd personol i'w datblygu
- Canolbwyntio ar un o'r egwyddorion addysgegol a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) fel ysgol, gyda bwriad i greu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer meddwl yn feirniadol, meddwl yn greadigol a datrys problemau
- Annog staff i ddefnyddio dull yn seiliedig ar ymholi fel rhan o reoli perfformiad fel eu bod yn cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad personol eu hunain a nodi eu datblygiad yn erbyn y safonau proffesiynol
- Gweithio mewn triawdau gyda dwy ysgol gynradd o awdurdodau lleol cyfagos i greu strategaeth ar gyfer addysgeg

# Ysgol Pencae

## Cyd-destun

Mae Ysgol Pencae yn Llandaf yng Nghaerdydd. Mae tua 210 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, rhwng 4 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol saith dosbarth un oedran. Oherwydd nad oes gan yr ysgol unrhyw ddarpariaeth feithrin, daw disgyblion i'r ysgol o ystod eang o ddarpariaeth cyn-ysgol.

Mae tua 2% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 13% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Daw tua 16% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2008 ac ymunodd y dirprwy bennaeth â'r ysgol ym mis Medi 2016.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Adnewyddodd yr ysgol ei ffocws ar wella addysgu yn 2013 i ddechrau. Cyflwynodd arweinwyr ychydig o gynlluniau cyhoeddedig i sicrhau mwy o gysondeb wrth addysgu darllen, ysgrifennu a mathemateg a helpu cryfhau medrau athrawon yn y meysydd hyn o'r cwricwlwm. Yn dilyn hyn, daeth ffocws ar ddatblygu ymagwedd yr ysgol at asesu ffurfiannol trwy ddeall asesu ar gyfer dysgu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynllun datblygu'r ysgol wedi amlinellu blaenoriaethau clir mewn perthynas ag addysgu, gan gynnwys gwella adborth i ddisgyblion a mireinio strwythur gwersi. Mae'r cynllun presennol yn cynnwys targed i wella safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, a'r nod cyffredinol yw y dylai pob gwers fod yn dda neu'n rhagorol a datblygu dysgu annibynnol disgyblion trwy weithgareddau a osodir mewn cyd-destunau go iawn. Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau clir ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwella addysgu. Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain ac maent yn gwybod eu bod yn atebol am ddeilliannau'r disgyblion yn eu dosbarthiadau.

Ym mis Medi 2016, dechreuodd athrawon weithio mewn triawdau gydag athrawon yn yr un grŵp blwyddyn o ddwy ysgol arall. Diben y gwaith hwn yw rhannu arfer dda a myfyrio ar effeithiolrwydd eu haddysgu eu hunain ac addysgu cydweithwyr.

Mae arweinwyr ac aelodau eraill o staff wedi gweithio'n galed i ddatblygu agwedd gadarnhaol ac ymagwedd hyblyg at weithgareddau mewnol fel arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ysgol gyfan ar lyfrau disgyblion, a chyfarfodydd tîm a chyfarfodydd staff ysgol gyfan. Mae hyn wedi galluogi staff i fod yn fwy agored â'i gilydd ac wedi rhoi hyder iddynt fynd i'r afael â phryderon a datrys problemau gyda'i gilydd. Mae staff bellach yn fwy parod i gydnabod a thrafod cryfderau a gwendidau mewn addysgu ar draws yr ysgol. Mae cydweithio ag athrawon o ysgolion eraill wedi annog yr ethos hwn o ddidwylledd a myfyrio. Erbyn hyn, mae gan athrawon fwy o hyder i holi am fethodoleg ac arbrofi â dulliau newydd, a'u haddasu, er budd disgyblion.

Mae arweinwyr yr ysgol yn amlinellu'r strategaethau canlynol sy'n asgwrn cefn dull yr ysgol o wella addysgu, yn eu barn nhw, sef:

- arsylwi gwersi'n rheolaidd
- system glir ar gyfer rheoli llinell
- defnyddio set gytûn o feini prawf i farnu addysgu
- diwrnodau dysgu proffesiynol mewnol sy'n canolbwyntio ar agweddau ar addysgu
- cyfarfodydd tîm rheolaidd yn yr ysgol
- mynychu cyrsiau sy'n canolbwyntio ar addysgeg
- athrawon yn cydweithio i ddatblygu elfennau amrywiol o addysgu
- sesiynau cymedroli rheolaidd ar y cyd
- athrawon â chyfrifoldebau penodol yn mynychu cyrsiau perthnasol ac yn rhannu dysgu â phobl eraill yn yr ysgol
- cyflogi athro rhan-amser i helpu datblygu a chyflwyno strategaethau i gynorthwyo disgyblion mwy abl thalentog a dawnus.

Yn dilyn hunanarfarniad athrawon o'u haddysgu yn erbyn meini prawf cytûn o gontinwwm cyhoeddedig, mae athrawon ac arweinwyr yn nodi meysydd i'w datblygu sy'n gyffredin ar draws yr ysgol. Er enghraifft, fe wnaethant nodi'n ddiweddar fod y ffordd yr oedd athrawon yn defnyddio amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant i gefnogi dysgu disgyblion yn anghyson. I gytuno ar ffordd gyson ymlaen, mae athrawon yn trafod y materion hyn wedyn mewn cyfarfodydd staff ffocysedig neu yn electronig. Mae athrawon yn ailedrych ar y camau gweithredu cytûn mewn cyfarfodydd pellach neu mewn sesiwn ddilynol i arsylwi gwers. Pan fydd y camau gweithredu hyn yn annigonol, mae arweinwyr yr ysgol yn aml yn cynllunio cyfres o sesiynau dysgu proffesiynol ar gyfer staff.

Mae'r ysgol yn defnyddio arsylwadau gwersi i fonitro ansawdd yr addysgu bob tymor. Mae amserlen ar waith ac mae arsylwadau'n canolbwyntio'n glir ar ddau darged cytûn bob tymor o'u hunanarfarniad ac unrhyw dargedau personol o arsylwadau blaenorol. Er enghraifft, mae'r ffocws presennol ar gynllunio ar gyfer rhifedd ac effaith adborth i ddisgyblion, a'r tymor nesaf, bydd arweinwyr yn ystyried medrau dysgu annibynnol a'r defnydd o'r awyr agored.

Yn ogystal ag arsylwadau gwersi ffurfiol, mae pob un o'r athrawon yn gweithio mewn triawdau gydag athrawon o'r un grŵp blwyddyn mewn ysgolion lleol eraill. Yn ei flwyddyn gyntaf, roedd yr arbrawf hwn yn cynnwys pob triawd yn cynllunio cyfres o wersi, yn arsylwi ei gilydd yn addysgu, yn myfyrio ar yr arfer dda a nodwyd ganddynt, ac yn rhannu adnoddau. Mae'r arbrawf yn ei ail flwyddyn bellach, ac mae'r ffocws ar ddatblygu gwersi a syniadau mewn meysydd dysgu a phrofiad o Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Nod gweithio mewn triawdau yw rhannu medrau, dysgu oddi wrth arbenigwyr a chreu partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion.

### Deilliannau

O ganlyniad i ffocws yr ysgol ar wella addysgu, ceir lefel uchel o broffesiynoldeb ymhlith staff. Mae pob un o'r athrawon yn ymgymryd ag elfennau o hunanarfarnu, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu. Maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu proffesiynol eu hunain, ac maent yn frwdfrydig ac yn barod i roi cynnig ar

syniadau a dulliau newydd, yn enwedig yn sgil gweithio mewn triawdau gyda chydweithwyr o ysgolion eraill.  Mae athrawon wedi cynyddu eu dealltwriaeth o fanteision datblygu llais y disgybl, pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, a'r angen i ymgorffori pob agwedd ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae athrawon yn teimlo mai datblygu ymglymiad disgyblion yn eu dysgu eu hunain sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar safonau dysgu a lles.  Mae cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion arfarnu eu dysgu eu hunain, cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm, ac addasu'r iaith a ddefnyddir gan ddisgyblion i siarad am eu gwaith.  Er enghraifft, mae meddwl am 'gyfleoedd i wella', yn hytrach na 'gwneud camgymeriadau', wedi arwain at annibyniaeth gynyddol a 'chytundeb' gan ddisgyblion.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Ystyried pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn perfformio mewn perthynas â'r 12 egwyddor addysgegol yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

# Ysgol Gyfun Dŵr y Felin

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gyfrwng Saesneg gymysg 11-16 yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, sydd â thua 1,150 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn denu disgyblion o Gastell-nedd a'r ardal gyfagos. Mae tua 17% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Daw tua 2% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig, ac ychydig iawn ohonynt yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a bwrsar. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012 ac mae'r ddau ddirprwy wedi bod yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth er 2009 a 2008 yn y drefn honno. Mae'r pennaeth cynorthwyol sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu wedi bod yn ei swydd er mis Mehefin 2017. Yn y gorffennol, un o'r dirprwy benaethiaid oedd yn dal y cyfrifoldeb hwn.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Nŵr y Felin yn glir fod arwyddair yr ysgol, sef 'Nid da lle gellir gwell', yn berthnasol i gymuned yr ysgol gyfan. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer darparu addysgu ac asesu. Maent yn darparu her a chymorth proffesiynol i staff i'w galluogi i fodloni'r disgwyliadau hyn.

Mae'r ysgol yn ystyried ystod eang o dystiolaeth trwy ei phrosesau hunanarfarnu. Mae hyn yn sicrhau golwg gyfannol ar ba mor effeithiol yw'r addysgu ar draws yr ysgol a'r hyn y mae angen ei wella ymhellach. Mae hyn yn llywio addysgu fel blaenoriaeth ganolog yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn deall bod gwella addysgu yn un o'u swyddogaethau craidd. Mae addysgu yn ymddangos ar agendâu'r holl gyfarfodydd tîm a rheolwyr llinell, yn ogystal â bod yn amcan rheoli perfformiad allweddol ar gyfer pob un o'r staff, sydd wedi'i bersonoli i'w rôl a'u hanghenion datblygu.

Mae grŵp rhwydwaith dysgu athrawon sefydledig yn cyfarfod bob mis. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfle i staff rannu addysgeg ac adnoddau addysgu, yn unol â ffocws tymhorol yr ysgol ar addysgeg.

Eleni, mae'r ysgol wedi dewis canolbwyntio ar bedair egwyddor addysgegol o 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015), sef:

- meddylfryd a phŵer ymdrech, sy'n cefnogi'r ffocws ar ddisgyblion mwy abl yng nghynllun datblygu'r ysgol

- dyfnhau meddwl at ddibenion beirniadol a chreadigol fel ei gilydd
- dysgu ymreolaeth a dysgu annibynnol; mae angen arweiniad ar ddisgyblion o hyd, ond mae angen iddynt ddysgu cymryd perchnogaeth o'u dysgu hefyd
- dysgu ystyrlon a dilys

Trwy'r ffocysau hyn, mae'r ysgol yn ceisio darparu gweithgareddau cyfoethogi ysgogol sy'n ychwanegu manylder ac ehangder at ddysgu.

Mae'r grŵp rhwydwaith wedi creu ac arbrofi â dulliau y mae staff bellach yn eu rhoi ar waith ar draws yr ysgol.  Er enghraifft, ar ôl canolbwyntio ar adborth, mireiniodd y grŵp nifer o'u dulliau presennol.  Bu aelodau'r grŵp yn arfarnu ac yn arbrofi ag effeithiolrwydd y newidiadau hyn cyn eu cyflwyno ar lefel ysgol gyfan.  Defnyddiodd y grŵp ddull tebyg wrth ystyried sut i fireinio a gwella holi.  Mae'r dulliau cydweithredol hyn yn cynnig cyfle i staff ymchwilio ac wedyn gymhwyso theori berthnasol i flaenoriaethau ehangach yr ysgol, fel gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl.

Mae Dŵr y Felin wedi mabwysiadu dull hyfforddi fel agwedd ar ei chynnig dysgu proffesiynol.  Mae'r ysgol yn defnyddio hyfforddi mewn dwy ffordd amlwg, sef:

1 Mae pob un o'r staff yn adolygu eu perfformiad eu hunain gan ddefnyddio technoleg ddigidol.  Mae hunanfyfyrio yn digwydd ar lefel unigol, er bod y rhan fwyaf o athrawon yn trafod agweddau ar eu haddysgu gyda chydweithiwr neu reolwr llinell.  Mae pob un o'r athrawon wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r ddeialog hon fel cyfrwng ar gyfer myfyrio.  Trwy drafod â rheolwyr perfformiad, mae staff yn gosod camau gweithredu clir iddyn nhw eu hunain er mwyn datblygu technegau a dulliau addysgegol ymhellach.

2 O ganlyniad i benodi uwch arweinydd yn ddiweddar, mae Dŵr y Felin wedi cael cyfle i ddefnyddio model hyfforddi GROW gyda phob un o'r staff.  Caiff y ddeialog broffesiynol anfygythiol hon ei chroesawu a'i hymgorffori gan lawer o staff ac mae'n dod yn gyfrwng cryf ar gyfer dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

Caiff pob un o'r staff gyfleoedd buddiol i drafod eu nodau presennol a'u hanghenion datblygiad proffesiynol gyda hyfforddwr.  Mae'r ffaith fod yr ysgol wedi neilltuo amser wedi cael ei wobrwyo gan ymrwymiad o'r newydd i ymdrech yr ysgol i barhau i wella perfformiad ar bob lefel.  Mae staff yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, a gallant elwa ar gymorth pwrpasol a phersonoledig, y mae'r ysgol yn darparu llawer ohono trwy ei harbenigedd mewnol.  Rhaid i'r holl gyfleoedd dysgu proffesiynol a nodir gan athrawon ddangos eu bod o fudd i staff eraill a disgyblion, yn ogystal â chysylltu â'r safonau addysgu proffesiynol newydd.

Un o fanteision eraill y dull hwn yw'r wybodaeth fanwl a geir trwy safbwyntiau staff am ystod o agweddau pwysig ar fywyd ysgol.  Mae hyn wedi galluogi uwch arweinwyr i dargedu gweithgareddau ysgol gyfan yn fwy manwl gywir, yn enwedig ynghylch lles.  Maent wedi gwneud y mwyaf o adnoddau allanol sydd ar gael yn rhwydd i wneud hyn, fel cyhoeddiadau Academi Cymru.

### Deilliannau

O ganlyniad i'r ffocws craff parhaus ar addysgu, mae gwelliannau sylweddol ar yr agweddau hynny y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau. Trwy ddefnyddio tystiolaeth o arsylwadau gwersi, craffu ar waith a gweithgareddau llais y disgybl, daw'r ysgol i'r casgliad, o ganlyniad i newidiadau a wnaed gan staff, fod holi bellach yn nodwedd gref mewn llawer o wersi a bod ansawdd yr adborth ysgrifenedig wedi gwella. Mae llawer o sylwadau bellach yn galluogi disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith.

Mae bron pob un o'r staff yn deall pwysigrwydd addysgu o ansawdd da ac maent yn bartneriaid yn nhaith yr ysgol i wella. Maent yn teimlo eu bod wedi eu grymuso i roi cynnig ar ddulliau newydd, gan wybod y gallant fyfyrio ar eu llwyddiannau a meysydd i'w datblygu gyda chydweithwyr trwy'r rhwydweithiau a'r cyfarfodydd amrywiol. Yn bennaf oll, mae'n amlwg fod staff yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt, ac maent yn ymgymryd â'r her i wella eu haddysgu ymhellach gyda balchder. Maent yn falch o berthyn i Ddŵr y Felin ac yn rhannu uchelgais y pennaeth ar gyfer yr ysgol a'i disgyblion.

Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu herio gan eu haddysgu ac yn croesawu hyn â brwdfrydedd. Mae disgyblion hŷn yn cydnabod y newidiadau sydd wedi digwydd dros gyfnod, a'r modd y mae addysgu bellach yn cynnig heriau a chyfleoedd newydd i anelu'n uwch. Mae llawer o ddisgyblion yn deall nad yw dysgu bob amser yn hawdd, ond maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u hannog gan bob un o'r staff.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Datblygu pedair egwyddor addysgegol bellach
- Parhau i ganolbwyntio ar ymatebion disgyblion i adborth
- Ymgorffori'r pedwar diben craidd
- Defnyddio adnoddau digidol yn yr ystafell ddosbarth

# Ysgol Gyfun Tredegar

## Cyd-destun

Ysgol gymysg 11-16 oed yn awdurdod lleol Blaenau Gwent yw Ysgol Gyfun Tredegar. Mae tua 650 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 21% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Wedi iddi ymuno â'r ysgol, nododd y pennaeth lawer o ddiffygion ar unwaith yn nealltwriaeth athrawon ac arweinwyr canol o ddata. Roedd hyn yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol i fesur perfformiad disgyblion o gymharu â'r rheiny mewn ysgolion tebyg, yn ogystal â sut i ddefnyddio data i fesur cynnydd a deilliannau disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Dros gyfnod, roedd hyn wedi atal yr ysgol rhag datblygu asesiad cywir o ba mor dda roedd disgyblion yn cyflawni, ac o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu o ganlyniad. Roedd y grŵp staff presennol wedi hen ennill ei blwyf, roedd trosiant staff yn isel ac roedd perthnasoedd ar bob lefel yn yr ysgol yn dda iawn. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oedd y diwylliant yn yr ysgol yn ddyheadol. Roedd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn aneglur ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac nid oeddent yn dwyn staff i gyfrif yn ddigon da am eu perfformiad.

Nododd rownd gyntaf yr arsylwadau gwersi a gynhaliwyd gan y pennaeth ac aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth, er bod enghreifftiau o arfer dda mewn addysgu, fod disgwyliadau o ddisgyblion yn isel ac nid oedd cynllunio athrawon yn herio disgyblion unigol yn ddigon da. Roedd cyfleoedd i athrawon rannu arfer dda ac elwa ar ddysgu proffesiynol yn gyfyngedig. Ar draws yr ysgol, canolbwyntiai athrawon ac arweinwyr yn ormodol ar y barnau oedd ynghlwm wrth arsylwadau gwersi heb roi rhyw lawer o sylw i effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion.

Roedd y pennaeth newydd, ynghyd â chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol a'r consortiwm, yn rhannu'r un farn am yr angen i godi safonau cyrhaeddiad a phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd y pennaeth yn glir ei bod yn hanfodol datblygu arweinyddiaeth addysgu a dysgu yn yr ysgol. I wneud hyn, byddai angen iddi gryfhau gallu arweinwyr canol ac uwch arweinwyr i ddeall a defnyddio data i ysgogi gwelliannau yn neilliannau disgyblion. Ar yr un pryd, byddai angen i'r ysgol sefydlu dull cyffredin o addysgu a oedd yn canolbwyntio'n fwy ar effaith yr addysgu ar ddysgu a llai ar farnau oedd ynghlwm wrth wersi ac athrawon unigol.

I ddechrau, rhoddodd y pennaeth raglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol ar waith gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio data ar

lefel ysgol gyfan a lefel disgyblion unigol fel ei gilydd. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cyd-ddealltwriaeth ymhlith staff o'r dangosyddion perfformiad pwysicaf yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a defnyddio'r rhain i fesur perfformiad cymharol yr ysgol yn erbyn ysgolion eraill tebyg.

Yn ychwanegol, nid oedd prosesau'r ysgol i arfarnu cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion unigol wedi'u datblygu'n ddigonol. Gweithiodd y pennaeth gyda staff i gryfhau systemau i olrhain a monitro perfformiad a phresenoldeb disgyblion a nodi rhaglenni ymyrraeth addas ar gyfer y disgyblion hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Sicrhaodd hyn fod pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gynnydd disgyblion, yn ogystal â pherfformiad yr ysgol yn gyffredinol. Yn ei dro, galluogodd hyn staff ar bob lefel i nodi cryfderau'r ysgol a blaenoriaethau ar gyfer gwella yn fwy cywir.

Yn gysylltiedig â hyn, rhoddodd y pennaeth ystod o fesurau ar waith i gryfhau graddau her ac atebolrwydd yn yr ysgol. Adolygodd arweinwyr ddull yr ysgol o reoli perfformiad i sicrhau bod targedau rheoli perfformiad yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan. Roedd y rhain yn cynnwys targedau heriol ond realistig ar gyfer athrawon a oedd yn canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion ac wedi'u cysylltu â lefelau cyflawniad blaenorol disgyblion. Sicrhaodd adolygiad o strwythur cyfarfodydd yr ysgol fod cyfarfodydd ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n gyson ar flaenoriaethau'r ysgol, yn ogystal â darparu cyfleoedd cynyddol i staff gyfrannu at drafodaethau a hunanarfarnu.

Wrth ategu'r datblygiadau hyn, roedd y pennaeth yn glir ei bod yn hanfodol datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn yr ysgol a allai gynorthwyo athrawon i wella a dod yn fwy cyson yn eu harfer. Gofyniad canolog i hyn oedd datblygu iaith ar y cyd i drafod addysgu a dysgu a allai hwyluso cydweithio llwyddiannus a rhannu arfer effeithiol.

Fel rhan o'r cymorth a drefnwyd i'r ysgol gan yr awdurdod lleol, ymwelodd y pennaeth ag ysgol yn Lloegr yn fuan ar ôl iddi gael ei phenodi, a gwnaeth yr ethos a'r dull o ddatblygu addysgu yn yr ysgol argraff dda arni. Ym mis Medi 2013, dechreuodd dau aelod o staff o'r ysgol hon weithio gydag arweinwyr canol o Ysgol Tredegar ar raglen bwrpasol i ddatblygu addysgu yn yr ysgol gyda ffocws ar wella cynllunio athrawon i ddangos her gynyddol, dysgu gweithredol ac effaith.

Yn 2014, penodwyd pennaeth yr ysgol bartner yn Lloegr yn ymgynghorydd her ar gyfer Her Ysgolion Cymru Tredegar. Cryfhaodd hyn y gweithio mewn partneriaeth a oedd wedi datblygu rhwng y ddwy ysgol ymhellach a galluogodd weddill y staff addysgu yn yr ysgol i gwblhau'r rhaglen addysgu a dysgu bwrpasol. Yn dilyn hyn, cofrestrodd grŵp bach o staff ar raglen athrawon rhagorol , eto wedi'i hwyluso gan staff o Loegr.

Defnyddiodd yr ysgol ran o'i chyllid Her Ysgolion Cymru i fuddsoddi mewn ystod o raglenni addysgu a hyfforddi. Mae hyn wedi galluogi staff yn yr ysgol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol sydd wedi'u cysylltu'n agos â'u cyfrifoldebau addysgu ac arwain a'u hanghenion datblygiadol.

Elfen bellach o strategaeth y pennaeth fu sicrhau bod ymagweddau cyson at arfer dysgu ac addysgu yn cael eu datblygu rhwng yr ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd partner. Yn hanesyddol, bu gan yr ysgolion berthnasoedd gweithio

cadarnhaol ar hyd yr amser ac mae hyn wedi cryfhau ymhellach yn y blynyddoedd diwethaf trwy'r ffocws ar y cyd ar strategaethau addysgu a dysgu.

Nodwedd allweddol o'r cydweithio hwn fu ymestyn cyfle i staff elwa ar gyfres o raglenni addysgu ar draws y clwstwr. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol y cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn gweithio a rhwydweithio ar y cyd ar draws sectorau. Mae'r pennaeth cynorthwyol o Ysgol Tredegar ac arweinwyr addysgu a dysgu o bob ysgol gynradd yn cyfarfod bob hanner tymor i gynllunio datblygiadau mewn addysgu a dysgu, a chynhelir cyfarfodydd addysgu rheolaidd i athrawon ar draws y clwstwr rannu arfer dda ar ôl yr ysgol.

### Deilliannau

Mewn cyfnod hynod fyr, mae dull yr ysgol o wella addysgu wedi galluogi staff i sefydlu egwyddorion addysgegol ar y cyd ac iaith gyffredin ar gyfer trafod addysgu a dysgu. Mae'r rhaglenni wedi ennyn brwdfrydedd ymhlith staff ac wedi darparu dull ysgol gyfan cyson o ran arfer ystafell ddosbarth. Fel rhan o'r rhaglenni, mae staff wedi elwa ar lawer o gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i rannu arfer dda a datblygu syniadau ac adnoddau. Mae disgyblion wedi croesawu gweithredu elfennau nad ydynt yn agored i'w trafod ar gyfer gwersi, ac maent yn hoffi'r arferion dyddiol ac arfer gyson ar draws yr ysgol. Maent yn teimlo bod hyn wedi rhoi mwy o berchnogaeth iddynt o'u dysgu gan eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn gwersi. Gyda'r pwyslais ar gynyddu atebolrwydd pob un o'r staff ar gyfer y deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion yr ysgol, mae'r dulliau hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at wella diwylliant her a dyhead yn yr ysgol.

Mae athrawon ar draws clwstwr Tredegar wedi ymateb yn frwdfrydig i fuddsoddiad yr ysgol yn ei rhaglenni addysgu. Hyd yma, mae 60 o athrawon ar draws clwstwr Tredegar wedi cymryd rhan yn y rhaglen athrawon rhagorol, mae 32 wedi cymryd rhan yn y rhaglen arweinwyr addysg rhagorol, mae 12 wedi cymryd rhan yn y rhaglen gwella athrawon, ac mae 50 cymryd rhan yn y rhaglen cynorthwywyr athrawon rhagorol. Yn ychwanegol, mae ysgolion yn y clwstwr wedi hyfforddi pump o hwyluswyr i sicrhau cynaliadwyedd.

Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol ar barhad a dilyniant effeithiol mewn dysgu. Er 2012, mae deilliannau yn yr ysgol wedi gwella'n sylweddol. Er enghraifft, mae deilliannau yn nangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi codi o 29% yn 2012 i 55% yn 2017. Fe wnaeth perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yn 2017 osod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yn seiliedig ar gymhwyster i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2017c).

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Cryfhau cyfleoedd i ddatblygu arfer ar y cyd trwy raglen arsylwadau cymheiriaid lle mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i nodi meysydd i'w datblygu a chynllunio gwersi
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer prosiectau ymchwil weithredu ar draws y clwstwr
- Datblygu pob un o'r staff yn arweinwyr dysgu trwy barhau i fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar sicrhau safonau dysgu ac addysgu uchel
- Hyrwyddo cyfleoedd i rannu arfer effeithiol yn yr ysgol, ar draws y clwstwr a thu hwnt

## Ysgol Bro Pedr

Ysgol 3-19 oed ddwyieithog yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, yw Ysgol Bro Pedr. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r adran gynradd yn dair oed. Mae disgyblion o ysgolion cynradd partner eraill yn yr awdurdod lleol a thu hwnt yn ymuno â'r adran uwchradd yn 11 oed. Mae tua 1,050 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda thua 360 o ddisgyblion yn yr adran gynradd a 151 yn y chweched dosbarth. Sefydlwyd yr ysgol trwy uno dwy ysgol flaenorol, sef Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Mae 'Canolfan y Bont', sef adnodd yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag anghenion dwys, yn rhan annatod o'r ysgol hefyd. Ceir uned arbenigol hefyd ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol dwys a disgyblion sy'n agored i niwed sydd ag anghenion ymddygiadol.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan dros 40% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ryw 5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 60% o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg. Mae dros 8% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2016. Ar yr adeg honno, roedd gan yr ysgol un dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Yn dilyn cyfnod o ailstrwythuro, mae ganddi ddau ddirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol cyfwerth ag amser llawn erbyn hyn. Mae gan bob un o'r uwch staff gyfrifoldebau penodol sy'n ymwneud â datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar yr egwyddor fod 'Pob plentyn yn cyfrif yn Ysgol Bro Pedr'.

Fel rhan o'i gwaith fel ysgol arloesi, mae'r ysgol yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ddatblygu'r 12 egwyddor addysgegol a ddyfynnir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

Y flaenoriaeth gyntaf yng nghynllun datblygu'r ysgol ar gyfer 2016-2017 oedd 'Codi safonau dysgu ac addysgu er mwyn gwella cynnydd a chyflawniad disgyblion'. Mae hyn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth yn 2017-2018.

Wrth ddechrau'r gwaith fel ysgol arloesi, nododd arweinwyr fod angen:

1 Sefydlu hinsawdd briodol i alluogi athrawon i addysgu'n llwyddiannus ac i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

2 Arfarnu effeithiolrwydd yr addysgu

3 Sicrhau cysondeb, rhannu arfer dda a datblygu addysgeg

## 1 Sefydlu hinsawdd briodol i alluogi athrawon i addysgu'n llwyddiannus ac i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu.

I ddechrau, cafodd staff drafodaeth gynhyrchiol am y prif rwystrau a oedd yn eu hatal rhag addysgu'n effeithiol a chyflwyno'r gwersi roeddent wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion. Daethant i'r casgliad mai treulio amser yn delio â mân achosion o gamymddwyn oedd y prif rwystr ar draws yr ysgol. Codwyd problemau'n ymwneud â lles disgyblion gan athrawon yn y sector cynradd hefyd.

Er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi cyfle i athrawon addysgu heb orfod delio â'r problemau ymddygiadol parhaus hyn, rhoddodd yr ysgol gamau gweithredu priodol ar waith.

Yn y sector cynradd, penderfynodd arweinwyr gael ystafell gymorth ddynodedig lle gallai disgyblion fynd os oeddent yn tarfu'n ormodol ar ddysgu. Penododd yr ysgol aelod o staff cymorth lefel 3 yn gydlynydd yr ystafell gymorth. Os bydd disgybl yn tarfu ar wersi'n ormodol mewn dosbarth cynradd, bydd aelod o staff yn mynd ag ef i'r ystafell gymorth. Bydd cydlynydd yr ystafell gymorth yn trafod y materion gyda'r disgybl dan sylw ac yn ceisio datrys ei broblemau ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon. O dan oruchwyliaeth y cydlynydd, mae'r disgyblion yn cwblhau'r tasgau y byddai wedi eu gwneud yn y dosbarth. Pan fydd angen, mae'r cydlynydd yn cysylltu â rhieni hefyd i geisio datrys unrhyw broblemau gwaelodol neu broblemau ymddygiadol a allai fod gan y disgybl.

Yn y sector uwchradd, mae'r ysgol wedi sefydlu cod ymddygiad y mae'n ei alw yn 'Hawl i Ddysgu Bro Pedr'. Mae'r cod yn amlinellu rheolau ymddygiad clir ar gyfer disgyblion ac yn eu gwneud yn gyfrifol am y dewisiadau y maent yn eu gwneud ynglŷn â'u hymddygiad eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae athrawon yn cofrestru disgyblion ar ddechrau pob gwers ac yn rhoi gradd i bob disgybl ar ddiwedd pob gwers. Mae'r graddau'n mynd o un i bedwar. Mae gradd un am waith rhagorol neu ymddygiad da tuag at ddysgu, mae gradd dau am yr ymddygiad disgwyliedig, mae gradd tri yn golygu bod yr athro wedi rhoi rhybudd ac mae gradd pedwar yn golygu bod y disgybl wedi cael ei dynnu o'r ystafell ddosbarth i gwblhau ei waith yn yr ystafell gymorth. Mae staff yn defnyddio system gofrestru electronig i gofnodi gradd pedwar ac yn cofnodi'r rhesymau pam y gwnaethant y penderfyniad i dynnu disgybl o'r ystafell ddosbarth. Mae arweinwyr yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn effeithiol i fynd i'r afael â chamymddwyn parhaus a nodi patrymau ymddygiad disgyblion.

O ganlyniad i gyflwyno'r systemau hyn, buan y dywedodd staff fod gwelliant sylweddol yn ymddygiad disgyblion a gwelliant yn eu lles personol. Roedd athrawon yn gallu addysgu trwy gydol y wers heb i rywun darfu, ac roedd cynnydd gwell gan ddisgyblion yn amlwg, nid yn unig ymhlith disgyblion a oedd wedi camymddwyn yn y gorffennol, ond ymhlith eu cyfoedion hefyd.

## 2 Arfarnu effeithiolrwydd yr addysgu

Mae arweinwyr yn gosod targedau rheoli perfformiad i athrawon ac yn seilio eu harfarniadau am effeithiolrwydd addysgu trwy farnu ansawdd safonau disgyblion. Mae gan bob athro o leiaf un targed meintiol sy'n ymwneud â deilliannau disgwyliedig

grŵp o ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol perthnasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn gyfarwydd â'r safonau proffesiynol cenedlaethol ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Mae arweinwyr yn disgwyl i athrawon ddefnyddio data disgyblion i lywio eu cynlluniau gwersi a'r adnoddau addysgu a baratowyd ganddynt. Mae hyn yn cynnwys gosod gwaith dosbarth diddorol, gwahaniaethol a heriol a thasgau gwaith cartref sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd priodol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol ychwanegol ar gyfer athrawon sy'n derbyn barn ddigonol neu'n is mewn dau arsylwad ystafell ddosbarth neu fwy.

### 3 Sicrhau cysondeb, rhannu arfer dda a datblygu addysgeg

Gan fod yr ysgol yn ysgol arloesi ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i arwain gwaith yn ymwneud â dysgu proffesiynol, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu addysgeg effeithiol yn Ysgol Bro Pedr.

Penderfynodd arweinwyr ddefnyddio triawdau proffesiynol i ddatblygu'r 12 egwyddor addysgegol a ddyfynnir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Mae'r ysgol yn credu bod y triawdau yn ffordd effeithiol o arsylwi arfer dda, rhannu syniadau, magu hyder a chynorthwyo staff. Mae triawdau proffesiynol yn cynnwys tri athro yn gweithio gyda'i gilydd dros gyfnod i gynllunio, rhoi cynnig ar syniadau newydd, arsylwi, addysgu ac arfarnu arfer ei gilydd.

#### Cylch cynllunio triawdau proffesiynol

**Cyfarfod 1**: Mae'r tri athro yn cynllunio ar y cyd, ac mae un o'r tri ohonynt yn addysgu'r wers, tra bod y ddau athro arall yn arsylwi. Wedyn, maent yn llenwi taflen arsylwi gwers.

**Cyfarfod 2**: Mae'r athrawon yn rhoi adborth ar eu harsylwadau o'r wers gyntaf ac wedyn yn cyd-gynllunio'r wers nesaf. Mae'r ail athro o'r triawd yn addysgu a'r ddau athro arall yn arsylwi. Wedyn, maent yn llenwi taflen arsylwi gwers.

**Cyfarfod 3**: Mae'r athrawon yn rhoi adborth ar eu harsylwadau o'r ail wers ac wedyn yn cyd-gynllunio'r wers nesaf. Mae'r athro olaf o'r triawd yn addysgu a'r ddau athro arall yn arsylwi. Wedyn, maent yn llenwi taflen arsylwi gwers.

**Cyfarfod 4**: Mae'r athrawon yn rhoi adborth ar eu harsylwadau o'r drydedd wers ac yn llenwi ffurflen adborth ar y cyd y maent yn ei chyflwyno i'r tîm arweinyddiaeth.

Mae'r adborth gan athrawon yn rhoi trosolwg strategol i uwch arweinwyr o ba mor dda y mae'r system driawdau yn gweithio ac mae'n eu helpu i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o addasu'r system wrth iddi gael ei hymgorffori ar draws yr ysgol.

Mae'r triawdau wedi eu trefnu yn y ffyrdd canlynol:

- tri athro sydd â'r un lefel o gyfrifoldeb
- athrawon amhrofiadol yn gweithio gydag athrawon profiadol
- triawdau ar draws pynciau

Yn y cylch cyntaf, canolbwyntiodd y triawdau ar un o'r egwyddorion addysgegol canlynol:

- meddylfryd a grym ymdrech
- asesu ar gyfer dysgu
- diben cyffredinol

Eleni, mae pob un o'r triawdau yn canolbwyntio ar egwyddor addysgu cyfunol. Mae'r ysgol wedi penderfynu defnyddio'r agwedd hon i wella medrau athrawon er mwyn eu helpu i ddatblygu cymhwysedd digidol ar draws yr ysgol.

Mae rhai o'r triawdau, ac athrawon unigol, yn cofnodi eu gwersi gan ddefnyddio offer fideo i'w galluogi i arfarnu eu hunain a'u cymheiriaid. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

I sicrhau cysondeb a gwella addysgu ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn dilyn polisïau cytûn yr ysgol ar arfer ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cod marcio cyffredin, athrawon yn trafod gwaith disgyblion gyda nhw yn hytrach na rhoi adborth ysgrifenedig iddynt yn unig, ac athrawon yn rhoi mwy o ystyriaeth i lais y disgybl mewn gwersi i sicrhau lefel well o her i bawb.

I gynorthwyo athrawon i ddarparu her briodol i bob disgybl, mae'r ysgol wedi creu llawlyfr staff ar wahaniaethu. Mae'r llawlyfr yn cadarnhau pwysigrwydd creu gwersi sy'n mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl i sicrhau dysgu effeithiol ym mhob dosbarth. Mae'n rhoi esboniad clir i athrawon am yr hyn y mae'r ysgol yn ei olygu wrth y term gwahaniaethu ac mae'n darparu syniadau, strategaethau ac enghreifftiau defnyddiol iddynt eu defnyddio yn eu gwersi. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar y canlynol:

- cyflwyno, arddangos a thrafod geiriau allweddol
- modelu sgyrsiau
- cynlluniau eistedd
- rhoi enghreifftiau o atebion
- dangos enghreifftiau o waith da
- gwahaniaethu yn ôl canlyniad
- tasgau estynedig
- sicrhau cyflymdra priodol i wersi
- gwaith grŵp
- rhoi amser i feddwl
- holi medrus
- defnyddio fframiau ysgrifennu

Mae athrawon, gan gynnwys staff cyflenwi, yn gwerthfawrogi'r llawlyfr. Maent yn meddwl ei fod yn adnodd gwerthfawr, sy'n eu helpu i wella ansawdd eu haddysgu ac yn codi safonau dysgu disgyblion.

I sicrhau bod arferion yn y sector cynradd ac uwchradd mor gyson ag y bo modd, mae'r ysgol yn datblygu elfen thematig yr addysgu a ddefnyddir gan y sector cynradd yn rheolaidd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 mewn pynciau fel hanes, daearyddiaeth

a TGCh.  Mae hyn yn hwyluso’r cyfnod pontio ar gyfer disgyblion ac yn paratoi staff a disgyblion yn effeithiol i fodloni gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

### Deilliannau

Un o’r prif ddeilliannau yw’r gwelliant yn ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau.  Mae disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hymddygiad, yn canolbwyntio’n well ac yn dangos ymrwymiad gwell i ddysgu.  Yn annisgwyl, mae hunanhyder llawer o ddisgyblion a oedd wedi camymddwyn yn hanesyddol wedi cynyddu, ac maent yn dechrau sylweddoli y gallant lwyddo mewn tasgau.  O ganlyniad, mae ganddynt ddyheadau uwch ar gyfer eu dyfodol.  Mae athrawon wedi adrodd am safonau cyflawniad gwell, nid yn unig ar gyfer disgyblion sydd wedi camymddwyn yn y gorffennol, ond hefyd ar gyfer y disgyblion eraill yn eu dosbarthiadau.  Bu cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion yn y mwyafrif o ddangosyddion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae lles staff wedi gwella.  Mae athrawon yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gallu canolbwyntio ar addysgu trwy gydol eu gwersi, yn hytrach na gwastraffu amser yn delio â chamymddwyn a thanberfformio.

Mae athrawon yn gweld gwerth gweithio mewn triawdau ac yn teimlo bod arweinwyr yn eu cynorthwyo’n barhaus i wella eu harfer addysgu.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o safon yr addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, ac maent yn cydnabod bod cysondeb ac arfer well mewn addysgu erbyn hyn.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Sicrhau bod systemau i wella addysgu a dysgu yn cael eu hymgorffori
- Gwella gallu athrawon ymhellach i asesu ansawdd eu harfer eu hunain, ac arfer eu cymheiriaid
- Sicrhau bod athrawon yn gwybod pa agweddau ar ddysgu disgyblion y mae angen eu gwella i’w galluogi i gyrraedd eu potensial

# Astudiaethau achos o ysgolion sydd wedi cynnal rhagoriaeth yn eu haddysgu

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg ym mhentref Llanfair Llythynwg ym Mhowys. Mae ychydig dros 40 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth oedran cymysg. Ers yr arolygiad diwethaf, yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, nid yw'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion oedran meithrin mwyach.

Mae pob un o'r disgyblion yn wyn Prydeinig ac nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol nac yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Ers yr arolygiad yn 2009, nid oes unrhyw newidiadau wedi bod i staff addysgu. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2001. Mae'r pennaeth yn cael 1.6 diwrnod bob pythefnos i gyflawni ei chyfrifoldebau arwain ac mae'n addysgu'r dosbarth cyfnod allweddol 2 am weddill yr amser.

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae pob un o'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni yn credu yn egwyddor arweiniol yr ysgol, sef y dylai disgyblion fod wrth wraidd y broses addysgu a dysgu ac y dylai disgyblion berchnogi eu hysgol a phopeth sy'n digwydd ynddi. Mae hyn yn ganolog i ethos, gweledigaeth ac arfer ddyddiol yr ysgol ac yn golygu bod disgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus yn gyson ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Un o'r prif sbardunau ar gyfer dull yr ysgol o ddatblygu'r cwricwlwm ac addysgeg oedd cyhoeddi'r fframwaith sgiliau anstatudol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a). Fe wnaeth y ddogfen hon, ynghyd ag arweiniad ychwanegol ar ffurf 'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu – Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b), symbylu'r ysgol i fabwysiadu cwricwlwm newydd ac addasu'r ffordd yr oedd athrawon yn hwyluso dysgu. Mae'r ddogfen yn ailadrodd nodau'r cwricwlwm fel a ganlyn:

- canolbwyntio ar y dysgwr
- sicrhau bod datblygu medrau priodol yn cael ei weu trwy'r cwricwlwm
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed
- cynnig llai o gynnwys pwnc gyda ffocws cynyddol ar fedrau

Hwn oedd y man cychwyn ar gyfer gofyn i ddisgyblion beth hoffent ei ddysgu, a sut. Er 2008, mae addysgeg a chwricwlwm yr ysgol wedi datblygu, ond mae llais y disgybl, parch i bawb, annibyniaeth a chreadigrwydd yn parhau'n ganolog. Mae llawer o arferion addysgu presennol yr ysgol yn enghreifftio'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn dda.

Mae'r ddwy athrawes yn yr ysgol yn hynod lwyddiannus o ran annog disgyblion i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Maent yn gofyn cwestiynau i ddisgyblion, fel

- beth ddylem ni ei wneud nesaf, yn eich barn chi?
- beth yw'r ffordd orau y gall yr oedolion neu'ch cyfoedion eich helpu chi?
- sut gallwch chi helpu'ch hun i wella?

Nid digwyddiadau unigol yw cwestiynau fel hyn ond maent yn digwydd yn rheolaidd ac yn helpu disgyblion i gael rheolaeth dros eu dysgu eu hunain. Mae sylwadau gan ddisgybl sydd wedi ymuno â'r ysgol yn ddiweddar yn crynhoi dull yr athrawon. Dywed am ei ysgol flaenorol: 'Roedd rhywun bob amser yn dweud wrtha' i beth i'w wneud; doedd neb byth yn gofyn beth roeddwn i eisiau'. Yn ystod sgwrs am ddysgu gyda'i athrawes am yr hyn yr oedd eisiau ei gyflawni, fe wnaethant edrych gyda'i gilydd ar y gwaith yn ei lyfrau o'r ysgol flaenorol a daeth i sylweddoli nad oedd ei waith, cyn dechrau yn Llanfair Llythynwg, wedi ei herio. Yr hyn sy'n ddiddorol yw ei sylw na fyddai wedi gwybod na hyd yn oed wedi meddwl am herio'i hun cyn ymuno â'r ysgol. Mae herio'ch hun, eich gilydd a gofyn pan na fyddwch yn gwybod rhywbeth yn themâu cyffredin a chyson mewn sgyrsiau rhwng pawb dan sylw yn yr ysgol. Mae athrawon yn modelu sgyrsiau am ddysgu gyda'i gilydd a disgyblion. Mae eu hadborth rheolaidd a chraff yn helpu disgyblion i wella eu dysgu ac yn eu hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu deilliannau eu hunain.

Nodwedd lwyddiannus arall ar yr addysgu yn yr ysgol yw lefel uchel yr ymddiriedaeth rhwng staff a disgyblion. Mae athrawon yn modelu addysgu effeithiol ac yn siarad yn eglur â'r dosbarth am yr hyn sy'n gwneud addysgu effeithiol, fel holi da, disgwyliadau uchel, gwerthfawrogi pob ymateb a chynllunio gwaith sy'n briodol heriol. Maent yn annog disgyblion, yn enwedig y rheiny yn nosbarth cyfnod allweddol 2, i gynllunio eu gwersi eu hunain ac addysgu gweddill y dosbarth. Mae disgyblion hŷn yn cefnogi dysgu disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn rheolaidd hefyd. Mae'r arfer hon wedi tyfu dros gyfnod ac mae disgyblion bellach yn hyderus iawn yn cyflwyno gwersi i'w cyfoedion. Yn nhymor yr haf 2017, rhannodd disgyblion cyfnod allweddol 2 yn grwpiau gyda phob grŵp yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno gwerth wythnos o wersi ar destun o'u dewis. Siaradodd yr athrawes â disgyblion am yr hyn y dylai'r cynllun ei gynnwys o ran datblygu medrau a gwybod beth roeddent eisiau i'w cyfoedion ei ddysgu. Rhoddodd amser cynllunio i'r disgyblion. Roedd cynllunio'r disgyblion yn cynnwys meini prawf llwyddiant, cysylltiadau â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, ac yn aml, tasgau ar wahanol lefelau. Pan fydd disgyblion yn addysgu, mae'r athrawes yn arsylwi'n ofalus, yn cyfeirio'r athrawon sy'n ddisgyblion at y rheiny sydd angen cymorth ychwanegol ac yn modelu cwestiynau y gallai disgyblion ddymuno eu gofyn i unigolion a grwpiau. Eto, mae hon yn broses ddwy ffordd gyda disgyblion hefyd yn awgrymu ffyrdd y gallai athrawon wella eu harfer. Bob tymor, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn arsylwi'r addysgu'n ffurfiol ym mhob dosbarth. Maent yn llenwi ffurflen sy'n dangos eu meddyliau ar yr hyn y maent wedi'i weld ac yn gosod targedau perthnasol ar gyfer yr athrawon.

I wneud yn siŵr eu bod yn cadw mewn cysylltiad â'r dysgu a'r addysgeg yn y dosbarth arall, mae athrawon yn newid dosbarthiadau am sesiwn bob wythnos. Maent yn arsylwi ei gilydd yn ffurfiol bob tymor ac yn defnyddio ffurflen y consortiwm rhanbarthol i arfarnu ansawdd y dysgu a safon yr addysgu. Fodd bynnag, mae'r pennaeth yn ystyried symud oddi wrth yr arfer hon gan ei bod yn teimlo nad yw'n ychwanegu rhyw lawer o werth ac nid yw'n dweud unrhyw beth wrthi hi nad yw hi neu'r athrawes arall eisoes yn ei wybod. Mae'n ymchwilio i wahanol fodelau cyn gwneud unrhyw newidiadau. Mae athrawon, disgyblion a llywodraethwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth a safon y gwaith mewn llyfrau yn rheolaidd. Defnyddiant y deilliannau o'r gweithgareddau hyn yn eithriadol o dda i lywio blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae athrawon a disgyblion yn llunio cynlluniau gweithredu manwl, sy'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau ac addysgu. Er enghraifft, mae'r ysgol bellach yn blaenoriaethu elfen 'mentro'n bwyllog' Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) gan fod disgyblion wedi nodi bod hwn yn faes y mae angen iddynt ei wella.

Mae'r pennaeth yn ymwybodol iawn, fel ysgol fach mewn lleoliad gwledig, fod angen iddi fod yn rhagweithiol wrth sefydlu perthnasoedd proffesiynol gyda darparwyr eraill. Mae'n sgwrsio â phennaeth yr ysgol arloesi leol bob wythnos i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ym maes ehangach addysg. Mae'n darllen yn helaeth hefyd i ddilyn hynt a helynt ymchwil a datblygiadau cwricwlaidd newydd. Mae'r pennaeth yn rhannu'r wybodaeth hon gyda staff eraill yn yr ysgol. Mae athrawes y cyfnod sylfaen yn mynd ati i chwilio am wybodaeth ac yn defnyddio fforymau ar-lein i ddysgu am yr arfer mewn ysgolion eraill a rhannu syniadau. Mae'r ddwy athrawes yn awyddus iawn i gydnabod eu bod yn gyfrifol am eu dysgu proffesiynol eu hunain ac yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifrif.

## Deilliannau

O ganlyniad i'r lefelau eithriadol o dda o barch yn yr ysgol a phenderfyniad athrawon i hwyluso dysgu trwy eu harferion addysgu, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da iawn o ran dangos enghreifftiau o lawer o'r egwyddorion addysgegol sy'n ategu'r cwricwlwm newydd.

Mae athrawon:

- yn cynnal ffocws cyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
- yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- yn annog cydweithio
- yn herio pob un o'r disgyblion trwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech gynaledig wrth fodloni disgwyliadau sy'n uchel ond y mae modd iddynt eu cyflawni
- yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol
- yn gosod tasgau ac yn dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- yn creu cyd-destunau go iawn ar gyfer dysgu
- yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

- yn atgyfnerthu cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn rheolaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion eu hymarfer

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

- Gweithio gydag ysgol leol arall i rannu arfer gan ddefnyddio technoleg fideo
- Cymryd rhan mewn prosiect ymchwil weithredu ynglŷn â chymryd risgiau corfforol pwyllog
- Ystyried ymhellach pa mor dda y mae'r ysgol yn cymharu fel sefydliad sy'n dysgu

# Ysgol Gynradd Herbert Thompson

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn gwasanaethu ardal Llanfihangel-ar-Elái yng Nghaerdydd.  Mae 524 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 70 yn y dosbarth meithrin.  Gall disgyblion ymuno â'r dosbarth meithrin yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.  Mae llawer o ddisgyblion o gefndir gwyn ethnig, mae'r gweddill o grwpiau ethnig cymysg.  Mae tua 7% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Mae tua hanner y disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 38% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae 14 o athrawon amser llawn a naw o athrawon rhan-amser yn yr ysgol ar hyn o bryd.  Penodwyd y pennaeth yn 2016 ar ôl bod yn ddirprwy bennaeth yr ysgol am dair blynedd cyn hynny.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Nid yw'r pennaeth a'r uwch dîm yn cymryd y barnau rhagorol yn ganiataol nac yn diystyru'r cynllunio a'r penderfyniad sydd eu hangen i gynnal perfformiad uchel yr ysgol.  Mae'r ysgol yn gweld datblygu arfer ac addysgeg yn flaenoriaeth wella barhaus sydd â cyd-ddealltwriaeth o beth sy'n gwneud addysgu da a rhagorol yn Herbert Thompson yn ganolog iddi.  Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da sy'n gysylltiedig ag arfer ystafell ddosbarth ac yn cael eu cefnogi gan ddysgu effeithiol, yn meithrin gallu pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr cymorth dysgu i 'anelu am ragoriaeth' yn eu haddysgu.  Mae gan bob un o'r staff dargedau rheoli perfformiad heriol ac maent wedi cael cymorth buddiol i helpu cyflawni eu targedau.  Mae'r uwch dîm yn mynd ati i geisio sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu trwy gymryd camau i wella lles ar draws yr ysgol.  Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael digon o amser i gwblhau eu tasgau a bod cyfarfodydd yn canolbwyntio'n graff ar faterion craidd.  Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddiolch i gydweithwyr a dathlu gwaith a bywyd yr ysgol.  Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn falch a hapus i berthyn i gymuned yr ysgol.

Trwy ei hwb gwella, mae Herbert Thompson wedi cyflwyno amrywiaeth o raglenni datblygu ar gyfer ysgolion ar draws Consortiwm Canolbarth y De, gan gynnwys un sydd wedi'i chynllunio i wella medrau athrawon sydd eisoes yn perfformio'n dda.  Mae'r ysgol wedi galluogi llawer o'i hathrawon ei hun i ddilyn y rhaglen hon.  Mae'r uwch dîm yn glir fod angen mynd i'r afael â'r medrau a ddatblygwyd, ac ychwanegu atynt, ni waeth pa mor dda yw'r cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn.  Felly, maent yn gwneud ymrwymiad y gall athrawon wella, a myfyrio ar agweddau ffocysedig ar eu haddysgeg dros gyfnod.  I hwyluso hyn, maent yn buddsoddi amser ac adnoddau i ryddhau athrawon i gynnal arsylwadau cymheiriaid a defnyddio'r medrau hyfforddi a ddatblygwyd yn ystod amser dysgu proffesiynol.  Mae hyn yn galluogi athrawon i

rannu syniadau, arfer ac adnoddau, a dechrau archwilio'r egwyddorion addysgegol a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

Mae'r camau gweithredu hyn yn pwysleisio'r pwynt fod gwella addysgu yn ganolog i wella'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd pellach i hwyluso trafodaethau am addysgeg i gynnal yr arfer sy'n gwella. Ochr yn ochr â'r rhaglenni sefydledig ar gyfer athrawon cychwynnol ac athrawon newydd gymhwyso a'r addysgeg a'r gwaith hyfforddi, mae'r ysgol bellach yn cryfhau ei gweithgarwch ymchwil weithredu i fod yn ychwanegiad hylaw ac ystyrlon at y dysgu proffesiynol sy'n digwydd.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn yr ysgol yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol cryf. Trwy adolygiadau dysgu byr, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn myfyrio ar ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae'r adolygiadau hyn yn rhoi amser i staff cymorth fyfyrio ar ba mor dda y maent yn cyflwyno agweddau ar eu gwaith, beth mae angen ei wella o hyd a sut gall yr ysgol eu cynorthwyo. Mae staff cymorth wedi arwain sesiynau dysgu proffesiynol gydag ysgolion ar draws y consortiwm hefyd ar rai o'r rhaglenni a ddatblygwyd gan yr ysgol. Mae hyn wedi gwella eu hyder a'u medrau.

## Deilliannau

O ganlyniad i'r camau gweithredu hyn, mae addysgu yn Herbert Thompson yn parhau i fod yn gryf iawn ac mae'r ysgol wedi cynnal ei harferion rhagorol. Mae'r ysgol yn defnyddio tystiolaeth o ddeilliannau disgyblion, arsylwadau gwersi a sesiynau galw i mewn, craffu ar waith a gwrando ar ddysgwyr i lunio'r farn hon. Mae pob un o'r disgyblion yn parhau i wneud cynnydd cryf iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan gynnwys grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni.

Efallai mai'r gwahaniaeth mwyaf y mae'r ffocws ar addysgu wedi'i wneud yw bod arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu i gyd yn rhannu pa mor eithriadol o falch a hapus ydynt o berthyn i gymuned yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo yn ogystal â'u herio i fod y gorau y gallant. Maent yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at gyfoethogi'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Mae arweinwyr a phob un o'r staff yn cyflawni gweledigaeth yr ysgol, ac yn dangos y gwerthoedd a'r ymddygiadau cadarnhaol a amlinellir ar gyfer pob aelod o gymuned Herbert Thompson.

## Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Trwy ei phrosesau hunanarfarnu trylwyr, mae'r ysgol wedi penderfynu canolbwyntio ar ddwy o'r egwyddorion addysgegol eleni. Mae staff bellach yn cysylltu eu targedau rheoli perfformiad â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu a dysgu, ac yn benodol â dimensiwn addysgeg datblygu dysgu. Gall athrawon ddewis o blith profiadau dysgu cyfunol neu gyd-destunau go iawn a dilys. Fel rhan o reoli perfformiad, mae gan uwch arweinwyr darged monitro ac arfarnu effaith o'r safonau arwain newydd y maent yn eu cysylltu â gwella addysgeg.

# Ysgol Gynradd Parcyrhun

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Parcyrhun ar gyrion tref Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae tua 210 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan yr ysgol ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg, a defnyddir y ddwy iaith ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae canolfan adnoddau i blant â nam ar eu clyw, sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, yn rhan ychwanegol o'r ysgol. Mae'r ysgol wedi'i rhannu'n wyth dosbarth oedran cymysg yn y brif ffrwd, ac un ystafell ddosbarth ychwanegol yn y ganolfan adnoddau i blant â nam ar eu clyw. Mae'r ysgol yn cyflogi deg o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth, a dau athro rhan-amser.

Mae ychydig dros 20% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 50% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith neu gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Ni fu unrhyw newidiadau nodedig yn staff yr ysgol ers yr arolygiad. Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2009, yn dilyn cyfnod byr fel dirprwy bennaeth yr ysgol.

## Strategaeth a chamau gweithredu

O'r cychwyn, roedd gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau bod disgyblion yn Ysgol Parcyrhun yn cael addysg o'r safon uchaf i'w galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Pan ddechreuodd weithio yno, sylweddolodd pa mor hanfodol yw rôl yr ysgol o ran darparu profiadau eang a chyfoethog ar gyfer ei disgyblion.

Yn fuan ar ôl dechrau ar ei swydd fel pennaeth, penododd y dirprwy bennaeth, sy'n rhannu ei gweledigaeth ac yn gweithio'n effeithiol gyda hi. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi cynlluniau monitro, hunanarfarnu a chynlluniau strategol ar waith i'w galluogi i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. O ganlyniad, penderfynwyd bod angen codi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gallai disgyblion ei gyflawni, roedd angen sefydlu gweithdrefnau atebolrwydd ac roedd angen i arfer orau mewn addysgu fod yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar sicrhau cysondeb mewn arfer addysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Sefydlodd arweinwyr egwyddorion sylfaenol yn gynnar i sicrhau bod yr addysgu yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys darparu cyfleoedd a chymorth dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff, a sicrhau bod ganddynt adnoddau priodol i gyflawni eu rolau'n llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau ar gyfer monitro a rheoli perfformiad staff bellach yn rhan annatod o waith yr ysgol, ac yn ffordd o gydnabod arfer dda a nodi anghenion datblygu pob unigolyn. Mae arweinwyr yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol penodol i fynd i'r afael ag anghenion datblygu pob aelod o staff. Maent yn arfarnu dysgu proffesiynol yn fanwl ac yn nodi ei effaith yn glir. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn amrywio yn ôl angen unigol ac yn cynnwys gweithgareddau fel

mynychu cyrsiau allanol, rhannu arfer dda o fewn ac ar draws yr ysgol ac ysgolion eraill, neu weithio gydag aelod arall o staff sydd ag arbenigedd penodol.

Mae ffocws clir ar ddisgwyliadau uchel a darpariaeth gyson ar draws yr ysgol, yn enwedig rhwng y ddwy ffrwd. Er mwyn sicrhau hyn a lleihau'r baich gwaith, mae athrawon yn aml yn gweithio mewn parau i gynllunio gwersi, cynhyrchu adnoddau a chymedroli asesiadau. Mae hyn yn gyfle da iddynt rannu eu harbenigedd, a chynorthwyo a herio syniadau ei gilydd.

Un o weithdrefnau mwyaf effeithiol yr ysgol i sicrhau cysondeb a safonau uchel o ran addysgu yw'r wythnos fonitro y mae'n ei chynnal bob tymor. Rhoddir proffil uchel i'r wythnos fonitro yng nghalendr tymhorol yr ysgol ac mae'n fforwm i alluogi arweinwyr ar bob lefel i arfarnu addysgu a dysgu a rhannu arfer dda. Mae arweinwyr, trwy ymgynghori ag athrawon, yn cytuno ar ffocws penodol ar gyfer yr wythnos, er enghraifft rhifedd, llythrennedd neu ddysgu annibynnol. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd defnyddiol i aelodau staff ymweld â dosbarthiadau ei gilydd i arsylwi arfer a chraffu ar waith disgyblion. Yn ystod yr wythnos, maent yn gwahodd llywodraethwyr sydd â chysylltiad penodol â maes penodol i gymryd rhan mewn teithiau dysgu. Mae hyn yn cyfoethogi ymwybyddiaeth llywodraethwyr o waith yr ysgol ac yn galluogi iddynt weithredu'n well yn eu rôl strategol.

O ganlyniad i'r cydweithrediad rheolaidd a llwyddiannus rhwng staff, maent bellach yn agored iawn â'i gilydd, yn onest â'u barnau ac yn fodlon cynorthwyo'i gilydd i wella er mwyn darparu'r addysg orau posibl ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn ystyried syniadau staff wrth gyflwyno strategaethau newydd, sy'n annog perchnogaeth a brwdfrydedd.

Er mwyn cyfoethogi hyn ymhellach, mae arweinwyr wedi dechrau'r arfer o ymgysylltu â disgyblion trwy holiaduron. Er enghraifft, mae cwestiynau arolwg yn gofyn pa fath o ddysgwyr ydynt yn eu barn nhw, pa strategaethau sillafu sy'n gweithio orau iddyn nhw a sut maent yn hoffi dysgu medrau cyfrifiadurol newydd.

Mae arferion athrawon bellach yn effeithiol ac yn seiliedig ar nifer o egwyddorion addysgol sy'n ymwneud â'r pedwar diben a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Maent yn rhoi ffocws clir ar wella medrau llythrennedd disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg, medrau rhifedd a medrau TGCh, ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt gymhwyso'r medrau yn naturiol ar draws y cwricwlwm. Mae gwersi'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion ac yn hyrwyddo eu medrau meddwl, eu hannibyniaeth a'u medrau cydweithredu yn dda.

Nid sicrhau addysgu da yw'r nod ynddo'i hun mwyach; mae bellach yn ymwneud yn fwy â rhannu a chynnal rhagoriaeth.

## Deilliannau

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol.

Mae pob un o athrawon yr ysgol yn ymroddedig a hyderus yn eu gwaith. Maent yn agored a gonest â'i gilydd ac yn ffrindiau beirniadol effeithiol. Mae ganddynt

ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a disgyblion, ac yn fodlon rhoi cynnig ar syniadau newydd. Mae athrawon wedi ymgorffori egwyddor cysondeb ar draws yr ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael y ddarpariaeth orau posibl.

Mae safonau dysgu disgyblion wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion bellach yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn trafod cysyniadau cymhleth yn hyderus. Maent yn mynegi eu barn yn huawdl ac yn gwerthfawrogi'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud drostynt.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Gan ddefnyddio'i chynlluniau thematig presennol, bydd yr ysgol yn adeiladu ar yr arfer ragorol sy'n bodoli er mwyn datblygu pob un o 12 egwyddor addysgegol Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

## Ysgol Gyfun Pontarddulais

### Cyd-destun

Ysgol gymysg 11-16 oed yw Ysgol Gyfun Pontarddulais a gynhelir gan awdurdod lleol Abertawe. Mae tua 800 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn cynnal uned sy'n cynorthwyo disgyblion cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o Bontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Mae tua 15% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 29% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ryw 3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol dros dro.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro ei staffio yn ddiweddar i gyd-fynd â phedwar diben craidd Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

### Strategaeth a chamau gweithredu

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod staff yn arwain ar fentrau gwella'r ysgol a bod athrawon yn arwain, datblygu a mireinio arferion addysgegol yr ysgol. Mae hyn wedi sicrhau bod hinsawdd ddysgu gadarnhaol ar draws yr ysgol. Caiff staff Pontarddulais eu cynnwys yn llawn mewn ffurfio a gweithredu cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm yn cynnal diwrnod cynllunio datblygiad yr ysgol ar ddydd Sadwrn mewn lleoliad allanol yn y ddinas, sydd, ynghyd â chylch hunanarfarnu trylwyr yr ysgol, yn helpu ffurfio blaenoriaethau allweddol. Mae llawer o staff yn mynychu'r digwyddiad gwirfoddol hwn ac mae hyn wedi helpu parhau i feithrin ymagwedd gyfunol a chynhwysol at wella'r ysgol. Mae pob un o'r staff yn aelodau o weithgorau sy'n arwain ar y blaenoriaethau allweddol hyn ac felly maent yn eiriolwyr ar gyfer mentrau ysgol gyfan.

Er mwyn codi disgwyliadau yn eu hadrannau, mae arweinwyr canol yn gosod targedau uchelgeisiol gan ddefnyddio data gwerth ychwanegol. Maent yn defnyddio dull fforensig i fonitro cynnydd disgyblion trwy gylch olrhain naw wythnos sy'n seiliedig ar asesu wedi'i amserlennu'n ystyriol ar draws pynciau. Mae hyn yn arwain at wiriad cynnydd ystyrlon ar gyfer pob disgybl. Mae gan ddisgyblion berchnogaeth o'u dysgu a'u cynnydd trwy'r system hon ac maent yn myfyrio o ddifrif ar eu dysgu a'u cynnydd. Mae'r ysgol yn rhannu'r gwaith hwn yn effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn creu perthynas gefnogol ar y ddwy ochr sy'n canolbwyntio ar wella safonau. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fuddiol i lywio eu cynllunio ac ymyrryd yn gynnar pan fydd disgyblion mewn perygl o dangyflawni. Pan fo'n briodol, mae'r ysgol yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth hynod effeithiol yn y ddau

gyfnod allweddol i gynorthwyo disgyblion sydd â medrau gwannach. Mae'r rhaglenni hyn yn magu hyder ymhlith disgyblion ar draws y cwricwlwm ac maent yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Dros gyfnod, mae'r pennaeth wedi sefydlu a chynnal hinsawdd ddysgu gadarnhaol lle mae athrawon yn arwain ac ymgorffori newid ac arloesedd. Ceir diwylliant o rannu arfer dda a rhagorol a dull hunanarfarnol agored a thryloyw ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae dull yr ysgol gyfan o gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi sicrhau bod datblygu medrau yn rhan annatod a sylfaenol o becyn canllawiau addysgegol pob athro. Trwy weithio gyda'i gilydd, arweiniodd athrawon ar sut i ymgorffori medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn wedi arwain at lefelau uchel iawn o gysondeb mewn dulliau darllen ac ysgrifennu a lefelau uchel o hyder disgyblion wrth ddarllen testunau cymhleth ac wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion.

Mae athrawon wedi rhoi newidiadau effeithiol iawn ar waith hefyd yn null yr ysgol o farcio a rhoi adborth. Ymgymerodd gweithgor o athrawon â phrosiect ymchwil weithredu i geisio gwella dull cyson o farcio diagnostig ac atebion disgyblion. Roedd y grŵp hwn yn awyddus i sicrhau cyfatebiaeth rhwng ethos yr ysgol a'i diwylliant o feddylfryd twf fel rhan o'r gwaith hwn ar asesu. O ganlyniad, fe wnaethant ddiwygio polisi marcio'r ysgol ac egluro dull yr ysgol o farcio nodweddion technegol gwaith disgyblion. Yn bwysicaf oll, dechreuodd y grŵp dan arweiniad athro ddull cyson o roi cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth gan athro yn dilyn tasgau asesu allweddol trwy gyflwyno amser 'STAR' dynodedig (aros (stop), meddwl (think), gweithredu (act) a myfyrio (reflect)). O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth bwrpasol o'u dysgu ac wedi eu helpu nid yn unig i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella ond mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd rheolaidd ac amserol iddynt wneud hynny.

## Deilliannau

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cyfoethog o gymorth, her a chydweithio. Mae arweinyddiaeth gref ar bob lefel wedi galluogi i'r ffocws ar ddysgu ac addysgu ffynnu. Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu ethos o ragoriaeth ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bawb yng nghymuned yr ysgol, ynghyd ag ymddiriedaeth gynhenid yn eu staff. Mae gan yr ysgol systemau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu ac ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol ac fe gaiff hyn ei gyfateb â datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu haenog sydd wedi'i gynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer pob un o'r staff. Mae cyfuno'r diwylliant a gafodd ei greu a'i feithrin gan y pennaeth a'i thîm, a'u hymddiriedaeth mewn darpar arweinwyr i arwain a rheoli datblygiadau ysgol gyfan, wedi sicrhau deilliannau rhagorol ac ymagweddau arloesol at addysgeg dros gyfnod.

O ganlyniad i'r diwylliant a'r dull hwn, mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Pontarddulais yn deall ac yn ymfalchïo yn ethos yr ysgol a'i disgwyliadau o addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau. Gall disgyblion ddisgrifio'n hyderus ffocws yr ysgol ar safonau a'r perthnasoedd gweithio rhagorol rhwng athrawon a disgyblion, sy'n golygu bod disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u hadnabod fel unigolion. Mae gan ddisgyblion lefelau uchel o ymgysylltiad a chymhelliant yn eu dysgu. Maent yn

dangos medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd cryf ar draws y cwricwlwm, ac mae’r safonau cyffredinol a gyflawnir gan ddisgyblion ymhell uwchlaw disgwyliadau wedi’u modelu.

### Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Mae’r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod arweinyddiaeth yn parhau i ganolbwyntio ar addysgu, dysgu ac asesu, a thrwy ei rôl arloesi, bydd yr ysgol yn ceisio rhannu ei harfer dda a dysgu oddi wrth ysgolion eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

# Ysgol Gyfun Y Pant

## Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Saesneg 11-19 oed yw Ysgol Gyfun Y Pant, a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwasanaethu ardaloedd Pont-y-clun, Tonysguboriau, Brynna a Llanhari. Mae tua 1,300 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 205 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 12% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth adeg yr arolygiad ym mis Ionawr 2017 bellach wedi gadael yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae pennaeth dros dro a dirprwy bennaeth dros dro yr oedd y naill a'r llall yn yr ysgol adeg yr arolygiad yn arwain yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol arall.

## Strategaeth a chamau gweithredu

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi datblygu dull tair rhan hynod effeithiol o gynnal a gwella safonau rhagorol mewn deilliannau ac addysgu. Mae datblygu ymagwedd at addysgeg y mae staff yn ei deall ac yn ei chymhwyso'n gyson wedi bod yn ganolog i hyn. Ar yr un pryd, mae'r ysgol wedi datblygu mecanweithiau cadarn i ddatblygu athrawon yn ymarferwyr myfyriol, gan alluogi cyfleoedd pwrpasol i gydweithwyr rannu a myfyrio'n dda ar arfer ei gilydd. Yn olaf, mae'r ysgol wedi datblygu dull trylwyr o ddefnyddio data a thystiolaeth ansoddol i gefnogi ei harfarniad o addysgu a nodi meysydd pellach i'w gwella.

Mae cyd-ddealltwriaeth gref gan athrawon o'r effaith a gaiff addysgu effeithiol ar ddysgu a deilliannau disgyblion. Mae hyn yn ganolog i ddull yr ysgol o ddatblygu addysgu.

Mae polisi addysgu a dysgu'r ysgol yn disgrifio'i dull o addysgu a dysgu trwy egwyddorion allweddol. Mae'r ysgol yn cyfeirio at yr egwyddorion hyn gyda'i gilydd fel 'Ffordd Y Pant' ('Y Pant Way'). Mae'r polisi yn esbonio'r dull yn glir. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon newydd yn yr ysgol. Ar adegau strategol yng nghylch dysgu proffesiynol yr ysgol, mae arweinwyr yn atgyfnerthu a thrafod yr egwyddorion allweddol gyda phob un o'r staff.

Blaenoriaeth allweddol i dîm arweinyddiaeth yr ysgol wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn fu sicrhau eu bod yn parhau'n syml, yn gofiadwy ac yn berthnasol. Mae arweinwyr ac athrawon yn yr ysgol yn glir na ddylai'r dull hwn arwain at ddull

fformiwläig neu dicio blychau o arfarnu addysgu sy'n atal datblygiad ymreolaeth athrawon unigol. I'r gwrthwyneb, mae'r egwyddorion yn ffurfio fframwaith cyffredin i arwain a llywio trafodaethau am addysgu, dysgu a dysgu proffesiynol, lle caiff athrawon eu hannog i nodi a datblygu eu cryfderau eu hunain. Mae hyn yn sicrhau cyfuniad cyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu i ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae dull yr ysgol o addysgu a dysgu yn canolbwyntio ar yr egwyddorion hanfodol canlynol:

- Mae strwythur clir i'r holl ddysgu
- Cynhelir lefelau uchel o ymgysylltu
- Caiff dysgwyr eu herio'n ddigonol
- Ymgorfforir asesu ar gyfer dysgu
- Mae gofynion trawsgwricwlaidd yn ystyrlon a pherthnasol
- Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol rhwng athrawon a dysgwyr yn cefnogi dysgu

Mae arweinwyr a staff yn glir fod y ffocws cyson ar yr egwyddorion allweddol hyn gan bob un o'r staff wedi darparu man cychwyn hynod effeithiol ar gyfer trafodaethau am addysgu. Dros gyfnod, mae hyn wedi arwain at ddatblygu arfer hynod gyson ar draws yr ysgol. Mae hefyd wedi helpu creu diwylliant o ymreolaeth broffesiynol sy'n galluogi staff i roi gofynion polisi a mentrau cwricwlwm newydd ar waith mewn ffordd raddol, ystyriol a chymesur.

Mae prosesau sefydledig, sydd â'r nod o ddatblygu ethos o arfer fyfyriol yn yr ysgol, yn cryfhau'r dull cyson o addysgu a dysgu. Mae'r ysgol wedi rhoi llawer o gyfleoedd perthnasol ar waith i athrawon rannu eu profiad a'u harfer mewn cyd-destun sy'n caniatáu ar gyfer trafod a dadlau ystyrlon. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi symud oddi wrth yr arfer o ddefnyddio arsylwadau gwersi i farnu athrawon a gwersi, at un sy'n gweld arsylwadau fel cyfrwng ar gyfer nodi arfer orau a chyd-destun cyfoethog ar gyfer hyfforddi i athrawon sy'n ceisio gwella agweddau ar eu harfer. Mae arsylwadau cymheiriaid, wedi'u cynnal gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth ac arbenigwyr pwnc, yn helpu'r ysgol i gasglu gwybodaeth gyfoethog am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu ar draws yr ysgol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio blaenoriaethau mewn cynlluniau gwella ysgol gyfan ac adrannol.

Mae grwpiau bach o athrawon o fewn neu ar draws adrannau yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, sydd â ffocws clir ar nodi beth sy'n gweithio'n dda. Mae'r teithiau dysgu hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon rannu a myfyrio ar arfer orau. Mae arweinwyr yn neilltuo amser, fel rhan o raglen dysgu proffesiynol yr ysgol, i athrawon weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau o dri neu chwech i gynllunio, cwblhau ac adrodd ar deithiau dysgu. Mae staff yn rhannu a thrafod y canfyddiadau allweddol bob blwyddyn.

Mae'r grwpiau strategaeth ar ôl yr ysgol, sy'n rhan o amser cyfeiriedig athrawon, hefyd wedi rhoi cyfleoedd i staff ymgysylltu â phrosiectau ymchwil weithredu a'u datblygu. Mae'r grwpiau hyn yn gweithredu fel fforymau trafod i alluogi staff i ddilyn hynt a helynt mentrau mewn addysg a datblygu ymwybyddiaeth cydweithwyr o arferion addysgegol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cylch presennol, dewisodd

arweinwyr ystod o destunau academaidd i'w trafod. Dewisodd staff destunau oedd fwyaf perthnasol iddynt yn eu barn nhw, a chyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddarllen a thrafod eu testun, gan roi crynodeb o'u gwaith i bob un o'r staff ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o'r syniadau hyn yn eu hamser eu hunain, yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn oddefol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Yn ystod ail flwyddyn y cylch, cafodd cydweithwyr eu hannog i ystyried cymwysiadau ymarferol yr hyn roeddent wedi ei ddarganfod a dechrau prosiectau ymchwil weithredu unigol neu ar y cyd.

Mae'r ysgol yn ychwanegu at rannu arfer addysgegol dda a ddisgrifir uchod gyda diwrnodau dysgu proffesiynol o ansawdd da. Caiff staff ar draws yr ysgol gyfleoedd buddiol i gynllunio a chyflwyno'r rhain. Mae athro'n arwain pob sesiwn ac yn canolbwyntio ar faes y nodwyd ei fod yn arfer orau yn ei faes cyfrifoldeb ei hun. Er bod y diwrnodau a'r sesiynau hyn yn mynd i'r afael yn rheolaidd ag anghenion datblygiadol ysgol gyfan, mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i athrawon elwa ar ddewis mwy amrywiol o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigol.

Yn ychwanegol, mae ymglymiad yr ysgol â rhwydweithiau ysgolion eraill, er enghraifft trwy ei gwaith fel ysgol arloesi ac ysgol hwb dysgu proffesiynol ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De, wedi darparu cyfleoedd ystyrlon i staff weithio gydag ysgolion eraill i rannu a chasglu arfer orau.

Mae elfen olaf dull strategol yr ysgol o wella safonau mewn deilliannau ac addysgu yn ymwneud â'i dull trylwyr o ddefnyddio data a ffynonellau eraill o dystiolaeth ansoddol. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau trylwyr i arfarnu cynnydd disgyblion trwy ddatblygu ei mesur gwerth ychwanegol ei hun, sef 'Gweddilleb Y Pant' ('Y Pant residual'), y mae'n ei ddefnyddio i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5. Mae arweinwyr canol yn cynnal adolygiadau adrannol ar gyfer pob adran bob blwyddyn, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ogystal â'r deilliannau o weithgareddau craffu ar waith a llais y disgybl, arsylwadau gwersi a theithiau dysgu. Mae'r adolygiadau hyn yn darparu trosolwg cynhwysfawr o waith yr adran, gan lywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant adrannol. Mae'r gweithgareddau hyn yn llywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn eu tro.

Mae cyfarfodydd sicrhau ansawdd adrannol rheolaidd yn sicrhau bod staff ar draws yr ysgol yn cael eu cynnwys mewn arfarnu safonau gwaith disgyblion ac yn darparu cyfleoedd pellach i staff gyfnewid syniadau a rhannu arfer. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi helpu cryfhau gallu arweinwyr canol ar draws yr ysgol a sicrhau bod gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddull cyffredin o arfarnu safonau a nodi blaenoriaethau i'w gwella.

Mae'r ysgol yn ystyried data ar gynnydd disgyblion, deilliannau gweithgareddau llais y disgybl a chraffu ar waith fel y dangosyddion allweddol wrth arfarnu addysgu a dysgu yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn teimlo bod y gweithgareddau hyn yn darparu ffynhonnell wybodaeth fwy dibynadwy ac addysgiadol o lawer i nodi cryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau gwella na dibynnu ar ddeilliannau arsylwadau gwersi yn unig.

## Deilliannau

Mae'r ysgol yn dangos cryfderau ei dull o ddatblygu addysgu o ansawdd uchel trwy'r deilliannau cyson uchel a gyflawnir gan ddisgyblion. Mewn gwersi a thros gyfnod, mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Y Pant yn gwneud cynnydd cyson gryf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn gyson uwchlaw deilliannau wedi'u modelu, ac yn cymharu'n dda iawn â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn gwneud yn eithriadol o dda. Mae bechgyn, merched a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na'r grwpiau hyn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Barnodd adroddiad arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2017 fod ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn rhagorol ar y cyfan. Dywedodd arolygwyr fod yr ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol a bod hyn yn arwain at arfer ystafell ddosbarth hynod gyson ac effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i athrawon wella eu medrau, gan gynnwys cymryd rhan mewn ymchwil, sydd o fudd i'w harfer eu hunain ac arfer cydweithwyr eraill. Mae'r ysgol yn mynd ati i gynorthwyo ysgolion eraill, a chydweithio â nhw. Mae hyn wedi cryfhau arfer athrawon yn yr ysgol.

## Y camau nesaf fel y nodwyd gan yr ysgol

Wrth iddi symud ymlaen, mae'r ysgol yn glir am yr heriau y mae'n eu hwynebu a'r angen i barhau i ddatblygu a mireinio ei harfer i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer ei disgyblion. Mae ei chamau nesaf yn cynnwys:

- sicrhau bod teithiau dysgu a datblygiad proffesiynol athrawon yn canolbwyntio ar strategaethau i wella ymgysylltiad bechgyn â dysgu
- datblygu cydweithio ag ysgolion cynradd clwstwr ynglŷn â dulliau cyffredin o sicrhau dysgu ac addysgu rhagorol, gan gynnwys teithiau dysgu ar draws sectorau
- datblygu rôl disgyblion a llywodraethwyr mewn teithiau dysgu
- sicrhau bod egwyddorion allweddol yr ysgol ynghylch dysgu ac addysgu yn cael eu rhannu'n fwy effeithiol gyda rhieni
- datblygu mesurau cynnydd cadarn yng nghyfnod allweddol 3 yn unol â'r dull a ddefnyddir yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5

## Sail y Dystiolaeth

Mae'r arolwg thematig hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â 26 o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru sydd wedi gwella o fannau cychwyn gwahanol iawn, gan gynnwys ysgolion oedd angen gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad llawn gan Estyn ac ysgolion sydd wedi cynnal perfformiad da neu ragorol dros gyfnod. Cynhaliwyd yr ymweliadau â'r ysgolion yn ystod tymor yr hydref 2017. Yn yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag uwch arweinwyr, arweinwyr canol, athrawon dosbarth, staff cymorth dysgu a disgyblion i ddangos pob agwedd ar y modd yr oedd yr ysgol yn gwella ei harferion addysgu ac yn meithrin gweithlu cynaliadwy
- yn craffu ar brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, strwythur staffio a chofnodion datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol
- yn craffu ar samplau o waith disgyblion ac yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol
- yn cynnal teithiau dysgu gyda disgyblion

Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o:

- arolygiadau ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng mis Medi 2010 a mis Gorffennaf 2017

**Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw**

Ysgol Gynradd Deighton, Blaenau Gwent
Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg, Powys
Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe
Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd
Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIII, Sir Fynwy
Ysgol Uwchradd Llysweri, Casnewydd
Ysgol Gynradd Maes-y-Coed, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Gymunedol Neyland, Sir Benfro
Ysgol Gynradd Oldcastle, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Pontarddulais, Abertawe
Ysgol Gynradd Tŷ-Du, Casnewydd
Ysgol Gynradd Sgeti, Abertawe
Ysgol Gynradd Gymunedol Solfach, Sir Benfro
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Siôr, Conwy
Coleg Cymunedol Tonypandy, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent
Ysgol Gyfun Y Pant, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Bro Pedr, Ceredigion
Ysgol Cynwyd Sant, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Llanaelhaearn, Gwynedd
Ysgol Gynradd Parcyrhun, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Pencae, Caerdydd

Ysgol Syr Hugh Owen, Gwynedd
Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ceredigion
Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Academi Cymru** | Canolfan gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar gyfer rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth |
| **Addysgeg** | Y ddisgyblaeth sy'n delio â theori ac arfer addysgu. Mae addysgeg yn llywio strategaethau addysgu, gweithredoedd athro, a barnau a phenderfyniadau athro. |
| **Addysgu cyfunol** | Term sy'n cael ei gymhwyso yn gyffredinol i'r arfer o ddefnyddio profiadau dysgu ar-lein ac yn bersonol wrth addysgu disgyblion |
| **Arddulliau Dysgu** | Ystod o ddamcaniaethau cystadleuol a gwrthgyferbyniol sydd â'r nod o gyfrif am wahaniaethau yn nysgu unigolion. Mae'r damcaniaethau hyn yn cynnig y gellir dosbarthu pawb yn unol â'u 'harddull' ddysgu, er bod y damcaniaethau amrywiol yn cyflwyno safbwyntiau gwahanol ar sut y dylid diffinio a chategoreiddio'r arddulliau. |
| **Asesu ar gyfer dysgu** | Dull o addysgu a dysgu sy'n creu adborth, sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad disgyblion |
| **Astudio mewn gwersi** | Model Siapaneaidd o ymchwil wedi'i harwain gan athro lle mae triawdau o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu maes a nodwyd i'w ddatblygu yn nysgu eu disgyblion |
| **Brain Gym** | Rhaglen sy'n galw ar blant i ailadrodd rhai symudiadau syml fel cropian, dylyfu gên, gwneud symbolau yn yr awyr, ac yfed dŵr, yr honnir eu bod yn cynyddu llif y gwaed i'r ymennydd, yn "integreiddio" yr ymennydd, ac yn "ailgynllunio" yr ymennydd |
| **Cyfarfodydd Athrawon (Teach Meets)** | Cyfarfodydd trefnus ond anffurfiol i athrawon rannu arfer dda, arloesi ymarferol a mewnwelediadau personol ar addysgu |
| **Cynllun ysgolion creadigol arweiniol** | Cynllun a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd â'r nod o hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion cyfranogol trwy ddarparu cyfle i ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a theilwredig sydd wedi'i chynllunio i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu |

| | |
|---|---|
| **Deilliannau wedi'u modelu** | Rhagfynegiad o berfformiad cymedrig ysgol ar sail y berthynas ystadegol rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dangosydd penodol |
| **Dyfodol Llwyddiannus** | Adroddiad ar drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Mae'n amlygu diffygion trefniadau'r cwricwlwm presennol ac yn nodi pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'n argymell y dylid cynllunio cwricwlwm cyfan yr ysgol i helpu pob un o'r plant a'r bobl ifanc i fod:<br>• yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau<br>• yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd<br>• yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas |
| **Enillion ymylol cronedig** | Theori a ysbrydolwyd gan yr athroniaeth a ategodd lwyddiant Tîm Beicio Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Llundain a Beijing. Yr athroniaeth yw canolbwyntio ar wneud ychydig o bethau bach yn arbennig o dda. |
| **Graddfa ymglymiad Leuven** | Graddfa bum pwynt a gynlluniwyd gan yr Athro Ferre Laevers i fesur lles ac ymglymiad plentyn i asesu lefel y dysgu sy'n digwydd |
| **GROW** | Sgwrs strwythuredig am hyfforddi. Mae GROW yn sefyll am y canlynol:<br>• Goal (Nod) (beth ydych chi eisiau ei gyflawni)<br>• Reality (Realiti) (ble rydych chi nawr)<br>• Options (Opsiynau) (sut gallech chi gyflawni'ch nod)<br>• Will or Way Forward (Ewyllys neu'r Ffordd Ymlaen) (beth ydych chi'n mynd i'w wneud) |
| **Gwahaniaethu** | Y broses i ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau rhwng disgyblion fel bod pob disgybl mewn grŵp neu ddosbarth yn cael y cyfle gorau posibl mewn dysgu |
| **Her Ysgolion Cymru** | Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n werth miliynau o bunnoedd, a gyflwynwyd i wella perfformiad yn rhai o'r ysgolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf yng Nghymru |
| **HWB** | "Platfform dysgu" digidol sydd wedi'i gynllunio i alluogi'r holl ddisgyblion ac athrawon yng Nghymru i elwa'n fwy ar adnoddau ar-lein |

**Metaddadansoddiadau** Dadansoddiadau ystadegol sy’n cyfuno canlyniadau astudiaethau gwyddonol lluosog

**OECD** Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

**Tasgau cyfoethog** Prosiectau sy’n cysylltu gwahanol bynciau (rhyngddisgyblaethol) ac yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu

**Triawdau** Grwpiau o dri o athrawon yn arsylwi addysgu ac yn cynllunio gyda’i gilydd

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Ionawr 2018]

Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2015-2016.* Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202015_2016_Welsh.pdf [Defnyddiwyd 9 Mai 2017]

Hargreaves, A. & Fullan, M. (2012) *Professional Capital: Transforming Teaching in Every School.* New York: Teachers College Press

Hattie, J. (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-Analyses Relating to Achievement.* Abingdon: Routledge

Hattie, J. (2012) *Visible learning inside: maximizing student achievement.* London: Routledge

Hattie, J., Masters, D. & Birch, K. (2016) *Visible Learning into Action International case Studies of Impact.* Abingdon: Routledge

Lally, P., van Jaarsveld, C.H.M., Potts, H.W.W. & Wardle, J. (2010) How are habits formed: Modelling habit formation in the real world. *European Journal of Social Psychology*, **40**(6), 998-1009

Llywodraeth Cymru (2013) *Cymunedau dysgu proffesiynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130830-plc-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2016) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol - Canllawiau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160831-dcf-guidance-cy-v2.pdf [Defnyddiwyd 30 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017*-21. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Defnyddiwyd 16 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cronfa Ddata Addysg Cymru*. Heb ei chyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017d) *Casgliad Data Cenedlaethol.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140626-skills-framework-for-3-19-year-olds-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130424-making-the-most-of-learning-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Ionawr 2018]

OECD (2014) *Improving School in Wales: An OECD Perspective.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/unitedkingdom/FINAL%20Improving%20Schools%20in%20Wales%20-%20An%20OECD%20Perspective%20-%20with%20cover.pdf [Defnyddiwyd 19 Ebrill 2017]

OECD (2016) *What makes a school a learning organisation* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/edu/school/school-learning-organisation.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2017]

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A rapid policy assessment.* Paris: OECD [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/edu/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf [Defnyddiwyd 9 Mai 2017]

Pashler, H., Mcdaniel, M., Rohrer, D. & Bjork, R. (2008) Learning Styles Concepts and Evidence. *Psychological Science in the Public Interest*, **9**(3), 105-119

Whitmore, J. (1999) *Coaching for Performance: Growing People, Performance and Purpose,* London: Nicholas Brealey Publishing

Wiliam, D. (2016) *Leadership (for) Teacher Learning.* West Palm Beach: Learning Sciences